Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Rheoleiddio'r Proffesiwn Iechyd: edrych i'r dyfodol gydag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/2018



UK 1119
SG/2018/86

professional standards authority

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Rheoleiddio’r Proffesiwn Iechyd: edrych i’r dyfodol - gydag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/2018

Cyflwynwyd i’r Senedd yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 16 (2) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y’i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a’r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y’i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a’r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â’r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y’i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a’r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â’r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y’i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a’r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gorchymynnwyd i’w argraffu gan Dŷ’r Cyffredin 28 Mehefin 2018.

**HC 1119**
**SG/2018/86**

professional standards authority

© Hawlfraint y Goron 2018

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn info@professionalstandards.org.uk

ISBN 978-1-5286-0527-4

CCS0618839108 06/18

Wedi’i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi’i ailgylchu o 75%

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Rhagair ........ 1

**Rheoleiddio'r Proffesiwn Iechyd: edrych i'r dyfodol** ........

1. Cyflwyniad ........ 3
2. Cyfeiriad polisïau'r Llywodraeth ........ 4
3. Diwygiadau i lywodraethiad rheolyddion ........ 6
4. Newidiadau i addysg yn cynnwys addasrwydd i ymarfer parhaus ........ 8
5. Pŵer trosolwg ........ 10
6. Addasrwydd i ymarfer ........ 18
7. Cofrestrau Achrededig ........ 31
8. Pŵer perswâd ........ 38
9. Cleifion yn ganolog i reoleiddio proffesiynol ........ 42
10. Atal niwed ........ 43

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/2018** ........

1. Adroddiad perfformiad ........ 45
2. Adroddiad Atebolrwydd ........ 64
3. Adroddiad tâl a staff ........ 78
4. Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwilio ........ 86
5. Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon ........ 89
6. Datganiadau ariannol – sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018 ........ 93
7. Datganiadau ariannol – gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ........ 94
8. Datganiadau ariannol – llif arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ........ 95
9. Datganiadau ariannol – newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ........ 96
10. Nodiadau ar y cyfrifon ........ 97

# Rhagair



Mae'r Awdurdod yn parhau i berfformio'n dda; mae'n cynnal ansawdd uchel ei allbynnau ac yn gweithio o fewn ei egwyddorion busnes a chyllideb.

Mae rheolyddion wedi parhau i berfformio'n gyffredinol dda yn erbyn ein Safonau Rheoleiddio Da. Fodd bynnag, maent yn parhau i gael eu llesteirio gan ddeddfwriaeth sydd wedi dyddio, yn arbennig parthed addasrwydd i ymarfer, sy'n esbonio ein galwad am ddiwygio. Er bod y nifer o achosion addasrwydd i ymarfer wedi codi'n sylweddol yn ystod y ddegawd ddiwethaf, rydym wedi gweld rhywfaint o leihad yn y nifer o achosion eleni.

Rydym yn parhau i weld 100 o gofrestrau achrededig yn ailymgeisio i adnewyddu eu hachrediad, ond eleni fe ddiddymwyd achrediad un gofrestr. Yn dilyn ymgynghoriad ffioedd, fe bennom ein bod wedi cyrraedd terfyn fforddiadwyedd ac y byddai angen cymhorthdal parhaus gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynnal y rhaglen yn y dyfodol rhagweladwy. Roeddem yn falch i dderbyn ymateb positif. Mae'r rhaglen nawr yn cwmpasu 85,000 o ymarferwyr. Roeddem yn arbennig o falch i weld cynhwysiad seicolegwyr clinigol a'r diwydiant gwyddorau bywyd, sy'n gam ymlaen tuag ddiogelu'r cyhoedd.

Ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, fe gychwynnom adolygiad gwersi a ddysgwyd o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn archwilio

sut y deliodd ag achosion ynghylch addasrwydd i ymarfer bydwragedd yn Ysbyty Cyffredinol Furness yn Morecambe Bay. Bydd ein hadroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2018.

Eleni gofynnwyd i ni hefyd ddarparu cyngor i lywodraeth yr Alban ar reoleiddio galwedigaeth mewn llai na phedair o holl wledydd y Deyrnas Unedig. Roedd hyn yn dilyn y penderfyniad reoleiddio Nyrsys Cyswllt yn Lloegr yn unig. Mae'r rhan fwyaf o alwedigaethau rheoledig eraill yn cael eu rheoleiddio ar sail y Deyrnas Unedig gyfan.

Fe barhaom i ddatblygu ein syniadau ar ddiwygio rheoleiddio wrth gyhoeddi *Diwygio cyffyrddiad cywir*. Croesawom a darparu ymateb i ymgynghoriad y llywodraeth *Hyrwyddo proffesiynoldeb: diwygio rheoleiddio* ac edrychwn ymlaen at weld cynnydd ar newid deddfwriaethol.

Rydym yn parhau i gael ein calonogi o ran sut mae ein cydweithwyr rheoleiddiol rhyngwladol yn croesawu a mabwysiadu ein syniadau a chyhoeddiadau. Mae'r cyfnewid syniadau rhyngom yn darparu dysgu gwerthfawr.

Rwy'n edrych yn ôl ar ein blwyddyn fel Cadeirydd gan wybod bod ein perfformiad ein hunain yn parhau i fod yn gryf, bod ein sylfaen ariannol yn sicr a bod ein henw da yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol yn parhau i dyfu. Mae hyn yn sylfaen dda i wynebu'r heriau sydd i ddod.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n ddwy ran: mae'r cyntaf yn drosolwg o reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal a gwaith y rheolyddion a chofrestrau achrededig; a'r ail yw'r adroddiad blynyddol a chyfrifon yr Awdurdod ei hun.



**George R Jenkins OBE**
**Cadeirydd**

# Rheoleiddio'r Proffesiwn Iechyd: edrych i'r dyfodol

# 1. Cyflwyniad

1.1 Sefydlwyd y Cyngor dros Reoleiddio Gweithwyr Iechyd, fel y galwyd yr Awdurdod yn wreiddiol, oherwydd yr angen i ddal rheolyddion proffesiynol yn atebol ac i wella ansawdd rheoleiddio yn dilyn Ymchwiliad Kennedy.[1] Yn ymateb y Llywodraeth yn 2002, dywedodd y byddai'n sefydlu:

- 'Cyngor newydd i Reoleiddio Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol i gryfhau a chydlynu'r system o hunan reoleiddio proffesiynol; a
- Diwygio'r trefniadau presennol i reoleiddio proffesiynau gofal iechyd unigol fel bod cleifion yn ganolog i reoleiddio proffesiynol.'[2]

1.2 Mae'r bwriad hwnnw i ddiwygio wedi bod yn nod i bolisi'r llywodraeth, weithgareddau'r rheolyddion a throsolwg yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ers dros ddegawd. Mae'n nod nad yw wedi ei chyflawni'n llwyr eto.

1.3 Yn y trosolwg hwn yn 2017/18 o reoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig, ystyriwn ei bod yn amserol, wrth i ni aros eto fyth am y ddeddfwriaeth a addawyd ond na ddarparwyd, ei bod yn amserol i edrych yn ôl ar beth sydd wedi ei gyflawni i gryfhau ac i gydlynu rheoleiddio proffesiynol ac i roi cleifion yn ganolog i hyn.

---

[1] Yr Athro Ian Kennedy, Cadeirydd. (2001). *The report of the public inquiry into children's heart surgery at the Bristol Royal Infirmary 1984-1995: learning from Bristol*

[2] Adran Iechyd, (2002*) Response to the report of the Public Inquiry into children's heart surgery at the Bristol Royal Infirmary*

# 2. Cyfeiriad polisïau'r Llywodraeth

2.1 Y bwriad polisi sy'n sail i'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio iechyd a gofal yw creu system sy'n diogelu cleifion a'r cyhoedd rhag niwed ac yn gwella deilliannau iechyd. Mae rheoleiddio proffesiynol yn chwarae ei ran trwy osod safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant, ymddygiad a chymhwyster a thrwy weithredu i gael gwared ar weithwyr iechyd a gofal anaddas pan fydd angen i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd. Mae'r safonau a osodwyd gan y rheolyddion proffesiynol yn berthnasol ble bynnag mae gweithwyr iechyd a gofal yn gweithio – yn cynnwys yn y GIG, y sector preifat ac awdurdodau lleol.

2.2 Erbyn 2007, dechreuodd polisi'r llywodraeth gydnabod rhai o gyfyngiadau rheoleiddio a manteision symud i ymagwedd fwy seiliedig ar risg i sicrhau'r gweithlu. Cynigiodd *Trust, Assurance and Safety* fesurau i sicrhau annibyniaeth rheolyddion a'r angen i weithwyr proffesiynol arddangos ei haddasrwydd i ymarfer parhaus o bryd i'w gilydd, wedi iddynt gael eu cofrestru.[3]

2.3 Cychwynnodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 gyfres o ddiwygiadau i lywodraethu rheolyddion proffesiynol, gan leihau maint eu Cynghorau a chryfhau cyfraniad aelodau lleyg. Roedd hefyd yn newid cyfansoddiad Cyngor llywodraethol yr Awdurdod (bellach ei Fwrdd). Cyflwynodd y Ddeddf ddyletswydd ar yr Awdurdod i ymgynghori a hysbysu'r cyhoedd ac ymestyn cylch gorchwyl yr Awdurdod.

2.4 Erbyn 2011, cydnabu'r llywodraeth yr angen am system fwy hyblyg o reoleiddio. Nododd y Papur Gorchymyn *Enabling Excellence*[4] fod rheoleiddio statudol yn gofyn am ymyrraeth barhaus gan lywodraeth i fod yn gyfredol, a'i fod yn gostus, cymhleth a bod 'tensiwn rhwng diogelu rolau proffesiynol dan y gyfraith ac uchafu hyblygrwydd yn y gweithlu yn gyffredinol'. Comisiynodd y llywodraeth yr Awdurdod i gyflawni adolygiad cost-effeithiolrwydd[5] gan ragweld y byddai'r rheolyddion yn ei ddefnyddio i nodi gostyngiadau cost sylweddol a datgan pe na fyddent, byddai'r llywodraeth yn edrych eto ar y posibiliad o ad-drefnu.

2.5 Roedd y papur hefyd yn cynnig ymagwedd newydd unigryw i reoli risgiau gweithwyr heb eu rheoleiddio, trwy system o 'gofrestriad sicr'. Yn 2012, rhoddodd y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfrifoldeb i'r Awdurdod o sefydlu'r hyn sydd bellach ei raglen cofrestrau achrededig. Cychwynnodd Comisiynau'r Gyfraith hefyd adolygiad o'r ddeddfwriaeth unigol yn cwmpasu'r naw o reolyddion proffesiynol gyda'r bwriad o'i ddisodli gydag un Ddeddf unigol.

2.6 Cyhoeddodd Comisiynau'r Gyfraith eu hadroddiad terfynol a Bil drafft yn 2014, gan sefydlu fframwaith deddfwriaethol unigol newydd ar gyfer rheoleiddio'r holl weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.[6] Nod y diwygiadau oedd cynyddu cysondeb, ond hefyd i roi mwy o hyblygrwydd i'r rheolyddion. Mynegodd yr Awdurdod bryder er bod hyn yn ddefnyddiol i raddau, fod y cynigion trwy rinwedd eu cylch gorchwyl yn rhy gyfyngedig i gyflawni'r diwygiad mwy radical y credwn i fod yn

---

[3] Yr Adran Iechyd, (2007).*Trust, assurance and safety: the regulation of health professionals in the 21st century*

[4] Yr Adran Iechyd, (2011). *Enabling Excellence Autonomy and Accountability for Healthcare Workers, Social Workers and Social Care Workers*

[5] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2012). *Review of the cost effectiveness and efficiency of the health professional regulators*

[6] Comisiynau'r Gyfraith, (2012). *Regulation of health care professionals*

angenrheidiol. Felly fe groesawom ymgynghoriad 2017 y llywodraeth *Promoting professionalism, reforming regulation* ac rydym yn awyddus i weld cynnydd ar y diwygiad hwn.[7]

2.7 Mae rheoleiddiad o’r mwyafrif o broffesiynau presennol yn fater sydd a gedwir yn ôl, sy'n golygu fod y pŵer i’w drafod yn Senedd y Deyrnas Unedig yn San Steffan. Mae pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi datgan eu hymroddiad i reoleiddio ledled y Deyrnas Unedig yn gyson, er i Loegr benderfynu eleni, am y tro cyntaf, i fwrw ymlaen gyda rheoleiddio galwedigaeth newydd, Nyrsys Cyswllt, heb gefnogaeth y gwledydd eraill. Mae Gweithwyr Cymdeithasol eisoes wedi eu rheoleiddio ar wahân yn y pedair gwlad, ac yn Lloegr mae cyfrifoldeb ar fin cael ei drosglwyddo oddi wrth y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) i reoleiddiwr newydd, Social Work England.

[7] Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, (2017). *Promoting professionalism, reforming regulation – a paper for consultation*

# 3. Diwygiadau i lywodraethiad rheolyddion

3.1 Cafwyd cynnydd sylweddol o ran cryfhau trefniadau llywodraethu rheolyddion. Nid oes gan yr Awdurdod safonau ar gyfer trefniadau llywodraethu rheolyddion ar y sail, fel rheolyddion annibynnol, y dylai eu Cynghorau fod yn gyfrifol am sicrhau y'i gweinyddir yn briodol. Fodd bynnag, rydym wedi cyfrannu ar welliant mewn nifer o ffyrdd.

3.2 Sefydlodd y Papur Gorchymyn, *Trust, Assurance and Safety*[8] gyfres o ddiwygiadau llywodraethu i sicrhau annibyniaeth ac atebolrwydd rheolyddion gweithwyr iechyd a gofal. Roedd hyn yn cynnwys:

- Diwygio cyfansoddiad Cynghorau fel bod yna nifer gyfartal o aelodau proffesiynol a chyhoeddus, ac i fod yn 'llai a thebycach i Fwrdd' o faint tebyg a gyda rôl gyson ar draws yr holl reolyddion
- Y byddai rheolyddion yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i Senedd y Deyrnas Unedig, ac i Weinyddiaethau Datganoledig os ydynt yn rheoleiddio proffesiynau y mae eu rheoleiddiad yn fater sydd wedi ei ddatganoli
- Newidiadau i'r CHRE i greu bwrdd unedol bychan yn rhydd o unrhyw aelodaeth gweithwyr iechyd neu ofal
- Sefydlu'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol, yn gwahanu rheoleiddio o'r corff proffesiynol (ac eithrio Gogledd Iwerddon).[9]

3.3 I'r fath raddau ag y mae'n berthnasol i lywodraethu, roedd y newidiadau yn adeiladu ar ein hargymhellion yn adroddiad y CHRE *Special Report to the Minister of State for Health Services on the Nursing and Midwifery Council*,[10] yn benodol 'na ddylid cael unrhyw aelodau cynrychiadol ar y cyngor newydd ac na ddylid cadw llefydd ar gyfer grwpiau buddiant. Dylid penodi pob aelod, p'un ai'n gofrestrai neu'n gyhoeddus, yn erbyn cymwyseddau diffiniedig a dylent fod yn amodol i werthusiad'.

3.4 Adroddodd CHRE ar gais gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym Medi 2011 ar *Board size and effectiveness: advice to the Department of Health regarding health professional regulators*.[11] Maint cyfartaledd cymedrig cynghorau'r rheolyddion ar y pryd oedd 17, yn amrywio o 24 (GDC a GMC) i lawr i 12 (GOC). Yn y cyngor hwnnw, fe gasglom fod byrddau llai, yn amrywio o wyth i 12 aelod, yn gysylltiedig gyda mwy o effeithiolrwydd, ac y byddai'n bosibl symud i gynghorau llai ar draws rheolyddion gofal iechyd heb gyfaddawdu ar effeithiolrwydd. Casglom y byddai bwrdd llai yn llai tebygol o ymwneud â materion amhriodol sy'n faterion priodol i'r gweithgor, ac y byddai'n helpu symud i ffwrdd o swyddogaethau cynrychiadol.

[8] Yr Adran Iechyd, (2007).*Trust, assurance and safety: the regulation of health professionals in the 21st century*
[9] Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon sy'n rheiddio fferyllwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n dal i gyfuno swyddogaethau corff proffesiynol a rheoleiddiwr.
[10] CHRE, (2008). *Special report to the Minister of State for Health Services on the Nursing and Midwifery Council*
[11] CHRE, (2011). *Board size and effectiveness: advice to the Department of Health regarding health professional regulators*

3.5 Ar gais Prif Weithredwr y GIG, cyhoeddom *Standards for members of NHS boards and Clinical Commissioning Groups*[12] yn Nhachwedd 2013, ble pwysleisiom y dylai holl aelodau byrddau'r GIG a byrddau llywodraethu CCG ddeall a bod yn ymroddedig i ymarfer llywodraethu da ac i'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio maent yn gweithredu ynddynt. Fel unigolion, pwysleisiom fod yn rhaid iddynt ddeall rhychwant a chyfyngiadau eu cyfrifoldebau personol. Mynegwyd y safonau fel cyfres o ymrwymiadau personol yn cwmpasu egwyddorion busnes, cymhwyster technegol ac ymddygiadau personol.

3.6 Yn Hydref 2012, fe gyhoeddom ganllaw ar arfer da wrth wneud penodiadau i gynghorau, wrth i ni ddeddfu ein rôl i ddarparu cyngor i'r Cyfrin gyngor am argymhellion a wnaed gan y rheolyddion ar gyfer penodiadau i'w cynghorau.

3.7 Daeth y CHRE i fod yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol o 1 Rhagfyr 2012, gyda'i rôl a dyletswyddau wedi eu sefydlu yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

3.8 Ym Mawrth 2013, fe gyhoeddom *Fit and Proper? Governance in the public interest.*[13] Erbyn hyn, roeddem wedi sicrhau cynnydd arwyddocaol ar ailgyfansoddi cynghorau'r rheolyddion, gan symud i ffwrdd o hunan reoleiddio proffesiynol a thuag at rannu rheoleiddio rhwng gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd er lles cymdeithas yn gyffredinol.

3.9 Yn fwy diweddar, rydym wedi datblygu cyfres o safonau llywodraethu da pan gawsom ein comisiynu i adolygu perfformiad Coleg Nyrsys Cofrestredig Columbia Brydeinig, yn cynnwys ei lywodraethu.

3.10 Wrth ysgrifennu hyn, rydym yn cymryd rhan mewn adolygiad o lywodraethu a deddfwriaeth EGBC, rheoleiddiwr a chymdeithas broffesiynol peirianwyr a geowyddonwyr Columbia Brydeinig. Rydym wedi defnyddio'r safonau llywodraethu a ddatblygom ar gyfer yr adolygiad blaenorol yng Nghanada, gan ei addasu fel fo angen i fod yn briodol ar gyfer deddfwriaeth a chyd-destun yr EGBC.

[12] Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2013) *Standards for members of NHS boards and Clinical Commissioning Groups*
[13] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2013). *Fit and Proper? Governance in the public interest*

# 4. Newidiadau i addysg yn cynnwys addasrwydd i ymarfer parhaus

4.1 Un o gyfrifoldebau statudol craidd y rheolyddion yw sicrhau bod y rhai sy'n cael cymhwyster o gyrsiau addysg a hyfforddiant yn ffit i ymarfer ac ymuno â'r gofrestr ar gyfer eu proffesiwn. Mae sicrhau ansawdd y cyrsiau mae cofrestryddion posibl yn cwblhau yn un o'r prif ffyrdd mae rheolyddion yn cyflawni hyn. Mae rheolyddion hefyd yn cyflawni rolau eraill parthed addysg a hyfforddiant yn cynnwys sicrhau ansawdd hyfforddiant arbenigol ôl-raddedig, achredu rhaglenni tanysgrifio annibynnol, asesu gweithwyr proffesiynol tramor a chanllaw i fyfyrwyr ar broffesiynoldeb. Rhaid i Gofrestrau Achrededig gael prosesau yn eu lle i sefydlu safonau addysgol a sicrhau y bodlonir y rhain parthed galwedigaethau heb eu rheoleiddio. Mae'r Awdurdod yn asesu perfformiad rheolyddion a chofrestrau achrededig wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn erbyn ei *Safonau Rheoleiddio Da* a *Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig* yn eu trefn.

4.2 Yn 2009, cawsom ein comisiynu gan yr Adran Iechyd i adrodd ar *Sicrhau ansawdd addysg israddedig gan y rheolyddion gofal iechyd proffesiynol*.[14] Fe amlinellom y gwahaniaethau a thebygolrwydd a gwneud argymhellion ar gyfer ymarfer da. Nid yw'n fawr o syndod fod yna amrywiaeth rhwng cyfrifoldebau ac ymagweddau'r rheolyddion o ystyried y nifer o reolyddion, niferoedd y proffesiynau a chyrsiau addysgol yn parhau i fod yn bennaf ar gyfer un proffesiwn yn hytrach nag ar draws proffesiynau, er bod gofal iechyd yn cael ei gyflawni gan dimau amlddisgyblaethol.

4.3 Cafwyd cynnydd yn y ddeddfwriaeth bresennol i symleiddio prosesau a dilyn ymagwedd sy'n fwy seiliedig ar risg. Fodd bynnag, fel y sefydlom yn *Right-touch reform* mae yna asiantaethau lluosog yn y sector addysg gyda dylanwad rheoleiddiol dros addysg uwch a phellach, gyda rhywfaint o orgyffwrdd a dyblygiad. Mae strwythur rheoleiddiol addysg uwch yn Lloegr yn mynd trwy gyfnod o newid sylweddol ynghyd â dargyfeiriad cynyddol mewn dulliau ar draws y pedair gwlad.

4.4 Un maes ble cafwyd cynnydd arwyddocaol oedd ym mecanweithiau datblygol y rheolyddion i ofyn i gofrestryddion arddangos eu haddasrwydd i ymarfer parhaus. Mae hyn wedi gwrthdaro'n gynyddol gyda'u gwaith i osod a hyrwyddo safonau. Yn dilyn diwygiad y GMC o ailddilysu meddygol wedi Ymchwiliad Shipman a'r farn a fynegwyd gan y Llywodraeth yn *Enabling Excellence* fod yn rhaid i unrhyw gynllun a gyflwynir gan y rheolyddion eraill fod yn gymesur, cyhoeddodd yr Awdurdod ei bapur yn 2012, *An approach to assuring continuing fitness to practise based on right-touch regulation principles.*[15] Roedd hyn yn amlinellu continwwm o wahanol fframweithiau ar gyfer sicrwydd parhaus, yn seiliedig ar y lefel o risg i'w daclo ac amlinellu i'r diben: i sicrhau bod cofrestryddion yn parhau i fodloni safonau ymddygiad a chymhwyster. Ers hynny, mae sbectrwm o wahanol ddulliau wedi ymddangos, gydag enghreifftiau yn amrywio o system y GMC o ailddilysu sy'n gofyn i feddygon gymryd rhan mewn systemau gwerthuso lleol a derbyn cymeradwyaeth gan Swyddog Cyfrifol lleol sy'n cadarnhau ei gyfranogiad parhaus mewn gweithgaredd ailddilysu, i'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), sy'n amlinellu cyfres o feini prawf DPP y dylai cofrestryddion gydymffurfio â nhw ac sy'n

---

[14] CHRE, (2009). [Quality assurance of undergraduate education by the healthcare professionals]()
[15] CHRE, (2012). [An approach to assuring continuing fitness to practise based on right-touch regulation principles]()

gofyn i unigolion fyfyrio ar eu hymarfer eu hunain. Mae proses ailddilysu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn debyg i'r GMC, gyda'r rheolydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am adnewyddiad cofrestrydd. Mae themâu cyffredin ar draws y systemau a sefydlwyd gan y cyrff rheoleiddio yn cynnwys defnyddio adolygiad cyfoedion ac adborth a myfyrio unigol ar ymarfer.

# 5. Pŵer trosolwg

5.1 Mae ein gallu i graffu ar berfformiad rheolyddion trwy'r broses adolygiad perfformiad yn allweddol i'n gallu i hysbysu'r Senedd os ydynt yn cyflawni eu swyddogaethau yn briodol. Mae'r broses yn ein galluogi i edrych ar berfformiad y rheolydd parthed materion mesuradwy hawdd, megis faint o amser a gymerwyd i faterion gael eu cwblhau, ond hefyd ansawdd y gwaith. Rydym yn asesu os yw'r rheolyddion yn dilyn prosesau priodol, os yw penderfyniadau yn gyson gyda'r prosesau hynny, ac yn rhesymol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Credwn fod hyn yn allweddol er mwyn sicrhau'r Senedd fod y rheolyddion yn gweithredu'n annibynnol, yn effeithiol ac er lles cleifion.

5.2 Mae'r swyddogaeth hon wedi bod yn bwerus o ran annog gwelliant gan y rheolyddion, cynnal safonau a'n galluogi i asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddio cyffredinol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg unigryw i ni o safonau proffesiynol ymysg y gweithlu a reoleiddir (ac yn fwy diweddar na reoleiddir). Y mewnwelediad hwn sydd wedi ein harwain i argymell y diwygiadau radical a gynigiom yn *Right-touch reform*[16] a'n hymateb i ymgynghoriad y llywodraeth *Promoting professionalism, reforming regulation.*

5.3 Rydym yn asesu perfformiad rheolyddion yn erbyn ein *Safonau Rheoleiddio Da*. Mae yna o 24 o Safonau wedi eu rhestru dan bedwar pennawd gwahanol: Canllaw a Safonau, Addysg a Hyfforddiant, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer.

5.4 Mae'r Safonau wedi eu sefydlu ers 2010 ac wedi bod yn bwysig o ran ein galluogi i asesu perfformiad yn y meysydd allweddol o weithgareddau'r rheolyddion. Fodd bynnag, mae arfer da mewn rheoleiddio yn symud ymlaen ac rydym wedi bod yn poeni fod angen diwygio'r safonau er mwyn cipio'r ystod lawn o weithgareddau. Ers i'r Safonau gwreiddiol ddod i rym, mae llawer wedi newid ym maes addasrwydd i ymarfer parhaus. Felly hefyd, mae'r rheolyddion yn mabwysiadu dulliau newydd o ddelio gydag achosion addasrwydd i ymarfer trwy symud i Archwilwyr Achosion yn hytrach na phwyllgorau yn asesu achosion ac yn edrych ar ddulliau mwy cydsyniol o waredu achosion.

5.5 Felly rydym wedi cychwyn adolygiad o'r Safonau a chyhoeddi papur ymgynghori ym Mehefin 2017. Gofynnodd yr ymgynghoriad am wahanol fodelau ar gyfer y Safonau a'r materion y dylent edrych arnynt. Gofynnodd yn benodol a ddylem edrych ar drefniadau llywodraethu'r rheolydd ac ar ymagwedd y rheolydd tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth. Derbyniom 29 ymateb i'r papur ymgynghori a chynnal cyfarfodydd gyda'r rheolyddion a rhanddeiliaid eraill i drafod y cynigion. Byddwn yn cyhoeddi papur arall yn sefydlu'r Safonau newydd ym Mehefin 2018.

5.6 Rydym yn casglu data'r adolygiad perfformiad yn chwarterol, sy'n ein galluogi i nodi tueddiadau gydag amser ac mae wedi ein helpu i dreiddio i lawr i feysydd o berfformiad y rheolyddion ac i gael gwell dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau. Mae'r adborth a dderbyniom gan y rheolyddion wedi bod yn bositif. Mae hefyd wedi galluogi'r Awdurdod i nodi pryderon. Credwn fod y broses yn drylwyr a chymesur. Rydym wedi nodi wyth eitem o wybodaeth ystadegol sydd, yn ein barn ni, yn gymaryddion allweddol ar draws y Safonau Rheoleiddio Da, gan ddweud y byddwn

[16] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2017). [Right-touch reform: a new framework for the assurance of professions]()

yn adrodd yn rheolaidd ar yr eitemau hyn. Isod ceir tabl yn cyflwyno hyn ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017-31 Mawrth 2018, y data y mae pob un o'r rheolyddion iechyd a gofal wedi ei ddarparu i ni. Nid yw'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gennym.

| Data ar gyfer 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018 | GCC | GDC | GMC | GOC | GOsC | GPhC | HCPC | NMC | PSNI |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o gofrestryddion** | 3,255 | 99,347 | 289,029 | 30,759 | 5,288 | 92,973 yn cynnwys 14,348 eiddo | 361,061 | 690,278 | 2,502 |
| **Nifer o geisiadau cofrestru cychwynnol newydd a dderbyniwyd** | 194 | 7,729 | 15,216 | 2,982 | 248 | 25 | 22,026 | 25,459 | 175 |
| **Nifer o apeliadau cofrestru a gwblhawyd ble na chyflwynwyd gwybodaeth newydd, ac a ategwyd.** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **Canolrif amser (mewn dyddiau) a gymerwyd i broses ceisiadau cofrestru cychwynnol ar gyfer:** | | | | | | | | | |
| • **Graddedigion y Deyrnas Unedig** | 1 | 10 | 1 | 6 | 2 | Fferyllwyr = 17 Technegydd Fferyllfa = 9 | 5 | 0 | 3 |
| • **Graddedigion Rhyngwladol nad ydynt o'r UE** | 1 | 14 | 27 | 14 | 30 | Fferyllwyr = 6 Technegydd Fferyllfa = 5 | 44 | 1 | 0 |
| • **Graddedigion yr UE** | 1 | 55 | 1 | 8 | 52 | Fferyllwyr = 17 Technegydd Fferyllfa = 0 | 49 | 0 | 5 |
| **Ffi dargadw flynyddol** | £800 | £890 deintyddion £116 Gweithwyr gofal deintyddol | £425 *o 1 Ebrill 2018 ffi dargadw flynyddol = £390 | £330 | £320 (blwyddyn 1) £430 (blwyddyn 2) £570 (blwyddyn 3 ymlaen) | £250 (Fferyllydd) £118 (Technegydd Fferyllfa) £241 (Eiddo) | £90 | £120 | £398 |

| | GCC | GDC | GMC | GOC | GOsC | GPhC | HCPC | NMC | PSNI |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amser a gymer (mewn wythnosau) o dderbyn cwyn cyntaf i benderfyniad y pwyllgor archwilio terfynol:** | | | | | | | | | |
| • **Canolrif amser i ddod i gasgliad** | 26 | 46 | 29.4 | 47 | 24 | 52 | 41 | 41 | 47 |
| • **Achos hiraf i ddod i gasgliad** | 129 | 273 | 342.9 | 237 | 115 | 231 | 227 | 262 | 54 |
| • **Achos cyflymaf i ddod i gasgliad** | 5 | 11 | 1 | 12 | 4 | 14.1 | 10 | 8 | 6 |
| **Amser o dderbyn cwyn cyntaf (mewn wythnosau) i benderfyniad gwrandawiad addasrwydd i ymarfer terfynol:** | | | | | | | | | |
| • **Canolrif amser i ddod i gasgliad** | 86 | 99 | 104.3 | 124 | 58 | 95 | 92 | 82 | 24 |
| • **Achos hiraf i ddod i gasgliad** | 154 | 276 | 348.9 | 360 | 139 | 261 | 340 | 440 | 89 |
| • **Achos cyflymaf i ddod i gasgliad** | 39 | 35 | 9.7 | 46 | 19 | 46.7 | 21 | 18 | 21 |
| **Yr amser canolrif (mewn wythnosau) o dderbyn cwyn i benderfyniad gorchymyn dros dro, ac o dderbyn gwybodaeth yn dynodi angen am orchymyn dros dro i benderfyniad gorchymyn dros dro:** | | | | | | | | | |
| • **Derbyn cwyn** | 22 | 19 | 8.4 | 24 | 3 | 16.6 | 14 | 3.7 | 18 |
| • **Derbyn gwybodaeth** | 4 | 3 | 2.9 | 3 | 3 | 2.1 | 2.9 | Amh[17] | 2 |
| **Nifer o apeliadau unigolion cofrestredig/Awdurdod yn erbyn penderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer:** | | | | | | | | | |
| • **Apeliadau unigolion cofrestredig** | 1 | 1 | 97 | 0 | 1 | 5 | 10 | 22 | 0 |
| • **Apeliadau gan yr Awdurdod** | 0 | 0 | 1 apêl gan yr Awdurdod ac 1 hysbysiad o ddiddordeb gan yr Awdurdod ar apeliadau GMC[18] | 0 | 0 | 0 | 1 | 5 | 0 |
| **Nifer o doriadau data a adroddir i'r Comisiynydd Gwybodaeth** | 0 | 3 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| **Nifer o geisiadau adolygiadau barnwrol llwyddiannus** | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |

[17] Nid yw'r NMC yn casglu'r data yma ar hyn o bryd.

[18] Mae gan y GMC hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan ei gangen dyfarnu (y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Ymarferwyr Meddygol). Ymunodd y PSA ag un apêl gan y GMC eleni fel parti cyfrannog.

5.7 Mae amrywiaethau yn y data perfformiad ystadegol ar gyfer y gwahanol reolyddion yn adlewyrchu maint eu cofrestrau, eu cyfyngiadau deddfwriaethol a'r gwahanol amgylcheddau maent yn gweithio ynddynt. Er enghraifft, mae gan reolyddion wahanol reolau statudol yn llywodraethu eu prosesau a gallai hyn effeithio ar faint o amser mae'n ei gymryd i ddelio gydag achosion unigol. Rydym yn cydnabod y gall rheolyddion gyda llwyth achosion llai ganfod bod eu perfformiad cyffredinol wedi ei sgiwio gan ambell i achos hir na ellir eu hosgoi neu hyd yn oed rai byr iawn. Mae hyn yn rheswm pam nad ydym yn defnyddio data ystadegol yn unig i helpu ein dealltwriaeth o berfformiad.

### Cyflawniad yn erbyn y Safonau Rheoleiddio Da

5.8 Yn 2017/18, bodlonodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC), y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) a Chyngor Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) bob un o'r 24 Safon; bodlonodd y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (GCC) a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) 23 ohonynt; a bodlonodd y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) 18. Wrth ysgrifennu hyn, doeddem heb gyhoeddi ein hadolygiadau o berfformiad y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC), a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).[19]

5.9 Parhaodd y broses adolygiad perfformiad newydd i nodi meysydd arfer da a drwg gan y rheolyddion. Roedd y mwyaf nodedig eleni o ran ymdrin yr HCPC o gamau cynnar achosion addasrwydd i ymarfer. Ein barn ni oedd bod posibiliad na yw'r modd mae'r HCPC yn cyflawni agweddau o'i brosesau addasrwydd i ymarfer yn sicrhau diogelwch y cyhoedd. Roedd ein pryderon yn cynnwys:

- Tystiolaeth fod yr HCPC yn cau rhai cwynion y gynnar yr oedem yn meddwl y dylid fod wedi ymchwilio iddynt, yn cynnwys achosion ynghylch anonestrwydd, cam-drin alcohol ac ymddygiad amhriodol gyda chleifion
- Gweithredu ei feini prawf 'Safonau Derbyniad' (hynny yw, y meini prawf mae'n eu defnyddio i benderfynu os yw am ymchwilio i gŵyn neu beidio) yn anghyson ac yn aml yn amhriodol.

5.10 Fe nodom hefyd dystiolaeth bellach o'r pryderon a nodwyd gennym yn ein hadolygiadau blaenorol ynghylch agweddau o berfformiad yr HCPC mewn addasrwydd i ymarfer. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â sut oedd HCPC yn cyflawni asesiadau risg, yn ogystal â'r amser roedd yn cymryd i gyflawni a chwblhau ymchwiliadau.

5.11 Ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad, mae'r HCPC wedi datblygu cynllun a dechrau gweithio ar nifer o weithgareddau a fwriadwyd i ddelio â'r pryderon a godwyd gennym. Mewn adolygiadau yn y dyfodol o berfformiad HCPC, byddwn yn edrych ar sut mae'r gweithgareddau hyn yn gwella'r modd mae'n darparu ei swyddogaeth addasrwydd i ymarfer.

5.12 Roedd rhaid i ni hefyd ddelio gyda phroblemau mae'r rheolyddion yn wynebu oherwydd deddfwriaeth annigonol neu wedi dyddio. Yn adolygiadau 2015/16 fe nodom yr anawsterau a wynebodd PSNI. Eleni, mae'r HCPC wedi nodi gwall yn y ddeddfwriaeth sy'n galluogi orthoptwyr i werthu a chyflenwi meddyginiaethau penodol, a bod y gwall hwn wedi golygu y gallai unrhyw orthoptydd gyflawni'r

[19] Rydym wedi cyhoeddi ein hadolygiad arbennig o'r Adolygiad Gwersi a Ddysgwyd, Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac fe ohiriwyd cyhoeddiad yr adolygiad perfformiad i roi ystyriaeth i hynny.

gweithgaredd hwn, nid dim ond y rhai sydd â'r hyfforddiant a'r anodiad priodol ar gofrestr yr HCPC. Roeddem yn fodlon fod yr HCPC wedi gweithredu dull pragmatig a chymesur i liniaru effaith y gwall hwn yn y cyfnod cyn addasu'r ddeddfwriaeth.

5.13 Mae bod yn agored a thryloyw yn nodwedd bwysig i'r rheolyddion ac mae ein gwaith r hyd y blynyddoedd wedi ceisio annog hyn. Eleni, fe ddiwygiodd y GPhC ei safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol, yn dilyn gwaith i ymgynghori ar y safonau drafft a chanllaw cysylltiedig. Deliodd yr ymgynghoriad gyda'r cwestiwn dadleuol o i ba raddau all fferyllwyr osgoi darparu cynnyrch cyffuriau ble mae ganddynt bryderon moesol neu grefyddol ynghylch gwneud hynny.  Denodd yr ymgynghoriad lefel uchel digynsail o ymgysylltu a nifer fawr o ymatebion. Fe welsom dystiolaeth fod y GPhC yn talu sylw dyledus i'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth wneud ei benderfyniad terfynol. Fe ystyriom fod y dull a ddilynwyd gan y GPhC yn enghraifft o ymarfer da wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid.

5.14 Mae'r anghysondebau all godi ar gyfer cofrestryddion duon a lleiafrifoedd ethnig (BAME) ar bob cam o'u gyrfa wedi ei nodi mewn adolygiadau blaenorol. Mae'r GMC wedi gwneud gwaith pwysig yn y gorffennol i geisio deall y rhesymau pam fod cynrychiolaeth cofrestryddion o'r fath yn anghymesur mewn gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer. Mae'r GPhC hefyd wedi bod yn cyflawni gwaith yn y maes hwn ac wedi cynnal seminar gyda rhanddeiliaid allweddol yn Hydref 2016 i archwilio'r rhesymau pam fod ymgeiswyr sy'n uniaethu fel Du Affricanaidd yn perfformio lleiaf da yn yr arholiadau cyn cofrestru. Mae'r GPhC wedi dweud y bydd yn defnyddio'r wybodaeth o'r seminar i hysbysu ei adolygiad o safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol a'r fethodoleg mae'n defnyddio i achredu cyrsiau.

5.15 Mae addasrwydd i ymarfer yn parhau i fod yn faes pryder a her sylweddol i reolyddion.  Codwyd pryderon fod ein Safonau yn canolbwyntio'n anghymesur ar y maes hwn. Fodd bynnag, rhaid cydnabod fod hyn yn faes allweddol ble mae rheolyddion yn diogelu'r cyhoedd a bod oedi neu benderfyniadau annigonol yn peri pryder arwyddocaol i'r cyhoedd.

5.16 Ar hyd y blynyddoedd, rydym wedi gweld nifer o fentrau gan reolyddion ar gyfer gwella ffyrdd o ddelio gyda chwynion a nodi'r rhai mwyaf difrifol. Yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn, fe ymgynghorodd y GPhC ar gynigion i newid y meini prawf trothwy mae'n defnyddio i benderfynu os dylid cyfeirio achos at ei Bwyllgor Ymchwilio. Mae'r GDC nawr wedi cyflwyno archwilwyr achos, sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch a oes achos i'w ateb parthed pryderon a godwyd am weithwyr deintyddol proffesiynol. Mae'r GMC yn parhau i ehangu ei broses ymholiadau dros dro, ble mae'r GMC yn casglu mwy o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad i gau achos, anfon ymlaen at ymchwiliad, neu gyfeirio at gyflogwr neu Swyddog Cyfrifol.

5.17 Mae trothwyon ar bob cam o'r broses addasrwydd i ymarfer yn bwysig, er mwyn i'r rheolydd allu sicrhau mai dim ond y materion hynny sydd angen ymyrraeth reoleiddiol sy'n cael eu dwyn ymlaen. Fodd bynnag, dylai trothwyon o'r fath fod yn gymesur, eu gweithredu'n briodol a bod yn gyson. Ble nad yw hyn yn wir (fel y nodwyd yn ystod ein hadolygiad o'r HCPC), gall hyn arwain at gau achosion heb roi ystyriaeth briodol i'r mater. Wrth i'r rheolyddion greu neu adolygu eu trothwyon, byddwn yn parhau i edrych yn agos at sut fydd y rhain yn cael eu gweithredu yn ymarferol.

*Cynnydd amserol achosion*

5.18 Rydym yn parhau i edrych yn agos ar sut mae pob un o’r rheolyddion yn sicrhau y delir yn effeithiol gyda’i achosion. Wrth ystyried gwybodaeth yn ymwneud â phrydlondeb y rheolyddion, byddwn yn ystyried yn ofalus y data ystadegol a welwn, a beth mae’n ddweud wrthym am berfformiad y rheolyddion dros gyfnod o amser. Yn ogystal â barnu ar y data ei hun, rydym yn edrych ar:

- Unrhyw dueddiadau y gallwn nodi sy’n awgrymu os yw perfformiad yn gwella neu'n gwaethygu
- Sut mae’r perfformiad yn cymharu gyda rheolyddion eraill, gan ddwyn mewn cof y gwahanol amgylcheddau a llwyth achosion yn effeithio ar waith y rheolyddion hynny
- Dangosyddion perfformiad allweddol neu safonau gwasanaeth y rheolyddion unigol, y maent yn gosod eu hunain.

5.19 Mae yna anawsterau o ran asesu prydlondeb oherwydd nad yw’r rheolyddion yn dechrau mesur eu hamserlenni ar yr un pryd bob tro. Rydym wedi cyflwyno manylion pellach i’r data a gasglwn gan y rheolyddion i ddelio â’r pwynt hwn. Fodd bynnag, rydym yn parhau i godi ein pryderon ynghylch yr amser a gymer i rai rheolyddion symud achosion ymlaen i gwblhad ac wedi archwilio mewn manylder yn ein hadroddiadau sut mae’r rheolyddion yn rheoli eu llwyth achosion. Rydym yn cydnabod, er enghraifft, bod angen sicrhau cydbwysedd yn aml rhwng cau hen achosion ac effaith andwyol cau’r achosion ar amserlenni canolig ar gyfer cynyddu achosion trwy broses addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag, disgwyliwn weld amserlenni canolig yn gwella wrth i achosion hŷn gael eu cau.

5.20 Nodwn hefyd fod y GMC yn cymryd cyfnod sylweddol hirach fel amser canolrif i ddelio gydag achosion na mwyafrif y rheolyddion eraill. Mae’r GMC wedi dweud wrthym fod yna resymau penodol yn ymwneud â chymhlethdod rhai o’i achosion sy'n golygu y bydd ei amserlenni yn gynhenid yn hir. Byddwn yn edrych ar y rhesymau hyn mewn adolygiadau yn y dyfodol.

5.21 Ar ben arall y raddfa, mae rheolyddion yn aml yn ceisio gwaredu ar gwynion trwy gydsyniad gyda’r cofrestrydd – fel bod y cofrestrydd yn cytuno i’r ffeithiau a’r gosb honedig. Mae’r cytundebau hyn yn cwmpasu ystod eang o amgylchiadau: gall y cofrestrydd gytuno gyda chosb benodol (er enghraifft, amodau ymarfer) neu gellir gofyn i'w tynnu oddi ar y gofrestr neu gall y rheolydd derfynu'r achos (er enghraifft, oherwydd ei fod yn ystyried nad oes tystiolaeth).

5.22 Yn *Right-touch reform* fe sefydlom mewn manylder sut mae gwaredu cydsyniol yn gweithio'n ymarferol, a’n syniadau ar risgiau a chyfleoedd wrth gau achosion yn defnyddio’r mecanweithiau hyn. Rydym yn ystyried, o ran egwyddor, fod trefniadau o'r fath yn werthfawr ac y gallant gyflawni canlyniadau priodol heb wrandawiadau a herir. Fodd bynnag, mae’n bwysig na ddylid defnyddio prosesau o’r fath mewn modd sy'n arwain at beidio ymchwilio’n ddigonol i faterion difrifol.

5.23 Yn ein hadolygiad o’i berfformiad eleni, fe sefydlom ein pryderon am sut mae’r HCPC yn delio â dirwyn achosion i ben. Ein barn ni oedd y gallai cymeradwyo dirwyn achosion i ben gan yr HCPC (heb gyflwyno unrhyw wybodaeth na thystiolaeth atodol ers penderfyniad y Pwyllgor Ymchwilio i gyfeirio’r achos) awgrymu nad yw’r Pwyllgor Ymchwilio yn llwyddo i nodi pan nad oes achos i’w ateb. Roeddem hefyd yn poeni fod achosion a ddylai fod wedi mynd ymlaen i wrandawiad

llawn yn cael eu cau'n rhy fuan ac, wrth wneud hynny, nad oedd digon o ystyriaeth o’r cyhuddiadau yn erbyn y cofrestrydd i sicrhau y diogelir y cyhoedd.

5.24 Byddwn yn parhau i fonitro defnydd gan y rheolyddion o’r prosesau hyn.

*Pryderon*

5.25 Mae’r Awdurdod yn aml yn derbyn pryderon gan gofrestryddion ac aelodau’r cyhoedd am berfformiad y rheolyddion. Er nad oes gan yr Awdurdod bwerau i ddelio â chwynion unigol yn erbyn y rheolyddion, rydym yn defnyddio'r wybodaeth ganddynt i hysbysu ein hadolygiadau perfformiad o bob rheolydd.

*Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP)*

5.26 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi derbyn rhai pryderon ynghylch sut mae’r rheolyddion yn delio â chwynion am y cofrestryddion sy'n asesu iechyd i hysbysu proses asesu PIP yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym yn cydnabod fod cryn bryder ymysg y cyhoedd am y broses asesu PIP. Rydym wedi bod yn glir nad oes gan yr Awdurdod na’r rheolyddion unrhyw ymwneud yn y broses PIP nac unrhyw ddylanwad dros sut y’i rheolir.

5.27 Ein hunig ddiddordeb yn y mater hwn yw pa mor dda mae’r rheolyddion proffesiynol yn ystyried pryderon am addasrwydd i ymarfer cofrestryddion sy'n cyflawni asesiadau PIP. Rydym yn cydnabod y gallai delio â’r pryderon hyn gyflwyno heriau penodol i’r rheolyddion. Mewn ymateb, rydym wedi dechrau dialog gyda rheolyddion i archwilio eu hymagweddau i’r mater hwn. Byddwn yn parhau gyda’r dialog hwn yn ystod y misoedd i ddod.

*Apwyntiadau*

5.28 Un o’r prif bryderon a arweiniodd at sefydlu’r Awdurdod oedd i ba raddau roedd cyrff llywodraethu'r rheolyddion wedi eu dominyddu gan gofrestryddion, oedd yn creu gwrthdaro buddiannau deongledig. Mae hyn bellach wedi newid gyda Chynghorau'r rhan fwyaf o’r rheolyddion gyda mwyafrif lleyg wedi eu penodi yn ôl rhinwedd. Mae’r Awdurdod yn craffu’r broses ar gyfer gwneud penodiadau i Gynghorau ac yn cynghori’r Cyfrin Gyngor ar gywirdeb y broses.

5.29 Rydym yn nodi’r gwaith a gyflawnwyd eleni ym mharagraff 1.67 yn rhan 2. Credwn, wrth gynhyrchu canllaw cryf ar brosesau priodol, ein bod wedi galluogi rheolyddion i nodi systemau teg a thryloyw sy'n debygol o gario hyder y cyhoedd. Rydym yn cynnal seminarau rheolaidd ar gyfer y rheolyddion ar faterion o ddiddordeb arbennig ble mae cyfle i rannu arfer gorau.

*Ymchwiliadau arbennig*

5.30 Ym Mawrth 2017, gofynnwyd i'r Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni adolygiad ‘gwersi a ddysgwyd’ o ymdriniaeth yr NMC o bryderon am fydwragedd yn Ysbyty Cyffredinol Furness, Morecambe Bay. Roedd pryderon am ymarfer yno wedi eu codi ers 2009 ac wedi bod yn destun Ymchwiliad gan Dr Bill Kirkup CBE.[20] Ni chwblhawyd ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer yr NMC tan 2017. Dechreuodd ein hadolygiad yng Ngorffennaf 2017, wedi i waith yr NMC gael ei gwblhau. Edrychom ar dros 60 o ffeiliau achos a Cheisiadau Gwrthrych am wybodaeth yn ymwneud ag oddeutu 10,000 o ddogfennau. Siaradom â rhai o'r teuluoedd hynny oedd mewn

[20] Dr Bill Kirkup CBE, (2015). *The Report of the Morecambe Bay Investigation*

profedigaeth o ganlyniad i arferion gwael yn ogystal â nifer o randdeiliaid allweddol eraill. Parhaodd y gwaith trwy gydol y flwyddyn ariannol ac fe gyhoeddwyd yr adroddiad ym Mai 2018.[21]

[21] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2018). *- the Nursing and Midwifery Council's handling of concerns about midwives' fitness to practise at the Furness General HospitalLessons Learned Review*

# 6. Addasrwydd i ymarfer

6.1 Mae'r nifer o achosion addasrwydd i ymarfer wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddegawd ddiwethaf o 1,231 yn 2007/08 i 4,095 yn 2017/18. Ar y cyfan, rydym wedi gweld gwelliant graddol gan y rheolyddion wrth drin achosion a datblygiad casgliad o gyfraith achos. Fodd bynnag, mae'r model o addasrwydd i ymarfer wedi datblygu i fod yn gynyddol ddeddfol a drud. Yn *Right-touch reform*, a'i gyhoeddiadau rhagflaenol *Rethinking regulation*[22] a *Regulation rethought*,[23] esboniwn pam fod hyn yn drafferthus a chynnig nifer o ddiwygiadau.

Yn yr adran hon, rydym yn amlygu datblygiadau diweddar a phatrymau sy'n dod i'r amlwg yr ydym wedi eu nodi o'n hystyriaeth o'r penderfyniadau a wnaethpwyd gan baneli rheoleiddio mewn achosion addasrwydd i ymarfer unigol; ac o'n rhyngweithio gyda'r rheolyddion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

6.2 Dan adran 29 y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, mae gan yr Awdurdod bŵer i gyfeirio achosion at yr Uchel Lys (neu'r Llys Sesiwn yn yr Alban) os yw'n ystyried nad yw penderfyniad panel parthed addasrwydd i ymarfer cofrestrydd yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae gan y GMC bŵer cyfochrog dan adran 40A y Ddeddf Feddygol 1983 a gall yr Awdurdod ymuno â'r GMC mewn achosion o'r fath os yw'n dymuno.

6.3 Dan ein proses, rydym yn archwilio pob penderfyniad ble mae'r gosb yn is na dileu. Os oes agweddau o'r penderfyniad yn awgrymu y gallai fod yn annigonol i ddiogelu'r cyhoedd, bydd aelod o'n tîm cyfreithiol yn archwilio'r dystiolaeth gerbron y panel mewn Adolygiad Achos Manwl. Ble ceir pryderon pellach, bydd yr Awdurdod yn cynnal cyfarfod achos gyda chyfreithiwr allanol yn bresennol a fydd yn darparu cyngor cyfreithiol. Os, wedi'r cyfarfod hwnnw, mae'r Awdurdod yn dal i ystyried nad yw'r penderfyniad yn ddigonol, bydd y mater yn cael ei gyfeirio i'r Llys.

6.4 Ble bydd y GMC yn arfer ei bŵer dan adran 40 y Ddeddf Feddygol, bydd yr Awdurdod yn cyflawni Adolygiad Achos Manwl. Dan yr hen weithdrefn, byddai Cyfarfod Achos yn cael ei gynnal hefyd. Fodd bynnag, fe newidiodd y drefn yng Ngorffennaf 2017 fel y byddai'r Awdurdod yn cynnal cyfarfod os codwyd materion yn unig, sy'n awgrymu y dylai'r Awdurdod ymuno â'r achos.

### *Llwyth achosion*

6.5 Yn y flwyddyn ariannol hon, buom yn craffu ar 4,095 penderfyniad a roddwyd i ni gan y naw corff rheoleiddio a oruchwylir gennym. Roedd hyn yn lleihad o 4.4 y cant ar y flwyddyn flaenorol. Nid oedd mwyafrif y penderfyniadau hyn yn peri unrhyw bryder i ni. Fodd bynnag, mewn 265 o achosion fe ofynnom am ragor o wybodaeth gan y cyrff rheoleiddio a chyflawni adolygiad achos manwl. Fel y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fe gyflawnom adolygiad achos manwl ar 272 o achosion. Roedd y ffigwr o 200 a ddyfynnwyd yn adroddiadau blynyddol y llynedd yn anghywir ac mae wedi ei gywiro yma.

[22] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2015). Rethinking regulation
[23] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2016). Regulation rethought

6.6 Roedd pum prif gategori achosion a dderbyniom gan yr holl reolyddion fel a ganlyn:

| Categori | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|
| **Methiannau clinigol:** | | |
| Cadw cofnodion/gwallau cofnodi hanes | 1,562 | 1,482 |
| Gofal/triniaeth israddol | 1,204 | 1,027 |
| Perfformiad gwael/diffyg cymhwyster | 1,146 | 825 |
| Methiannau i archwilio/diagnosio/dilyniant | 1,071 | 1,049 |
| Gweinyddu presgripsiynau/moddion gwallau | 777 | 672 |
| Anonestrwydd/twyll/lladrad | 1,246 | 1,127 |
| Cyfathrebu gwael | 1,099 | 906 |
| Iechyd Gwael | 546 | 442 |
| Euogfarnau | 467 | 433 |

6.7 Yn nhermau diogelu/diogelwch cleifion a materion urddas, mae'r niferoedd fel a ganlyn:

| Categori | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|
| Methiant i gynnal terfynau proffesiynol | 387 | 294 |
| Camymddygiad rhywiol | 174 | 195 |
| Trin cleifion yn arw | 128 | 150 |
| Camdriniaeth lafar | 149 | 132 |

| | | |
|---|---|---|
| Ymddygiad ymosodol/treisgar | 201 | 205 |
| Pornograffi plant | 21 | 38 |
| Triniaeth heb gydsyniad | 143 | 159 |
| Diffyg gallu Saesneg | 34 | 78 |

### *Rhoi adborth ar bwyntiau dysgu i'r rheolyddion*

6.8 Ble nad yw achos yn bodloni'r nod uchel iawn ar gyfer cyfeirio i'r llys, ond mae'r Awdurdod yn dal i fod â phryderon ynghylch y penderfyniad y rheolydd neu driniaeth y rheolydd o’r achos, bydd yr Awdurdod yn anfon pwyntiau dysgu at y rheolydd hwnnw.

6.9 Anfonir y pwyntiau dysgu mewn sawl ffordd:

- Yn rhan o nodyn y Cyfarfod Achos
- Trwy lythyr at y Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd neu'r Prif Weithredwr os oes pryderon arwyddocaol
- Mewn crynodeb o bwyntiau dysgu mwy cyffredinol a anfonir at y rheolyddion yn chwarterol.

6.10 Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn ariannol hon fe gyflwynom grynodeb pwyntiau dysgu electronig a anfonir at y rheolyddion ddwywaith y flwyddyn. Mae’r crynodeb yn mabwysiadu ymagwedd thematig i ddysgu o’r achosion yr ydym yn craffu ac yn cynnwys cyfeiriad at gyfraith achos diweddar. Mae adborth gan y rheolyddion wedi bod yn bositif iawn ac rydym yn annog y rheolyddion i anfon y crynodeb ymlaen at eu panel addasrwydd i ymarfer ac aelodau pwyllgorau.

6.11 Mae’r Awdurdod hefyd yn defnyddio’r broses hon i nodi a rhoi adborth ble mae’n gweld ymarfer arbennig o dda gan banel.

### *Seminar allgymorth ac addasrwydd i ymarfer rheoleiddiol*

6.12 Mae aelodau o’r tîm Craffu ac Ansawdd wedi siarad mewn cynadleddau am waith yr Awdurdod. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda staff ar lefelau gwahanol yn yr amrywiol reolyddion i drafod themâu yn deillio o'n hachosion craffu. Yn ogystal, rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol gydag aelodau’r panel ac aseswyr cyfreithiol am ein dull, gan sefydlu’r materion sy'n debygol o’n hachosi i ofyn am ragor o wybodaeth neu gynnal cyfarfod achos i benderfynu a ddylid arfer ein dewis i gyfeirio achos i'r llys neu beidio. Rydym yn gwerthfawrogi’r ymgysylltu uniongyrchol hwn gydag aelodau’r panel ac yn croesawu cyfleoedd i gyfrannu i ddyddiau hyfforddi a digwyddiadau i aelodau panel.

6.13 Y llynedd, cynhaliom gynhadledd lwyddiannus ar gyfer cadeiryddion paneli a phwyllgorau addasrwydd i ymarfer. Eleni, cynhaliom seminar addasrwydd i ymarfer ar 14 Tachwedd 2017 ar gyfer Cyfarwyddwyr Addasrwydd i Ymarfer penaethiaid

gweithredol a staff uwch sy'n gyfrifol am swyddogaethau ymchwilio a dyfarnu o bob un o'r naw rheolydd a oruchwylir gan yr Awdurdod.

6.14 Thema'r seminar oedd trothwyon a difrifoldeb. Sefydlodd cynrychiolwyr o'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr; y Coleg Addysgu ac Arweinyddiaeth Cenedlaethol; y Comisiwn Ansawdd Gofal; a'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yr ymagwedd a ddilynir gan eu sefydliadau i'r anawsterau o ddiffinio'r trothwy ar gyfer gweithredu rheoleiddiol a sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau.

6.15 Trafododd y gynhadledd faterion o ran rheoli disgwyliadau'r cyhoedd a rhesymoli'r broses addasrwydd i ymarfer; yr angen am ddull mwy cyffredin i drothwyon ac i gael mwy o wybodaeth am agweddau'r cyhoedd ynghylch difrifoldeb mathau penodol o ymddygiad; cosbau a phwysigrwydd adferiad. Wrth ymateb i feirniadaeth ddiweddar gan y llysoedd o'r Canllaw Cosbau Dangosol a gynhyrchwyd gan y rheolyddion, fe awgrymom y gallai'r rheolyddion fod eisiau ystyried cyflwyno astudiaethau achos manwl i ategu'r canllaw; ac efallai hefyd i ystyried y potensial i weithio gyda'i gilydd i sefydlu Panel Cynghori ar Gosbau ar draws y rheolyddion.

*Cyfeirio at y Llys dan Adran 29*

6.16 Yn y flwyddyn ariannol hon, fe ystyriom dri achos mewn cyfarfod achos Adran 29 ac arfer ein doethineb i gyfeirio saith achos i'r Llys. Mae'r manylion fel a ganlyn:

| **Rheoleiddiwr** | **Nifer o benderfyniad a gyfeiriwyd at y llys dan adran 29 Deddf 2002** | **Canlyniad** |
|---|---|---|
| NMC | Chwech | Cafodd dau achos ei setlo trwy Orchymyn Cydsyniad. Cafodd penderfyniad y panel ei ddileu yn y ddau achos.<br><br>Mewn un achos, cafodd y Gorchymyn Amodau Ymarfer a gyflwynwyd gan y panel ei ddisodli gan Orchymyn Amodau Ymarfer arall gyda sancsiynau mwy llym ar y cofrestrydd. Yn yr achos arall, cafodd y mater ei ddychwelyd i banel o'r newydd am wrandawiad arall i gynnwys cyhuddiadau anonestrwydd oedd wedi eu cyfeirio gan yr archwilwyr achos ond na chynhwyswyd yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyhuddiad gerbron y panel.<br><br>Mewn dau achos cafodd apêl yr Awdurdod ei gynnal gan y llys. Yn y ddau achos, cafodd y mater ei ddychwelyd yn ôl at banel newydd am wrandawiad arall.<br><br>Fe dynnodd yr Awdurdod un Apêl yn ôl.<br><br>Mae un gwrandawiad yn parhau ac wedi ei restru ar gyfer gwrandawiad ar 1 Mai 2018. |
| HCPC | Un | Mae'r achos hwn yn parhau a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2018/19. |

6.17 Yn y flwyddyn ariannol hon, fe wnaethom hefyd gwblhau 13 apêl oedd wedi eu cyflwyno yn 2016/17 ac un achos Llys Apêl oedd wedi ei gyfeirio'n wreiddiol i'r Uchel Lys yn 2014/15. Mae'r manylion fel a ganlyn:

| **Rheoleiddiwr** | **Nifer o benderfyniad a gyfeiriwyd at y llys dan adran 29 Deddf 2002** | **Canlyniad** |
|---|---|---|
| NMC | Wyth | Mewn un achos cafodd apêl yr Awdurdod ei wrthod gan y Llys Sesiwn.<br><br>Mewn dau achos cafodd apeliadau'r Awdurdod eu cynnal gan yr Uchel Lys yn dilyn gwrandawiadau. Mewn un achos, cafodd y Gorchymyn Amodau a orfodwyd gan y Panel ei ddisodli gan Orchymyn Atal Dros Dro. Yn yr achos arall, cafodd y Gorchymyn Atal Dros |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dro a gyflwynwyd gan y panel ei ddisodli gyda Dileu o’r Gofrestr.<br><br>Cafodd y pedwar achos oedd yn weddill eu setlo trwy Orchymyn Cydsyniad gyda phenderfyniadau’r panel yn cael eu dileu. Cafodd dau achos eu cyfeirio yn ôl i banel newydd am ail wrandawiad. Yn y trydydd achos, cafodd Gorchymyn Amodau ei ddisodli gan Orchymyn Atal Dros Dro. Yn y pedwerydd achos, fe ddisodlwyd Gorchymyn Rhybudd gyda Gorchymyn Amodau. |
| GDC | Un | Yn yr achos hwn, fe gytunodd yr Awdurdod a’r rheolydd y dylid fod wedi dileu'r cofrestrydd. Ni wnaeth y cofrestrydd gymryd rhan yn yr apêl ac fe ddileodd y Llys Sesiwn y Gorchymyn Atal Dros Dro a gosod dilead. |
| GMC/MPTS | Dau | Yn y ddau achos, cafodd apêl yr Awdurdod ei gynnal trwy gydsyniad. Mewn un achos, cafodd y Gorchymyn Atal Dros Dro ei ddileu gan y tribiwnlys a chafodd y mater ei ddychwelyd i dribiwnlys newydd ar gyfer ystyriaeth o'r gosb. Yn yr achos arall, cafodd casgliad y tribiwnlys o ddim amhariad a chyhoeddi rhybudd ei ddileu a chyfeirio'r mater at dribiwnlys newydd am ail wrandawiad. |

| | | |
|---|---|---|
| HCPC | Tri | Mewn un achos, cafodd apêl yr Awdurdod ei gynnal trwy gydsyniad. Cafodd y Gorchymyn Atal Dros Dro a gyflwynwyd gan y panel ei ddileu a'i ddisodli gyda Gorchymyn Dileu o'r Gofrestr.<br><br>Cafodd un apêl ei dynnu'n ôl gan yr Awdurdod.<br><br>Cafodd achos arall a apeliwyd yn wreiddiol yn 2014/15 ei bennu gan y Llys Apêl a dileu apêl yr Awdurdod. |

### Bod yn barti i apeliadau a gyhoeddir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol

6.18 Gall yr Awdurdod fod yn barti i apêl gan y GMC dan adran 40B y Ddeddf Feddygol 1983 (fel y'i diwygiwyd).

6.19 Ym Mehefin 2017, cytunodd yr Awdurdod a'r GMC ar brotocol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth amserol parthed yr apeliadau hyn. Mae'r Awdurdod hefyd wedi addasu ei weithdrefn i benderfynu a ddylid ymuno ag apêl y GMC neu beidio, ac nid yw bellach yn cynnal cyfarfod achos i bennu os yw am arfer ei ddewis i ymuno ag apêl neu beidio.

6.20 Arfer yr Awdurdod yw y bydd fel arfer yn ymuno ag apêl y GMC dim ond os yw'n fodlon y gall ddarparu dadleuon atodol i rai'r GMC bel gallai'r achos effeithio ar awdurdodaeth yr Awdurdod ei hun neu am reswm lles y cyhoedd cryf arall. Ni ddylid cymryd y ffaith nad yw'r Awdurdod yn ymuno ag apêl gan y GMC fel awgrym o farn yr Awdurdod ar rinweddau'r apêl.

6.21 Ers cyflwyno'r pŵer ar 31 Rhagfyr 2015 a than ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, mae'r GMC wedi cyflwyno 25 apêl, ac mae'r Awdurdod wedi dod yn barti i dri o'r apeliadau hyn. Yn y flwyddyn ariannol hon, fe ymunom ag un apêl, a chafodd y ddwy apêl GMC yr ymunom â nhw'r llynedd eu cwblhau gan y Llys. Mae'r manylion fel a ganlyn:

| Nifer o apeliadau GMC y daeth yr Awdurdod yn barti iddynt yn 2017/18 | Canlyniad |
|---|---|
| Un | Cafodd yr apêl ei setlo trwy gydsyniad rhwng pob parti. Cafodd penderfyniad y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) i beidio cyflwyno unrhyw gosb ei gyfnewid gyda Gorchymyn Atal Dros Dro. |

| Nifer o apeliadau GMC y daeth yr Awdurdod yn barti iddynt yn 2016/17 | Canlyniad |
|---|---|
| Dau | Cafodd y ddwy apêl eu cynnal gan y Llys.<br><br>Yn yr achos cyntaf, fe ddileodd y Llys y casgliad gan y panel MPTS nad oedd ysgogiad rhywiol i ymddygiad y cofrestrydd. Cafodd hyn ei amnewid gan y llys gyda chasgliad fod yr ysgogiad rhywiol i'r ymddygiad a dychwelyd y mater i'r tribiwnlys i ystyried y mater o amhariad.<br><br>Yn yr ail achos, cafodd y casgliad o ddim amhariad gan banel yr MPTS ei ddileu. Cyfnewidiodd y llys hyn gyda chasgliad fod amhariad ar addasrwydd i ymarfer y cofrestrydd, a chyflwyno'r mater yn ôl i banel o'r newydd i wneud penderfyniad ar y gosb briodol. |

6.22 Mae'r Awdurdod yn parhau i fod â nifer o bryderon am hawl i apêl y GMC. Yn gyntaf, ystyriwn ei fod yn dyblygu ein hawl ni ac yn debygol o arwain at gostau atodol. Yn ail, rydym yn ystyried ei bod yn anghywir o ran egwyddor i erlynydd allu apelio penderfyniadau panel. Sut bynnag, ni chaiff y GMC gyflwyno apeliadau yn seiliedig ar annigonolrwydd ei erlyniad ei hun, felly mae angen i'r Awdurdod ddwyn y rhain ymlaen. Yn un o'r achosion a ddygwyd ymlaen gan y GMC, cytunodd y cofrestrydd i setlo'r achos ar sail erlyniad annigonol, yn hytrach na seiliau'r GMC. Rydym wedi gweld, yn benodol, nifer o achosion a ddygwyd gan y GMC ble mae'r panel wedi canfod yn briodol nad oes risg i ddiogelwch cleifion ond mae GMC wedi ystyried fod y panel wedi methu rhoi ystyriaeth ddigonol i les y cyhoedd. Er bod hyn yn amlwg yn gwestiwn sydd angen ei ystyried, tybed a yw achosion o'r fath yn diogelu'r cyhoedd yn faterol mewn gwirionedd? Efallai na fydd yr Awdurdod yn apelio yn erbyn achosion o'r fath ym mhob achos os ydym yn ystyried, yn ymarferol, fod y gosb a gyflwynir gan y panel yn debygol o sicrhau diogelwch cleifion ac yn adlewyrchu budd y cyhoedd.

6.23 Nid oedd yr Awdurdod yn barti i apêl y GMC yn achos Bawa Garba a fu'n bwnc llosg. Cafodd ein rhesymau dros hyn eu cyhoeddi mewn ymateb rhydid gwybodaeth.[24] Roeddem wedi nodi, yn benodol, fod y panel wedi canfod fod yna dystiolaeth sylweddol iawn o adferiad ac nad oedd y meddyg yn cyflwyno unrhyw fygythiad i gleifion. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi rhoi tystiolaeth i'r Adolygiad i Ddynladdiad drwy Esgeulustod Difrifol mewn Gofal Iechyd a gomisiynwyd gan yr

[24] **Argymhelliad Bawa-Garba a phenderfyniad terfynol** ac adolygiad achos manwl terfynol.

Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a fydd i'w arwain gan yr Athro Syr Norman Williams. Nodwn fod yr achos hwn yn destun apêl.

### Dyfarniadau'r Uchel Lys a ddarparwyd yn 2017/18

6.24 Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, darparodd y llysoedd ddyfarniad mewn pedwar achos a gyfeiriwyd i'r Llys dan adran 29 ein pwerau. Roedd y rhain yn cynnwys dau achos a gyfeiriwyd gennym at y llys yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd yr achosion ble roedd yr Awdurdod yn llwyddiannus yn ymwneud â materion ynghylch anafiadau posibl i blentyn mewn bywyd preifat, cam-drin cleifion mewn sefydliad seiciatrig A hefyd yn cynnwys penderfyniadau'r llys am ymarfer rheolyddion wrth erlyn achosion. Roedd pwyntiau penodol i'w nodi yn cynnwys:

- Pwysigrwydd sicrhau bod gan banel fynediad at yr holl wybodaeth berthnasol cyn gofyn iddo benderfynu nad oedd achos i'w ateb
- Difrifoldeb camdriniaeth o gleifion bregus
- Pwysigrwydd dyletswydd gonestrwydd.

6.25 Nid oedd yr Awdurdod yn llwyddiannus mewn achos a aeth at y Llys Apêl – achos Doree. Dim ond yr ail achlysur yw hyn i'r Awdurdod apelio i'r Llys Apêl.

6.26 Roedd yr achos yn ymwneud â bwlio difrifol o gydweithwyr yn y gwaith ac roedd yr Awdurdod yn pryderu fod y gosb o rybudd a gyflwynwyd gan y panel yn annigonol i ddiogelu'r cyhoedd. Yn yr achos cyntaf, roedd y llys wedi anghytuno gyda'r Awdurdod, a hefyd wedi gwneud datganiadau ynghylch rôl panel o ran addasu'r cyhuddiadau ac am berthnasedd Canllaw Cosbau Dangosol y rheolydd, oedd yn ymddangos i fod yn groes i gyfraith bresennol ac yn gweithredu tu hwnt i ffeithiau'r achos.

6.27 Penderfynodd yr Awdurdod apelio i'r Llys Apêl am ei fod yn pryderu am oblygiadau ehangach y dyfarniad ac am ei fod o'r farn fod y gosb yn annigonol. Er i'r Llys Apêl wrthod yr apêl am nad oedd yn ystyried fod ymddygiad y cofrestrydd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau fod rhybudd yn annigonol i ddiogelu'r cyhoedd, roedd yn derbyn dadleuon yr Awdurdod parthed hawliau Paneli i addasu cyhuddiadau ac y dylid darparu rhesymau digonol dros ymadael â'r Canllaw Cosbau Dangosol.

6.28 Roedd achos Doree yn cynnwys ymddygiad amhriodol a rhywioledig tuag at gydweithwyr proffesiynol, yn hytrach nag ymddygiad tuag at gleifion. Yn 2009, cafodd apêl yr Awdurdod yn achos Khanna,[25] oedd hefyd yn ymwneud ag aflonyddu'n rhywiol ar gydweithiwr, ei wrthod. Yn fwy diweddar, fe gollodd yr Awdurdod apêl debyg yn achos ST,[26] a glywyd gan y Llys Sesiwn yn yr Alban. Felly, mae'r Llys Apêl yng Nghymru a Lloegr, a'r Llys Sesiwn yn yr Alban (sydd o lefel gyfatebol) ill dau yn ymddangos i farnu fod ymddygiad rhywioledig o'r fath tuag at gydweithwyr yn fater llai difrifol nag y mae'r Awdurdod yn ei ystyried.

6.29 Mewn ymateb, mae'r Awdurdod wedi comisiynu ymchwil i agweddau cyhoeddus tuag at dramgwyddau terfynau proffesiynol nad ydynt yn ymwneud â chleifion. Mae datgeliadau diweddar o aflonyddu rhywiol mewn adloniant a sectorau eraill wedi ffocysu sylw'r cyhoedd ar y math yma o gamymddwyn, a bydd yn ddiddorol gweld

---

[25] *CRHP v GMC a Khanna* [2009] EWHC 596

[26] *PSA v GDC ac ST, 21 Medi 2015*

os yw’r ymchwil yn awgrymu newid yn agweddau'r cyhoedd tuag at y math yma o gamymddwyn.[27]

6.30 Roedd yr Awdurdod hefyd yn aflwyddiannus mewn achos gerbron y Llys Sesiwn yn yr Alban yn ymwneud â nyrs oedd wedi methu rhoi rhyddhad poen digonol i glaf ar ddiwedd ei bywyd. Penderfynodd y Llys, yn seiliedig ar ffeithiau'r achos, fod penderfyniad y panel nad oedd amhariad ar y cofrestrydd yn ddigonol i ddiogelu’r cyhoedd. Canfu'r Llys yn benodol fod y ffaith fod y cofrestrydd wedi cyflawni proses reoleiddiol drylwyr a arweiniodd at gasgliad o gamymddwyn yn arwyddocaol. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith fod casgliad o ddim amhariad, dan gynllun rheoleiddiol yr NMC, yn cyfateb i ryddfarniad llwyr. Mae hyn yn ymddangos i fod yn groes i benderfyniadau diweddar yn yr Uchel Lys yn Llundain.

### Penderfyniadau Adran 40B

6.31 Darparodd y llysoedd ddyfarniad mewn dwy apêl GMC hefyd wedi i ni ymuno yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Yn y ddau achos, cefnogodd yr Awdurdod apêl y GMC gan ymuno oherwydd roedd gan y ddau achos arwyddocâd posibl i awdurdodaeth ehangach yr Awdurdod. Yn y ddau achos, cadarnhaodd y llysoedd yr ymagwedd y byddai'n dilyn tuag at apeliadau o’r fath a bod hyn yn gyson gyda dealltwriaeth yr Awdurdod o’r gyfraith. Cytunodd y llysoedd gyda’r GMC a’r Awdurdod nad oedd penderfyniadau’r MPTS yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

### Materion yn codi o'n hadolygiad o benderfyniadau'r panel

6.32 Yma rydym yn sefydlu rhai pryderon a materion sydd wedi codi o'n harchwiliad o achosion ac o benderfyniadau’r llys yn y flwyddyn ddiwethaf.

#### *Dyletswydd gonestrwydd*

6.33 Rydym yn ailadrodd y pryder a fynegwyd yn adroddiad y llynedd mai ychydig o sylw sy'n cael ei roi i’r ddyletswydd gonestrwydd yn y cyhuddiadau sy'n cael eu dwyn gan unrhyw un o’r rheolyddion, neu ym mhenderfyniadau'r paneli addasrwydd i ymarfer. Mae hyn yn peri gofid i ni oherwydd mae’r ddyletswydd yn un allweddol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac, os nad y’i dilynir, byddem yn disgwyl i hyn gael ei ddwyn ymlaen gan reolyddion naill ai yn y cyhuddiadau neu yn y ffactorau gwaethygol a lliniarol mae’r paneli yn eu hystyried. Yn ein profiad ni mae’n beth prin i weld cyfeiriadau at hyn.

6.34 Yn ein gwaith ymgysylltu gyda phaneli rheoleiddio, daeth yn amlwg nad oedd bob panelydd neu aseswr cyfreithiol addasrwydd i ymarfer yn gwbl ymwybodol o’r ddyletswydd, na’r datganiad ar y cyd a lofnodwyd gan y rheolyddion yn Hydref 2015. Byddem yn annog rheolyddion i sicrhau bod eu panelwyr ac aseswyr cyfreithiol yn derbyn hyfforddiant diweddaru ar y mater pwysig hwn.

6.35 Mae'r Awdurdod wedi cychwyn prosiect ymchwil i geisio deall pam nad yw’r ddyletswydd gonestrwydd yn ymddangos i fod wedi sicrhau lle yn y gymuned reoleiddiol.

[27] Ymchwil bellach wedi cyhoeddi Simon Christmas Ltd (2018). *Sexual behaviours between health and care practitioners where does the boundary lie?*

### *Cofrestryddion yn ceisio rhoi'r gorau i ymarfer*

6.36 Rydym yn gweld nifer o achosion ble mae cofrestrydd wedi bod yn destun cosb gan banel sy'n amodol i adolygiad. Yna mae'r cofrestrydd yn penderfynu rhoi'r gorau i ymarfer ac ymddeol neu chwilio am yrfa newydd. Yn aml bydd hyn yn golygu nad yw'r cofrestrydd yn gallu arddangos adferiad parthed y pryderon, a'r rhesymeg oedd bod paneli adolygu wedi penderfynu parhau gyda'r gosb gyda'r cofrestrydd yn parhau i beidio ymgysylltu. Mae hyn yn costio arian i'r rheolydd ac yn ychwanegu at ei faich o achosion heb unrhyw fudd i'w weld i'r cyhoedd.

6.37 Ystyriodd y llysoedd hyn yn achos *GOC v Clarke* a phenderfynu nad oedd yn briodol caniatáu i'r cofrestrydd ymddeol ac nad oedd angen i'r panel gyflwyno cost a oedd, mewn effaith, yn ei gadw oddi ar y gofrestr ac yn galw am wrandawiadau adolygiad pellach.

6.38 Tra'n nodi bod y mater yn destun apêl, mae'r Awdurdod yn ystyried fod yr achos yn darparu egwyddor ddefnyddiol y gall paneli ystyried er mwyn osgoi gwrandawiadau adolygiad diangen ar yr amod:

- Fod yna dystiolaeth ddigonol o fwriad y cofrestrydd i roi'r gorau i ymarfer
- Fod gan y rheolydd fecanweithiau priodol i ddelio ag achosion ble mae'r cofrestrydd yn methu gadael y proffesiwn neu'n ceisio dychwelyd i ymarfer
- Bod y rheol yn berthnasol i wrandawiadau adolygiad yn unig ac nad yw'n arwain at archwilio materion difrifol.

### *Penderfyniadau panel*

6.39 Roedd gennym y pryderon canlynol am rai penderfyniadau panel:

- Gall fod diffyg manylder mewn penderfyniadau sy'n ei gwneud yn anodd deall rhesymau panel neu sy'n ein galluogi i fod yn fodlon fod y panel wedi ystyried pob cwestiwn perthnasol. Gall hyn fod yn broblem benodol pan fydd yr ymddygiad yn ddifrifol ac mae'r panel wedi penderfynu peidio diddymu ymarferwr oddi ar y gofrestr, ond heb roi rhesymau digonol dros hyn
- Nid yw paneli i weld yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y cynllun Rheolwyr Cofrestredig statudol a sefydlwyd dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ar bob adeg, na phwysigrwydd chwythu'r chwiban a'r agenda chwythu'r chwiban ehangach yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn arbennig parthed cartrefi gofal
- Mae paneli yn parhau i ystyried y ffaith nad oes gwir niwed wedi digwydd i gleifion, i fod yn ffactorau lliniarol pan ei fod ddim ond yn niwtral
- Rydym yn parhau i boeni fod paneli yn dal i fethu mabwysiadu'r ymagwedd a sefydlwyd gan y Llys yn achos Arunkalaivanan v GMC,[28] ef fod ysgogiad rhywiol yn fater o gasgliad, yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth, yn cynnwys y cyd-destun ble bydd geiriau neu weithredoedd yn digwydd, a'r esboniadau a gyflwynir gan y cofrestrydd.
- Rydym wedi bod yn pryderu na wnaeth y panel ganfod camymddwyn mewn nifer o achosion NMC ble roedd staff wedi ymosod ar gleifion gydag ymddygiad

[28] [2015] EWHC 3848

heriol. Hoffem dynnu sylw'r paneli rheoleiddiol i'r ffactorau i'w hystyried gan y Llys yn y dyfarniad Apeaning diweddar.

### *Pryderon am erlyniad rheolyddion o achosion*

6.40 Mae gennym nifer o bryderon ynghylch ymagwedd rheolyddion i erlyniadau ac am rai o'u pwerau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- I ba raddau mae rhai rheolyddion, yn arbennig yr NMC a'r HCPC, yn ceisio newid y cyhuddiadau ar y funud olaf
- Y ffaith fod deddfwriaeth yr NMC yn gofyn ein bod yn cael gwaharddiad i atal yr NMC rhag diddymu cofrestryddion unigol o'i gofrestr cyn y gallai'r Uchel Lys ddelio â'n hatgyfeiriad o benderfyniadau'r paneli addasrwydd i ymarfer perthnasol.

6.41 Mae ymagwedd yr HCPC i ymchwilio i achosion a allai gynnwys problem iechyd sylfaenol yn peri gofid. Mae hyn yn cynnwys achosion o euogfarn yfed a gyrru a nifer o achosion a allai fod yn ddifrifol ble nad oedd yn ymddangos i ni fod yr HCPC wedi cymryd camau digonol i fodloni ei hun o ran iechyd y cofrestrydd. Yn rhan o'n hadolygiad o berfformiad yr HCPC eleni (ac wedi ei ysgogi'n rhannol gan bryderon a fynegwyd trwy'r broses Adran 29), cymerom olwg agosach ar ei ymagwedd parthed achosion ble roedd arwyddion posibl o bryderon iechyd. Yn ein hadroddiad, fe sefydlom ein barn fod yr HCPC yn rheolaidd yn parhau i fethu ystyried y risgiau ble mae awgrymiadau o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol, neu faterion iechyd eraill. Fel y disgrifiom yn yr adroddiad, gallai absenoldeb ystyriaeth gan yr HCPC o unrhyw faterion iechyd sylfaenol mewn nifer o gwynion olygu nad yw pryderon addasrwydd i ymarfer posibl wedi eu harchwilio, gan arwain at risgiau i ddiogelwch cleifion ac i'r cofrestrydd ei hun. Fe godom bwyntiau dysgu gyda'r NMC mewn achosion tebyg.

6.42 Rydym wedi bod â phryderon ynghylch ansawdd rhywfaint o'r dystiolaeth arbenigol a welwn y Paneli yn cyfeirio atynt yn eu penderfyniadau. Mewn rhai achosion, mae unigolion wedi eu hystyried i fod yn arbenigwyr ble nad yw hyn yn wir ac, mewn eraill, mae arbenigwyr yn ymddangos i fod yn bleidiol. Weithiau nid yw'r rheolyddion yn nodi tystiolaeth arbenigol pan fydd angen hyn i roi darlun cyflawn i'r panel o'r ymddygiad dan sylw. Rydym yn annog yr holl reolyddion i ddatblygu templedi safonau priodol ar gyfer adroddiadau arbenigol; ac i ddarparu hydoddiant rheolaidd i'w harbenigwyr a rôl a dyletswyddau tystion arbenigol.

6.43 Mewn rhai achosion NMC, rydym wedi pryderu nad yw'r ymchwiliad a drafftio cyhuddiadau yn nodi neu fanylu ar euogrwydd unigol yng nghyd-destun methiannau cyffredinol gan staff. Un o'r anawsterau yw bod ffocws ymchwiliadau lleol neu ymchwiliadau a gyflawnir gan reolydd system fel y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) yn wahanol i'r ffocws sydd ei angen parthed rheoleiddio proffesiynol. Mae gennym bryderon, yn arbennig parthed ymchwiliadau i gartrefi gofal, fod yr NMC yn dibynnu ar adroddiad y CQC, yn hytrach na chasglu tystiolaeth uniongyrchol o'r dyletswyddau a gweithredoedd unigol. Fe nodom hyn fel problem yn yr *Adolygiad Gwersi a Ddysgwyd o ymdriniaeth yr NMC o bryderon yn Ysbyty Cyffredinol*

*Furness*.[29] Er bod angen i reolyddion dalu sylw i adroddiadau lleol, mae angen iddynt fod yn effro i ystyriaethau rheoleiddiol eraill.

[29] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2018). *Lessons Learned Review - The Nursing and Midwifery Council's handling of concerns about midwives' fitness to practise at the Furness General Hospital*

# 7. Cofrestrau Achrededig

7.1 Mae ein rôl hefyd yn cynnwys gosod safonau ar gyfer cofrestrau galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan y gyfraith ac achredu'r cofrestrau sy'n bodloni'r safonau hyn. Rydym yn gwneud hyn fel bod y cyhoedd, cyflogwyr a chomisiynwyr yn gallu dewis ymarferwyr o gofrestrau yr ydym wedi eu fetio a chymeradwyo yn annibynnol. Mae'r llywodraeth yn ymroddedig i reoleiddio cymesur o broffesiynau gofal iechyd ac mae'n cydnabod fod rhaglen cofrestrau achrededig yn darparu cleifion, y cyhoedd a chyflogwyr gyda sicrwydd ynghylch safonau a chymhwyster cofrestryddion.

7.2 Mae galluogi'r system newydd hon o sicrwydd, a gynigiwyd gyntaf yn *Enabling Excellence*, wedi bod yn ddatblygiad rheoleiddiol arwyddocaol. Mae model tebyg, yn seiliedig ar raglen cofrestrau achrededig yr Awdurdod nawr wedi ei gyflwyno yn Hong Kong. Ei fantais yw ei fod yn gyflym i'w sefydlu, yn hyblyg – felly gellir ei addasu'n rhwydd i newid ac mae'n cefnogi gweithlu amrywiol yn y sector cyhoeddus a phreifat. Mae'n cwmpasu'r gweithlu gwyddonwyr iechyd, yn cefnogi cyflwyno moderneiddio gyrfaoedd gwyddonol, y gweithlu iechyd cyhoeddus ac yn ddiweddar wedi cwmpasu'r diwydiant gwyddorau hefyd. Yn ogystal ag ystod eang o broffesiynau unigol megis ffisiolegwyr clinigol, seicotherapyddion ac aciwbigwyr.

7.3 Rhaid i gofrestrau achrededig fodloni ein safonau ymdrechgar, sy'n cynnwys ymroddiad i ddiogelu'r cyhoedd, llywodraethu, addysg a hyfforddiant, rheoli risg a delio â chwynion. Rhaid i ymarferwyr ar gofrestrau achrededig fodloni lefelau addysg a hyfforddiant cymeradwy ac yn ymgysylltu mewn datblygiad proffesiynol parhaus, ymrwymo i godau ymarfer ac yn destun prosesu disgyblu. Mae cofrestrau achrededig yn darparu rhwyd ddiogelwch. Pe byddai rhywun yn cael ei ddiddymu oddi ar un gofrestr achrededig (neu gan reolydd) ni all fynd ymlaen i ymuno â chofrestr achrededig arall yn ei lle.

7.4 Mae'r rhaglen cofrestrau achrededig wedi bod yn weithredol ers Chwefror 2011. Mae 24 o gofrestrau wedi eu hachredu yn cwmpasu 31 o alwedigaethau ac 85,000 o ymarferwyr. Mae galwedigaethau dan sylw wedi cynnwys iechyd y cyhoedd, gwyddoniaeth gofal iechyd, cynghori genetig, seicotherapi, therapi chwarae, adsefydlu chwaraeon, aciwbigo, triniaeth gosmetig nad yw'n llawfeddygol a therapïau ategol megis therapyddion maeth. Eleni fe wnaethom achredu cofrestr caplaniaeth gofal iechyd, gan ddarparu sicrwydd pellach ar gyfer y gweithlu pwysig hwn yn y GIG.

7.5 Mae'n costio tua £400,000 y flwyddyn i weithredu'r rhaglen ac fe'i rheolir gan 3.4 staff. Mae wedi ei ariannu trwy ffioedd achredu (ar hyn o bryd yn 60 y cant o incwm) a chymhorthdal gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

7.6 Gall yr holl gofrestrau achrededig a'u cofrestryddion arddangos ein nod masnach cofrestredig er mwyn i'r cyhoedd allu gwahaniaethu rhyngddynt yn rhwydd. Ein nod yw gwella diogelwch y cyhoedd, hyrwyddo hyder yn y cofrestrau, cefnogi dewis i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth a gwella ansawdd. Rydym yn argymell y dylai'r cyhoedd, cyflogwyr a chomisiynwyr ddewis ymarferwyr sydd naill ai ar wedi eu rheoleiddio neu ar gofrestrau achrededig yn unig. Fodd bynnag, rydym yn dal angen ymdrech sylweddol, yn cynnwys gan y llywodraeth ac eraill i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a'i nod.

7.7 Mae gallu achredu cofrestrau mewn deddfwriaeth trosfwaol, fel yr hyn a sefydlwyd yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, yn caniatáu i gofrestrau newydd gael eu sefydlu'n gyflym ac effeithiol heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol unigol. Mae'n galluogi ychwanegu galwedigaethau newydd ac i reolau a safonau gael eu newid yn gyflym mewn ymateb i anghenion newidiol.

### *Rhestr o gofrestrau achrededig ar 31 Mawrth 2018*

- Academi Gwyddor Gofal Iechyd
- Cynghrair Ymarferwyr y Sector Preifat
- Cymdeithas Seicotherapyddion Plant
- Cymdeithas Cynghorwyr Cristnogol
- Cyngor Aciwbigo Prydain
- Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Prydain
- Cymdeithas Therapyddion Chwarae Prydain
- Cymdeithas Adferwyr a Hyfforddwyr Chwaraeon Prydain
- Cyngor Seicdreiddio Prydain
- Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol
- COSCA (Counselling & Psychotherapy in Scotland)
- Ffederasiwn y Therapyddion Holistaidd
- Bwrdd Cofrestru Cynghorwyr Genetig
- Human Givens Institute
- Y Gymdeithas Cwnsela Genedlaethol
- Y Gymdeithas Hypnotherapi Genedlaethol[30]
- Play Therapy UK
- Cyngor Cofrestru ar gyfer Ffisiolegwyr Clinigol
- Cofrestr y Technolegwyr Clinigol
- Save Face
- Cymdeithas Homeopathiaid
- Bwrdd Caplaniaid gofal Iechyd y Deyrnas Unedig
- Cyngor Seicotherapi'r Deyrnas Unedig
- Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

### *Egwyddorion a safonau*

7.8 Rydym yn gweithredu pum egwyddor i weithredu'r rhaglen cofrestrau achrededig:

- Cymesuredd – dylai ein meini prawf a sut ydym yn eu gweithredu fod yn gymesur i'r risg o niwed i'r cyhoedd

[30] Achredwyd gyda'r Gymdeithas Cwnsela Genedlaethol

- Marchnad rydd – ni ddylai greu monopolïau na chyfyngiadau annheg ar y farchnad
- Fforddiadwyedd – dylai osgoi eithrio ymarferwyr gydag incwm is
- Addysg – dylai cofrestrau bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer cymwys mewn galwedigaeth
- Effeithiolrwydd – nid ydym yn barnu effeithiolrwydd unrhyw therapi nac arfer iechyd neu ofal.

7.9 Mae ein safonau yn cwmpasu 11 maes:

- Cynnal cofrestr wirfoddol ar gyfer galwedigaethau iechyd a gofal
- Ymroddedig i ddiogelu'r cyhoedd
- Deall, monitro a rheoli risgiau
- Yn ariannol gadarn
- Ysbrydoli hyder y cyhoedd
- Datblygu gwybodaeth
- Darparu llywodraethu cryf ac effeithiol
- Gosod safonau da ar gyfer ymarferwyr
- Sicrhau addysg a hyfforddiant priodol
- Rhedeg cofrestrau'n dda
- Rheoli cwynion yn deg ac effeithiol.

### *Gwella perfformiad*

7.10 Mae'r effaith ar gofrestrau sy'n cael eu hachredu yn glir. Mae pob cofrestr a achredwyd gennym wedi gorfod gwella ei ymarfer mewn un maes neu fwy i fodloni'r Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig cyn sicrhau achrediad. Gall ein panel achredu gyhoeddi amodau, cyfarwyddiadau a phwyntiau dysgu yn ystod yr achrediad cychwynnol ac mewn adolygiad blynyddol i wella ymarfer yn erbyn y Safonau. Rhaid bodloni amodau i gynnal achrediad.

7.11 Mae'r tabl isod yn dangos yr amodau, cyfarwyddiadau a phwyntiau dysgu a gyhoeddwyd trwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys trwy newidiadau i'r gofrestr a asesir.

| Cofrestr | Dyddiad achrediad diwethaf | Amodau | Cyfarwyddiadau | Pwyntiau dysgu |
|---|---|---|---|---|
| Academi Gwyddor Gofal Iechyd | 18 Rhagfyr 2017 | 1 | 2 | 0 |
| Cynghrair Ymarferwyr y Sector Preifat | 1 Awst 2017 | 0 | 4 | 3 |
| Cymdeithas Seicotherapyddion Plant | 20 Tachwedd 2017 | 0 | 0 | 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas Cynghorwyr Cristnogol | 26 Mai 2017 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Aciwbigo Prydain | 14 Mawrth 2017 | 2 | 1 | 0 |
| Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Prydain | 5 Mawrth 2017 | 1 | 1 | 0 |
| Cymdeithas Therapyddion Chwarae Prydain | 26 Tachwedd 2017 | 0 | 1 | 3 |
| Cymdeithas Adferwyr a Hyfforddwyr Chwaraeon Prydain | 10 Rhagfyr 2017 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Seicdreiddiol Prydain | 20 Tachwedd 2017 | 0 | 3 | 0 |
| Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol | 23 Medi 2017 | 1 | 0 | 0 |
| Counselling & Psychotherapy in Scotland | 19 Mehefin 2017 | 0 | 2 | 0 |
| Ffederasiwn y Therapyddion Holistaidd | 9 Ionawr 2018 | 0 | 1 | 2 |
| Bwrdd Cofrestru Cynghorwyr Genetig | 10 Mai 2017 | 0 | 1 | 0 |
| Human Givens Institute | 13 Ebrill 2017 | 0 | 0 | 1 |
| Cymdeithas Cynghori Genedlaethol/Cymdeithas Hypnotherapi Cenedlaethol | 21 Mai 2017 | 0 | 0 | 1 |
| Play Therapy UK | 11 Ebrill 2017 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cofrestru ar gyfer Ffisiolegwyr Clinigol | 13 Mawrth 2018 | 0 | 0 | 2 |
| Cofrestr y Technolegwyr Clinigol | 7 Medi 2017 | 2 | 8 | 8 |
| Save Face | 11 Gorffennaf 2017 | 2 | 6 | 1 |
| Cymdeithas Homeopathiaid | 9 Medi 2017 | 1 | 4 | 2 |
| Treatments You Can Trust | 22 Gorffennaf 2017 | AMH | AMH | AMH |
| Bwrdd Caplaniaid gofal Iechyd y Deyrnas Unedig | 17 Gorffennaf 2017 | 1 | 8 | 6 |
| Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y Deyrnas Unedig | 3 Ebrill 2017 | 0 | 0 | 7 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Seicotherapi'r Deyrnas Unedig | 11 Tachwedd 2017 | 0<br><br>CYFANSWM<br>11 | 0<br><br>CYFANSWM<br>42 | 0<br><br>CYFANSWM<br>38 |

7.12 Er bod cofrestrau yn derbyn mwy o amodau, cyfarwyddiadau a phwyntiau dysgu yn ystod yr achrediad cychwynnol yn gyffredinol, mae ein proses adolygiad blynyddol yn parhau i asesu cofrestrau mewn manyler ac yn nodi meysydd i'w gwella. Fel gyda'r rheolyddion, mae'r her o gynnal perfformiad yn erbyn safonau a thrwy hynny elwa o graffu allanol yn parhau.

7.13 Mae'r enghreifftiau o newidiadau gofynnol ar gyfer cofrestrau yn y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Gwella prosesau ar gyfer delio â chwynion yn erbyn ymarferwyr, i sicrhau eu bod yn gadarn, teg ac yn ffocysu ar ddiogelu'r cyhoedd
- Gwella prosesau ar gyfer delio â chwynion yn erbyn y sefydliad sy'n cadw'r gofrestr
- Egluro gweithdrefnau cwynion i'r cyhoedd
- Gwella cywirdeb cofrestrau i alluogi'r cyhoedd i wneud dewisiadau gwybodus
- Ffurfioli'r gofyniad ar gyfer ymwneud lleyg ar bwyllgorau neu fyrddau
- Egluro gweithdrefnau cwynion i'r cyhoedd
- Egluro gofynion addysg a hyfforddiant ar gyfer mynediad i'r gofrestr
- Gwella rheolaeth o wrthdaro buddiannau
- Gwella prosesau ar gyfer rheoli proffesiynol parhaus
- Gwella prosesau rheoli risg.

### *Cryfhau amddiffyniad o'r cyhoedd*

7.14 Os byddwn yn pennu bod cofrestr yn torri safonau mewn ffordd ddifrifol, gallwn atal neu ddileu achrediad y sefydliad hwnnw. Gall gwaharddiad gael ei godi unwaith y bydd cofrestr yn arddangos ei bod wedi unioni'r materion a arweiniodd at ei ataliad.

7.15 Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ddileu achrediad un gofrestr, a chyflwyno amodau ar wyth cofrestr.

7.16 Ar gyfer cylch achredu 2017/18, yn ogystal â'n hasesiad arferol, fe wnaethom ganolbwyntio ar ymdriniaeth cwynion yn erbyn ymarferwyr ac yn erbyn y cofrestrau eu hunain. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd arwyddocaol mewn llwyth gwaith ar gyfer y tîm achredu ac mae wedi cyfrannu i leihad mewn dangosyddion perfformiad allweddol a fodlonwyd eleni ar gyfer adnewyddiadau blynyddol. Rydym wedi penderfynu cynnal adolygiad trylwyr o drin cwynion gan fod hyn wedi ei godi'n gyson fel un o'r Safonau anoddaf ar gyfer cofrestrau. Fel y gwyddom, mae gan y cofrestrau achrededig amrediad o brosesau a gweithdrefnau tebyg, ond gwahanol, i ddelio â chwynion. Nid ydym yn rhagnodi'r gweithdrefnau ddylai cofrestrau

ddefnyddio, ond rhaid i'r rhain fodloni ein Safonau. Fe ganfuom fod y prosesau, a gweithrediad y rhain, yn briodol gan fwyaf, gyda rhai achosion o ymarfer oedd angen gwelliant a rhai achosion o ymarfer effeithiol. Arweiniodd yr adolygiad at nifer o amodau, cyfarwyddiadau a phwyntiau dysgu i gofrestrau wella eu hymdriniaeth o gwynion. Bydd cylch adnewyddu blynyddol 2018/19 yn profi gweithrediad y gwelliannau hyn.

7.17 Er ein bod yn monitro ymdriniaeth cwynion yn erbyn ymarferwyr, hyd yn oed os delir yn effeithiol â'r prosesau hyn ac mae ymarferwyr yn cael eu dileu o gofrestrau, gall yr ymarferwyr hyn barhau i ymarfer yn gyfreithiol gan nad yw'r teitlau maent yn gweithio wedi eu diogelu. Dyma pam ei bod mor bwysig codi proffil cofrestrau achrededig. Trwy ddewis ymarferwyr o gofrestrau achrededig, gall cleifion osgoi ymarferwyr sydd wedi eu pennu i fod yn anaddas i ymarfer.

7.18 Rydym wedi datblygu ein proses adolygiad blynyddol, i'w gweithredu o Ebrill 2018. Trwy'r broses hon, byddwn yn cynyddu'r monitro a gyflawnwn trwy gydol y flwyddyn ac yn symud tuag at ymagwedd fwy seiliedig ar risg i adolygiadau blynyddol, gan ein galluogi i gyfeirio ein hasesiadau a'n hadnoddau yn fwy effeithiol.

### *Cydweithio a chydweithrediad*

7.19 Mae gweithlu'r cofrestrau achrededig yn darparu rôl bwysig ac amrywiol o ran gwella iechyd y cyhoedd, ac mae potensial i gael effaith pellgyrhaeddol. Rydym wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Iechyd y Cyhoedd ar adroddiad i sut gallai'r gweithlu cofrestrau achrededig, wrth weithio yn breifat ac wedi ei gomisiynu gan y GIG ac eraill, gyfrannu ymhellach i wella iechyd y cyhoedd. Lansiwyd *Untapped Resources: Accredited Registers in the Wider Workforce*[31] gan y Gweinidog Gwladol dros Iechyd mewn digwyddiad a gynhaliom yn Hydref 2017. Roedd yr adroddiad hwn yn arddangos potensial ymarferwyr ar gofrestrau achrededig i fod yn rhan o'r gweithlu iechyd cyhoeddus ehangach. Mae gan yr ymarferwyr hyn gysylltiadau maith gyda chleifion ac maent wedi datblygu perthynas o ymddiriedaeth, gan ddarparu potensial ar gyfer mwy o gynhwysiant o sgyrsiau iach ble fo'n briodol.

7.20 Rydym wedi parhau i gefnogi cydweithrediad rhwng cofrestrau achrededig, sy'n dangos gwelliant nodedig ym mhob blwyddyn o'r rhaglen. Disgwyliwn y bydd hyn yn arwain at, o leiaf, rannu swyddogaethau ar draws rhai cofrestrau, ac felly'n cynyddu effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

7.21 Yn ystod y flwyddyn fe gyflwynom www.checkapractitioner.com, sy'n galluogi'r rhai sydd â diddordeb mewn gwirio neu ganfod ymarferydd, p'un a yw wedi ei reoleiddi neu ar gofrestr achrededig, i chwilio am ymarferwyr trwy wefannau'r rheolyddion a chofrestrau. Mae wedi gwella ymarferoldeb chwilio am ymarferwyr trwy ein gwefan.

7.22 Rydym yn parhau i annog cyflogwyr a chomisiynwyr i ddefnyddio ymarferwyr ar gofrestrau achrededig ac i fod yn wyliadwrus wrth wirio cofrestrau, ac yn argymell yn gyhoeddus fod pobl yn defnyddio ymarferwyr ar naill ai gofrestr y rheolydd neu ar gofrestr achrededig.

[31] Awdurdod Safonau Proffesiynol a'r Gymdeithas Iechyd Cyhoeddus Frenhinol, (2017). *Untapped Resources: Accredited Registers in the Wider Workforce*

### *Heriau a chyfleoedd*

7.23 Mae’r rhaglen wedi cefnogi datblygiad a gweithrediad cofrestr cymhwyso y diwydiant gwyddorau bywyd, sy'n cael ei redeg gan yr Academi Gwyddor Gofal Iechyd. Mae’r gofrestr yma yn cwmpasu gweithwyr yn y diwydiant gwyddorau bywyd sy'n rhyngweithio’n rheolaidd gyda chleifion a gweithwyr gofal iechyd yn y GIG. Mae’r gofrestr yn gosod safonau cenedlaethol ac yn caniatáu i Ymddiriedolaethau'r GIG gadarnhau hunaniaeth, manylion a statws hyfforddi unigolion sy'n ymweld â’u safleoedd.

7.24 Eleni, rydym wedi parhau i gynghori llywodraeth Hong Kong ar ddatblygiad ei raglen cofrestrau achrededig ei hun sydd wedi ei fodelu ar ein un ni.

7.25 Yn ystod y flwyddyn, ac yn dilyn trafodaethau gyda’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ariannu'r rhaglen, fe ymgynghorom gyda chofrestrau ar newidiadau i'n model ffioedd. Ni chafwyd consensws ar y ddau opsiwn yr ymgynghorwyd arnynt. Er mwyn parhau i symud tuag at hunan gynhaliaeth ariannol, rydym wedi cynyddu ein ffioedd o ychydig a chyflwyno elfen fesul cofrestrydd i’r model ffioedd. Ynghyd â hyn, rydym yn parhau i weithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i barhau i ariannu’r rhaglen. Mae'n amlwg y byddai ymlyniad ariannol parhaus gan y llywodraeth yn diogelu dyfodol y rhaglen ac yn sicrhau ei bod ar gael i ddarparu'n hyblyg ar gyfer gweithlu sy'n datblygu ac anghenion cyflawni gwasanaeth.

7.26 Rydym yn parhau i godi'r mater o rwystrau a wynebwn sy'n cyfyngu cyrhaeddiad y rhaglen. Rydym yn parhau i geisio cymorth pellach gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar godi ymwybyddiaeth o’r rhaglen yn ehangach a sicrhau na chollir cyfleoedd i amlygu’r rhaglen pan ofynnir i'r Adran roi sylw.

7.27 Rydym yn parhau i geisio cynnydd ar y Ddeddf Adferiad Troseddwyr a’r Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus, fel yr ydym wedi gwneud ers dros ddwy flynedd. (Ar hyn o bryd, ni all Cofrestrau Achrededig gael mynediad at ddatgeliadau cofnodion troseddol manwl. Mae hyn yn effeithio ar eu gallu i fetio cofnodi ar eu cofrestrau ac i ystyried cwynion. Mae'n golygu bod yn rhaid i gofrestrau achrededig ddibynnu ar y rhai gyda chollfarnau darfodedig yn gysylltiedig â throseddau yn ymwneud â materion ymddiriedaeth, gonestrwydd a thrais yn eu datgan. Mae hefyd yn golygu os yw unigolyn ar restr wahardd, nad yw Cofrestrau Achrededig mewn sefyllfa i wybod yr wybodaeth honno.)

### *Ystyriaethau*

7.28 Wrth i’r rhaglen dyfu, rydym yn parhau i weithio i gynyddu ei phroffil ymysg y cyhoedd, comisiynwyr, cyflogwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Rydym yn parhau i weithredu a chefnogi polisi allweddol y llywodraeth trwy'r rhaglen, fod bynnag, rydym yn dal wedi'n cyfyngu gan ffactorau a grybwyllwyd, sydd wedi atal y rhaglen rhag bodloni ei llawn botensial i ddiogelu'r cyhoedd. Fe wyddom na all y rhaglen gyrraedd ei botensial ar gyfer diogelu'r cyhoedd nes bydd ymwybyddiaeth yn cynyddu, sy'n rhwystredigaeth barhaus i ni. Rhagwelwn y gallem gau'r bwlch hwn trwy fwy o waith cydweithredol a mwy o gefnogaeth, gyda phroffil uwch er mwy gwella swyddogaeth diogelu'r cyhoedd y rhaglen.

# 8. Pŵer perswâd

8.1 Mae'r Awdurdod yn dibynnu i raddau helaeth ar bŵer perswâd i ddylanwadu ar welliant mewn rheoleiddio. Yn ogystal â'n hadolygiadau perfformiad, sy'n ddogfennau cyhoeddus, rydym hefyd yn cyhoeddi cyngor polisi, gyda rhai wedi dwyn dylanwad yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r canlynol yn cofnodi datblygiad ein syniadau ar wella rheoleiddio'r gweithlu gofal iechyd.

8.2 Yn Nhachwedd 2008, cyhoeddom Advice to the Department of Health and the Pharmacy Regulation and Leadership Oversight Group on aspects of the establishment of the General Pharmaceutical Council.[32] Yn y cyngor hwnnw, fe ychwanegom chweched egwyddor – ystwythder – i bum egwyddor allweddol y Gweithgor Gwell Rheoleiddio i well rheoleiddio:

- Cymesur: dim ond pan fo angen dylai rheolyddion ymyrryd. Dylai datrysiadau fod yn addas i'r risg a gyflwynir, a rhaid nodi a lleihau costau
- Atebol: rhaid i reolyddion allu cyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn amodol i graffu'r cyhoedd
- Cyson: rhaid i reolau a safonau llywodraeth fod yn gydgysylltiedig a'u gweithredu'n deg
- Tryloyw: dylai rheolyddion fod yn agored, a chadw rheoliadau'n syml a hawdd eu defnyddio
- Targedig: dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau sgìl effeithiau.
- Ystwyth: rhaid i'r rheolyddion fod yn gyson mewn cyflwr o barodrwydd i ymateb i newidiadau a datblygiad mewn ymarfer ac amgylchiadau gofal iechyd proffesiynol.

8.3 Cynghorom fod yn rhaid i'r corff rheoleiddiol allu rhagweld newid, gan gynnwys yn yr amgylchedd ble mae cofrestryddion yn gweithio, ac adweithio'n gyflym. Dylid adlewyrchu hyn yn ei strwythur, safonau, polisïau a phrosesau. Cynghorom fod angen i'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol ddatblygu ei ymagwedd ar reoli risg a chymesuredd fel y gallai ffocysu mwy ar y meysydd hynny ble mae risg i ddiogelwch cleifion yn cael ei asesu i fod uchaf. O ganlyniad, cafodd y cysyniad o ystwythder i gydnabod, dyfynnu a thrafod yn eang.

8.4 Fodd bynnag, teimlom fod angen mwy o waith i sefydlu fframwaith hygyrch ond trylwyr ble gellid gwneud penderfyniadau seiliedig ar risg ar bolisi rheoleiddiol. Gan ystyried hyn, yn 2010 fe gyhoeddom ein rhifyn cyntaf o *Right-touch regulation*, (ailgyhoeddwyd yn 2015). Mae rheoleiddio cyffyrddiad cywir yn seiliedig ar werthusiad priodol o risg, sy'n gymesur ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau; yn creu fframwaith fydd yn caniatáu i broffesiynoldeb ffynnu ac i sefydliadau allu rhagori. Rheoleiddio cyffyrddiad cywir yw nodi'r grym rheoleiddiol sydd ei angen i gyflawni'r effaith a ddeisyfir. Fe ddefnyddiom y gyfatebiaeth o glorian. Mae'r swm cywir o rym rheoleiddiol yn cael ei weithredu pan fydd yr effaith a ddeisyfir yn cael ei gyflawni; mae rhy ychydig o rym yn aneffeithiol, a gormod o rym yn wastraff adnoddau. Fe

[32] CHRE, (2008). *Advice to the Department of Health and the Pharmacy Regulation and Leadership Oversight Group on aspects of the establishment of the General Pharmaceutical Council*

sefydlom gyfres o egwyddorion i gefnogi gwneud penderfyniadau ar sut y gellid cyflawni'r lefel cyffyrddiad cywir o rym rheoleiddiol:

- Un: nodi'r broblem cyn y datrysiad
- Dau: meintoli a chymhwyso'r risgiau
- Tri: mynd mor agos at y broblem â phosibl
- Pedwar: canolbwyntio ar y deilliant
- Pump: defnyddio rheoleiddio ble fo angen yn unig
- Chwech: ei gadw'n syml
- Saith: gwirio ar gyfer canlyniadau anfwriadol
- Wyth: adolygu ac ymateb i newid.

8.5 Fe wnaethom hefyd sefydlu coeden benderfyniadau i gefnogi penderfyniadau penodol ar ymyrraeth reoleiddiol briodol i ddelio â risg benodol:

- 1. Beth yw'r broblem?
- 2. A yw'r broblem am risg o niwed?
- 3. Pa mor fawr yw'r risgiau?
- 4. Beth sy'n achosi'r risgiau?
- 5. A yw'r risgiau wedi eu rheoli ar hyn o bryd?
- 6. Ble a pham mae'r broblem yn digwydd?
- 7. A ellir datrys y broblem yn lleol?
- 8. A oes datrysiad rheoleiddiol yn unol ag egwyddorion rheoleiddio da?
- 9. A oes unrhyw risgiau newydd neu oblygiadau anfwriadol?
- 10. A ydynt yn drech na'r buddion o reoleiddio?

8.6 Yn Hydref 2013, fe gydawdurodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth bapur syniadau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Iechyd, *Asymmetry of influence: the role of regulators in patient safety.*[33] Yn y papur hwn, trafododd yr awduron y berthynas rhwng rheolyddion a'r rhai maent yn rheoleiddio – boed hynny yn bobl, llefydd neu gynnyrch – ac effaith hyn ar ddiogelwch cleifion. Gan gydnabod cymhlethdod y system reoleiddio, fe gynigiont y dylai rheolyddion gydweithio i greu system reoleiddio sy'n lleihau'r amlder o wahanol ffynonellau arweiniad a chyfarwyddyd, sy'n gyson a chlir, ac a welir i fod yn rym rheoleiddio sengl gyda gwahanol elfennau. Dadleuont trwy gydweithio i greu amodau sy'n ysgogi ymgysylltu gyda chyfrifoldeb a hunaniaeth broffesiynol, gall rheolyddion greu system reoleiddio gyson y gall gofal fynnu ynddi.

8.7 Yn Awst 2015 cyhoeddom *Rethinking regulation*, ble ddadleuom fod rheoleiddio angen ei drawsnewid yn sylweddol os yw cefnogi yn hytrach na sefyll yn ffordd y newidiadau difrifol sy'n cael eu hargymell ar gyfer ein gwasanaethau iechyd a gofal

[33] Bilton, D a Cayton, H, (2013). *Asymmetry of influence: the role of regulations in patient safety*. Y Sefydliad Iechyd

ein hunain.[34] Fe ddadleuom fod y gallu i newid gwasanaethau iechyd a gofal yn galw am newid hefyd i'r modd yr oeddynt yn cael eu rheoleiddio. Roedd angen gweithrediad egwyddorion cyffyrddiad cywir, i gael gwell dealltwriaeth o beth allai ac na allai rheoleiddio wneud i reoli'r risg o niwed, i ddadreoleiddio mewn rhai meysydd ac i ffocysu rheoleiddio yn fwy effeithiol mewn eraill. Fe sefydlom sut roedd rheoleiddio iechyd a gofal yn ddigyswllt a drud heb fawr ddim tystiolaeth o effeithiolrwydd. Dadleuom er mwyn creu fframwaith rheoleiddiol ar gyfer iechyd a gofal oedd yn fwy addas ar gyfer gwasanaeth iechyd a gofal cymunedol y dyfodol, wedi ei redeg gan weithlu hyblyg ac amrywiol, byddem angen:

- Theori gyfunol o reoleiddio, yn seiliedig ar syniadau cyffyrddiad cywir
- Amcanion a rennir ar gyfer rheolyddion system a phroffesiynol, a mwy o eglurder ar rolau a dyletswyddau perthnasol
- Meincnodi tryloyw i safonau sefydledig
- Ailadeiladu ymddiriedaeth rhwng gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd a rheolyddion
- Lleihau cwmpas rheoleiddio fel ei fod yn ffocysu ar beth sy'n gweithio (rheoleiddio seiliedig ar dystiolaeth)
- Model asesiad risg priodol ar gyfer pwy a beth ddylid rheoleiddio wedi ei roi ar waith trwy gontinwwm o sicrwydd
- I drechu rhwystrau rhwng proffesiynau statudol a galwedigaethau achrededig
- I'w gwneud yn haws i greu rolau a galwedigaethau newydd o fewn continwwm o sicrwydd
- Ymgyrch ar gyfer effeithiolrwydd a lleihau costau a allai arwain at uno a dadreoleiddio
- Gosod cyfrifoldeb gwirioneddol ble mae'n eistedd gyda phobl sy'n rheoli a chyflawni gofal.

8.8 Yn Hydref 2015, fe ailgyhoeddom fersiwn ddiwygiedig o *Right-touch regulation.*[35] Maes penodol ar gyfer datblygiad yr ail rifyn oedd cydnabod dylanwad cynyddol a chydnabod gwaith Malcolm Sparrow ar rôl y rheolyddion wrth atal niwed.

8.9 Yn Hydref 2016 fe wnaethom adeiladu ar ein dadleuon blaenorol pan gyhoeddom *Regulation rethought*,[36] ble sefydlom ein cynigion ar gyfer trawsnewid rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal, gan awgrymu sut allwn roi'r syniadau yn *Rethinking regulation* ar waith. Cynigiom yn y dyfodol y dylai pob rhan o'r system reoleiddio gael diben cyfunol:

- Amddiffyn cleifion a lleihau niwed
- Hyrwyddo safonau proffesiynol
- Sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd mewn gweithwyr proffesiynol.

8.10 Dylid cyfeirio'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheoleiddio tuag at y dibenion hyn, a'r dibenion hyn yn unig. Rydym yn argymell ffocws o'r newydd ar

[34] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2015). Rethinking regulation
[35] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2015). Right-touch regulation
[36] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2016) Regulation rethought

swyddogaethau craidd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Fe sefydlom gynigion ar gyfer corff sicrwydd unigol, safonau cyffredin, cofrestr gyhoeddus a rennir a system o drwyddedu. Yn addasrwydd i ymarfer fe ddadleuom dros fwy o bwyslais ar ddatrysiad lleol, mabwysiadu ymagwedd ymchwiliol yn hytrach na gwrthdaro, a rhannu cyflawniad ymchwiliadau, erlyniadau a dyfarniadau. Fe sefydlom pam ein bod yn credu y dylai'r fethodoleg a ddatblygom a chyhoeddi fel *Right-touch assurance: a methodology for assessing and assuring occupational risk* gael ei mabwysiadu yn rhan o drefniadau diwygiedig.[37]

8.11 Yn Hydref 2017, cyhoeddodd yr Adran Iechyd *Promoting professionalism, reforming regulation: a paper for consultation* ar ran pedair Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barnau am ddiwygiadau i'r sector ac wedi ei ddylanwadu'n fawr gan ein gwaith.

8.12 Yn Nhachwedd 2017, yn ystod y cyfnod ymgynghori, cyhoeddom *Right-touch reform*[38] oedd yn disgrifio mewn cryn fanylder ein gweledigaeth ar gyfer diwygio mewn pedwar maes: atal niwed, addasrwydd i ymarfer, sicrwydd ansawdd addysg a chofrestru. Fe ehangom ein cynnig cynharach ar gyfer un corff sicrwydd ar gyfer galwedigaethau iechyd a gofal, cyfres o safonau cyffredin, swyddogaethau a rennir a system o drwyddedu, wedi eu hategu gan ymagwedd gyson tuag at asesu risg. Fe gynhaliom ein safbwynt y byddai un corff sicrwydd unigol y model gorau ar gyfer cyflawni rheoleiddio oedd yn gymesur, syml i'w ddeall, effeithiol ac effeithlon. Argymhellom y dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r cynnig hwn gan randdeiliaid. Ar wahân, a gan ddibynnu'n helaeth ar y cyhoeddiad hwn, fe gyflwynom ymateb manwl i'r ymgynghoriad.[39] Daeth yr ymgynghoriad i ben yn Ionawr 2018.

---

[37] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2016). [Right-touch assurance: a methodology for assessing and assuring occupational risk]

[38] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2017). [Right-touch reform: a new framework for assurance of professions]

[39] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2018). [Response to the government consultation: Promoting professionalism, reforming regulation]

# 9. Cleifion yn ganolog i reoleiddio proffesiynol

9.1 Bwriad y llywodraeth, wrth sefydlu'r Awdurdod, oedd y byddai'n helpu gosod cleifion yn ganolog i reoleiddio proffesiynol. Roedd hyn yn erbyn cefndir o ymchwiliadau mawr oedd wedi nodi fod rheolyddion yn gadael i fuddiannau'r proffesiwn fod yn drech na diogelwch cleifion.

9.2 Cafwyd cynnydd sylweddol. Golyga diwygiadau i lywodraethu nad yw'r proffesiynau bellach yn dominyddu Cynghorau'r rheolyddion na Bwrdd yr Awdurdod. Mae corff sylweddol o gyfraith achos wedi ei ddatblygu sydd wedi diffinio pwrpas rheoleiddio proffesiynol yn gadarn fel rhywbeth sy'n: diogelu'r cyhoedd, cynnal hyder y cyhoedd ac yn datgan a chynnal safonau. Mae'r rheolyddion a'r llysoedd bellach yn deall nad yw hyder yn y proffesiwn yn ymwneud â delwedd neu hunan fuddiannau'r proffesiwn. Yn hytrach, mae'n ymwneud â hyder y cyhoedd wrth geisio gofal a thriniaeth gan aelodau'r proffesiwn hwnnw.

9.3 Fodd bynnag, fel yr esboniom yn ein papurau yn sefydlu'r achos dros ddiwygio rheoleiddiol, nid yw wedi llwyddo i roi profiad y cleifion yn ganolog. Fel y dengys ein hymchwil gyda'r cyhoedd, mae nhw, fel gweithwyr proffesiynol, yn cael y profiad o gwyno a mynychu gwrandawiadau, i fod yn frawychus iawn.[40] Mae rheolyddion wedi ceisio darparu cefnogaeth a gwneud y profiad yn llai aflonyddus. Ond mae dwy broblem. Yn gyntaf, mae'r cysyniad o addasrwydd i ymarfer a weithredir gan y rheolyddion yn anodd ei esbonio a deall. Golyga hyn y gallai cleifion fod yn cael anhawster deall sut y gall rheolydd fod wedi cytuno nad yw eu perthynas wedi derbyn y driniaeth gywir ac wedi marw, ac eto mae'r gweithiwr iechyd heb ei sancsiynu (neu gosbi). Yn ail, nid yw cleifion yn achwynwyr ond yn dystion, ac felly efallai eu bod yn teimlo yn gwbl anfodlon os na ystyrir fod y materion maent yn cwyno amdanynt o fewn cwmpas trothwy'r rheolydd ar gyfer ymchwiliad, neu'n arwain at gyflwyno sancsiwn gan banel.

9.4 Mae'r modd y gall y materion hyn effeithio ar brofiad cleifion a pherthnasau sy'n rhan o achosion rheoleiddiol i'w weld yn amlwg yn ein hadroddiad diweddar ar *Adolygiad Gwersi a Ddysgwyd yr NMC.*[41]

9.5 Felly rydym wedi argymell diwygiad llwyr o achosion addasrwydd i ymarfer fel y sefydlwyd yn Right-touch reform a'n hymateb i ymgynghoriad y llywodraeth *Promoting professionalism, reforming regulation.*

---

[40] Gweler *Right-touch regulation*, *Rethinking regulation*, *Regulation rethought* a *Right-touch reform* del y sefydlir yn nhroednodiadau 35, 36 a 37 uchod.

[41] Awdurdod Safonau Proffesiynol, (2018). *- the Nursing and Midwifery Council's handling of concerns about midwives' fitness to practise at the Furness General HospitalLessons Learned Review*

# 10. Atal niwed

10.1 Yn *Regulation rethought*, argymhellodd yr Awdurdod y dylai ‘amddiffyn cleifion a lleihau niwed’ fod yn rhan o ddiben cyfunol y system rheoleiddiol. Mae hyn yn faes diddordeb cynyddol o ymchwil a datblygu polisi ymysg y rheolyddion a’r Awdurdod. Mae’r rheolyddion eisoes yn cyfrannu i atal niwed trwy arfer eu pedair swyddogaeth graidd, ond mae diddordeb cynyddol mewn defnyddio data a dealltwriaeth o ymchwil i ddylanwadu'n rhagweithiol ar ymddygiad gweithwyr proffesiynol a’r amgylchiadau pan fydd niwed i gleifion yn digwydd.

10.2 Mae yna bellach gorff sylweddol o dystiolaeth seiliedig ar ymchwil. Rydym yn tynnu sylw arbennig at ymchwil diweddar a gyflawnwyd ar gyfer y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, *People like us? Understanding complaints about paramedics and social workers* ac adroddiad yr Athro Searle a gomisiynwyd gan yr Awdurdod, *Bad apples? Bad barrels? Or bad cellars? Antecedents and processes of professional misconduct in UK Health and Social Care.* Dadansoddodd tîm o Brifysgol Coventry dros 6,700 o benderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol. Fe ddefnyddiont y data i nodi tri math gwahanol o gyflawnwr yn ogystal â darparu mewnwelediad i gamymddygiad rhywiol ac anonestrwydd gan weithwyr iechyd a gofal.

10.3 Mae rheolyddion, yn arbennig y Cyngor Meddygol Cyffredinol, yn gwneud cynnydd o ran casglu a defnyddio data ar gyfer dibenion dadansoddol a rhagfynegol, er bod y gwaith hwn yn dal yn y camau cymharol gynnar. Bydd angen i’r holl reolyddion wynebu'r her a roddwyd i’r GMC, yr ydym yn credu sy'n berthnasol ‘r holl reolyddion, gan *Adroddiad Ymchwiliad Morecambe Bay* i ddefnyddio ei ‘gyfoeth o wybodaeth, profiad a’i gapasiti fel rheolydd i daclo diogelwch cleifion o safbwynt ehangach, mwy holistig’. Er ein bod yn rhybuddio na ddylai hyn arwain at bylu cyfrifoldebau na disgwyliadau afrealistig y dylent reoli digwyddiadau y maent yn bell ohonynt.

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/2018

# 1. Adroddiad perfformiad

## Trosolwg

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwaith yr Awdurdod Safonau Proffesiynol dros y flwyddyn ddiwethaf.

### Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

1.2 Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) ar 1 Rhagfyr 2012. Cyflwynir ei rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.[42] Yn gryno, mae'r Awdurdod yn diogelu'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestru pobl yn gweithio mewn iechyd a gofal. Mae'r Awdurdod yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig.

1.3 Mae gan yr Awdurdod fwrdd sy'n cynnwys saith aelod anweithredol ac un aelod gweithredol a benodir gan y Bwrdd.

1.4 Penodir yr aelodau anweithredol gan y Cyfrin Gyngor, gweinidogion Cymru a'r Alban, a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon.

1.5 O 1 Awst 2015, fe ddaeth y trefniant o ariannu'r Awdurdod gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr a gan y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i ben. Yn hytrach mae wedi ei ariannu'n bennaf gan ffioedd a delir gan y rheolyddion a oruchwylir gennym.

1.6 Dan y Deddfau Seneddol sy'n llywodraethu'r hyn a wnawn, mae gennym rymoedd i gyflawni detholiad o weithgareddau i hyrwyddo iechyd a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd parthed rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

1.7 Mae gennym ddyletswyddau a grymoedd parthed:

- Trosolwg o'r naw corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig
- Achredu'r cofrestrau a gedwir gan gyrff cofrestru anstatudol gweithwyr iechyd a gofal
- Darparu comisiynau i, a chyflawni ymchwiliadau ar gyfer, llywodraeth
- Darparu cyngor i sefydliadau eraill tebyg yn y Deyrnas Unedig a thramor.

1.8 Mae'r Awdurdod yn adrodd i Senedd y Deyrnas Unedig ac yn cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr, i gyflenwi'n hoblygiadau statudol ac amcanion allweddol ein cynllun busnes. Mae hyn yn cynnwys nodi ac ymateb yn briodol i risgiau mewnol ac allanol.

1.9 Mae'r Awdurdod yn gorff cyhoeddus annosbarthedig.[43]

[42] Ar gael ar www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/7/contents/enacted
[43] Cyd-destun ar www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/uksectoraccounts/datasets/publicsectorclassificationguide

## Yr hyn rydym yn ei wneud

### *Gwaith rheoleiddio a gosod safonau*

1.10 Mae gan yr Awdurdod rymoedd i:

- Ymchwilio, cymharu ac adrodd ar berfformiad pob corff rheoleiddio. Gofynnir yn benodol i ni adrodd i'r Senedd ar i ba raddau mae pob corff rheoleiddio wedi cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodwyd arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd
- Archwilio camau cyntaf achosion addasrwydd i ymarfer ac adrodd ar ein casgliadau parthed pob rheoleiddiwr
- Arolygu canlyniadau achosion addasrwydd i ymarfer terfynol a'u cyfeirio at lys os ystyriwn fod y canlyniad yn annigonol ac nad yw'n diogelu'r cyhoedd[44]
- Rhoi cyfarwyddiadau yn gofyn i gorff rheoleiddio sefydlu rheolau dan unrhyw rymoedd sydd gan y corff i wneud hynny.

1.11 Rydym yn hyrwyddo iechyd a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd wrth reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. I gyflawni hyn, rydym yn gwrando ar farn a phryderon pobl a'u hystyried wrth ddatblygu'n gwaith.

1.12 Rydym yn cynorthwyo'r Cyfrin Gyngor i arfer eu grymoedd penodi parthed y cyrff rheoleiddio, a chefnogi ansawdd penodiadau i gynghorau rheolyddion. Mewn ymgynghoriad â'r cyrff rheoleiddio, rydym wedi cynhyrchu safonau ar gyfer y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â recriwtio a phenodiadau i gynghorau'r rheolyddion.

1.13 Rydym yn archwilio a goruchwylio gwaith y naw corff rheoleiddio sy'n gosod safonau ar gyfer hyfforddiant ac ymddygiad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

1.14 Rydym yn hyrwyddo arfer da a rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn gweithio gyda'r cyrff rheoleiddio i wella ansawdd a rhannu arfer da. Er enghraifft, rydym yn rhannu pwyntiau dysgu sy'n codi o archwilio achosion addasrwydd i ymarfer ac yn trefnu seminarau i archwilio materion rheoleiddio.

1.15 Rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth gyda'r cyrff rheoleiddio, yn cyflawni ymchwil a chyflwyno syniadau newydd am reoleiddio i'r sector. Rydym yn gweithio'n agos gydag, ac yn cynghori, y pedair adran iechyd llywodraeth yn y Deyrnas Unedig ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal. Yn ogystal, rydym yn monitro polisi yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop.

1.16 Y cyrff rheoleiddio yw:


- Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (GCC) sy'n rheoleiddio ceiropractyddion yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) sy'n rheoleiddio deintyddion, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol a therapyddion orthodonteg yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) sy'n rheoleiddio meddygon yn y Deyrnas Unedig

[44] O 31 Rhagfyr 2015 fe ddisodlodd yr ymadrodd 'annigonol i ddiogelu'r cyhoedd' yr ymadrodd 'rhy drugarog'.

- Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) sy’n rheoleiddio optometryddion, optegwyr cymwysedig, optegwyr sy’n fyfyrwyr a busnesau optegol yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) sy’n rheoleiddio meddygon esgyrn yn y Deyrnas Unedig
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) sy’n rheoleiddio fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yng Nghymru, Lloegr a’r Alban
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a gofal (HCPC) sy’n rheoleiddio therapyddion celf, gwyddonwyr biofeddygol, ciropodyddion/podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, cyflenwyr teclynnau clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, orthoptwyr, parafeddygon, ffisiotherapyddion, ymarferwyr seicolegol, prosthetyddion ac orthotyddion, radiograffwyr, a therapyddion lleferydd a llais yn y Deyrnas Unedig, a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) sy’n rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn y Deyrnas Unedig
- Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) sy’n rheiddio fferyllwyr yng Ngogledd Iwerddon.

1.17 Ceir manylion y nifer sydd wedi cofrestru ym mhob rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a oruchwylir gennym (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018) isod.

**Tabl 1 Nifer o gofrestryddion fesul rheolydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol**




### *Cofrestrau Achrededig*

1.18 Mae gan yr Awdurdod rôl statudol o ran atgyfnerthu ansawdd a diogelwch cleifion trwy osod safonau ac achredu cofrestrau pobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan gyfraith. O 31 Mawrth 2018, roedd yna 24 o gofrestrau achrededig.

1.19 Diben yr achrediad yw gwella ansawdd cofrestriad a gyflawnir gan y sefydliadau sy'n meddu ar y cofrestrau hyn ac i hyrwyddo safonau ymddygiad da, cymhwyster technegol a, ble fo'n berthnasol, ymarfer busnes gan eu cofrestryddion. Ei fwriad yw hybu amddiffyn y cyhoedd ac i gefnogi dewis gan y cyhoedd wrth geisio gwasanaethau gan ymarferwyr mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan gyfraith. Mae'n fodd cymesur o reoli risgiau.

### *Comisiynau gan Lywodraeth(au)*

1.20 Rydym yn cefnogi gwaith yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gweinidogion yr Alban a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon trwy ddarparu cyngor ynghylch rheoleiddio a safonau gweithwyr iechyd a gofal. Rydym hefyd yn darparu cyngor ar faterion eraill pan ofynnir i ni wneud hynny.

1.21 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Iechyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ofyn i ni ymchwilio materion sy'n achosi pryder hefyd. Fel y sefydlwyd yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r gweinyddiaethau datganoledig yn talu ffi, i'w bennu gan yr Awdurdod, ar gyfer y gwaith hwn.

1.22 Rydym yn ymgynghori â llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector, ac yn ymateb i'w hymgynghoriadau. Yn ogystal, byddwn yn cadw golwg ar ddatblygiadau rhyngwladol, yn arbennig yn Ewrop, allai effeithio ar reoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Deyrnas Unedig a rhyngwladol, gan sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau hyn a'n bod yn cryfhau ein cysylltiadau â'r partneriaid hyn.

### *Cyngor i sefydliadau eraill*

1.23 Mae ein deddfwriaeth yn ein caniatáu i ddarparu cyngor neu wasanaethau archwilio i gyrff rheoleiddio ac i eraill sydd â swyddogaethau tebyg i rai corff rheoleiddio, p'un a fydd y swyddogaethau hyn yn berthnasol i iechyd neu ofal cymdeithasol. Telir am y gwaith hwn gan y sefydliad sy'n gofyn am y cyngor.

### Ein gwerthoedd

1.24 Mae ein gwerthoedd yn creu fframwaith i'n penderfyniadau. Maent yn ganolog i bwy yr ydym a sut yr hoffem i'n partneriaid ein gweld. Rydym yn ymroddedig i fod:

- Â ffocws ar les y cyhoedd
- Yn annibynnol
- Yn deg
- Yn dryloyw
- Yn gymesur.

1.25 Mae ein gwerthoedd yn eglur yn y modd yr ydym yn gweithio: ein hymagwedd tuag at ein goruchwyliaeth o gofrestru a rheoleiddio'r sawl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol, sut ydym yn datblygu cyngor polisi a sut ydym yn ymgysylltu â'n partneriaid i gyd. Rydym yn ceisio bod yn gyson o ran sut ydym yn gweithredu ein gwerthoedd.

1.26 Rydym yn annibynnol ond yn dal ein hunain yn atebol i'r cyhoedd ac i seneddau a chynulliadau'r Deyrnas Unedig ar gyfer yr hyn a wnawn a sut ydym yn ei wneud.

1.27 Rydym yn gwrando ar farn y bobl sy'n derbyn gofal. Rydym yn ceisio sicrhau yr ystyrir eu barn yng nghofrestriad a rheoleiddiad pobl sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

1.28 Rydym yn datblygu a hyrwyddo rheoleiddiad cyffyrddiad cywir.[45] Mae hyn yn rheoleiddio sy'n gymesur i'r risg o niwed i'r cyhoedd ac sy'n darparu fframwaith fydd yn caniatáu i broffesiynoldeb ffynnu a ble gellir cyflawni rhagoriaeth sefydliadol.[46] Rydym yn gweithredu egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir yn ein gwaith ein hunain.

### Ein hamcan

1.29 Rydym yn gweithio i amddiffyn y cyhoedd, gosod safonau ac annog gwelliant yng nghofrestriad a rheoleiddiad pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i bopeth a wnawn.

### Amcanion strategol ar gyfer 2017/18

1.30 Sefydlir amcanion strategol corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2017/18, a gytunwyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod cynllunio strategol ym Mai 2016, isod.

1.31 Bydd yr Awdurdod yn gweithio i:

- Gyflawni'r broses adolygu perfformiad o fewn cyfnod clir o amser, gan geisio lleihau'r baich ar y rheolyddion a gwella effeithiolrwydd mewnol. Adrodd i'r Pwyllgor Iechyd gefnogi eu gwaith
- Gwella effeithlonedd proses ein gwaith adran 29 wrth reoli risg a defnyddio ein data yn well i ddangos effaith a gwella perfformiad
- Sicrhau bod y tîm polisi yn canolbwyntio ar a gyda'r gallu i gyfrannu i ddiwygio rheoleiddiol ac unrhyw ddeddfwriaeth bosibl; edrych i wella ymarfer rheoleiddiol, safonau a diogelu'r cyhoedd trwy roi sylw a chyngor i'r rheolyddion ac ar gyfer y pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig
- Cadw ein costau i lawr tra'n cynnal gwerth am arian a chyflawni ymgynghoriad ffioedd effeithiol a phrydlon
- Recriwtio, dethol a sefydlu aelodau newydd i'r Bwrdd yn amserol a sicrhau perthynas weithredol effeithiol rhwng y bwrdd a'r tîm gweithredol
- Ceisio sefydlogrwydd ariannol ar gyfer y rhaglen cofrestrau achrededig, ymestyn ei gyrhaeddiad ac annog gwelliant ym mherfformiad y cofrestrau fel fo angen
- Parhau i fod yn adweithiol parthed gweithgareddau ymgynghori a masnachol am y tro.

[45] Awdurdod Safonau Proffesiynol (2010). *Right-touch regulation*. Ar gael ar www.professionalstandards.org.uk/policy-and-research/right-touch-regulation
[46] Diffinnir rhagoriaeth sefydliadol fel perfformiad cyson o arfer da wedi ei gyfuno â gwelliant parhaus.

### Egwyddorion busnes

1.32 Cydnabu ein Bwrdd y newidiadau ariannol a gweithredol y byddem yn wynebu wedi gweithrediad y Rheoliadau Ffioedd 2015 a’r angen penodol am wahaniad clir o incwm a gwariant ein gwahanol ffrydiau gwaith. Yn ogystal â gosod amcanion strategol diwygiedig, mae hefyd wedi gosod yr egwyddorion busnes canlynol ar ein cyfer:

- Gwaith rheoleiddio a gosod safonau: Mae'r holl ffioedd o’r cyrff rheoleiddiol yn cael eu talu i’n swyddogaethau statudol o drosolwg a gwelliannau rheoleiddiol yn unig, fel y sefydlwyd yn ein deddfwriaeth. Bydd unrhyw warged neu ddiffyg a gynhyrchir yn erbyn ein cyllideb fel y cytunwyd gan y Cyfrin Gyngor yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo ffi’r flwyddyn ganlynol
- Cofrestrau Achrededig: Mae ffioedd ar gyfer achredu neu adnewyddu o gofrestrau galwedigaethol yn cael eu gweithredu i ddarparu a datblygu’r rhaglen cofrestrau achrededig yn unig. Bydd unrhyw warged a gynhyrchir yn cael ei gadw er budd y rhaglen
- Comisiynau gan Lywodraeth(au): Bydd prisio comisiynau a chontractau ymgynghori yn talu’r holl gostau sy’n gysylltiedig â’r gwaith. Bydd unrhyw warged yn deillio o hyn yn cael ei ddefnyddio yn ôl doethineb y Bwrdd i gefnogi ein hamcanion strategol er lles y cyhoedd
- Cyngor i sefydliadau eraill: Bydd prisio comisiynau a chontractau ymgynghori yn talu’r holl gostau sy’n gysylltiedig â’r gwaith. Bydd unrhyw warged yn deillio o hyn yn cael ei ddefnyddio yn ôl doethineb y Bwrdd i gefnogi ein hamcanion strategol er lles y cyhoedd.

1.33 Bydd gwargedau yn cael eu gweithredu yn unol â’r egwyddorion hyn wedi i ofynion ein polisi wrth gefn gael eu bodloni.

1.34 I sicrhau tryloywder, byddwn yn:

- Cyhoeddi ein cyfrifon blynyddol ac yn datgelu ein datganiadau ariannol wedi eu harchwilio yn llawn
- Dangos ein hincwm a gwariant yn glir parthed pob un o bedair swyddogaeth yr Awdurdod
- Cyhoeddi datganiad archwilydd yn sefydlu ein cydymffurfiad â’r egwyddorion busnes hyn.

1.35 Ar y cyd â'r egwyddorion hyn, mae ein Bwrdd wedi sefydlu polisi wrth gefn.

1.36 Mae'r Awdurdod wedi cytuno i gadw cronfa wrth gefn o gyfanswm o dri mis o gostau gweithredu, sef tua £1 miliwn, ble mae'r gwahaniaeth rhwng y canlynol wedi ei nodi:

- Elfen gyfyngedig yn gysylltiedig i waith rheoleiddio a safonau
- Elfen anghyfyngedig yn gysylltiedig i holl waith yr Awdurdod
- Y bwriad yw, gydag amser, bydd yr elfen gyfyngedig yn cyfateb i gyfanswm o ddau fis o gostau gweithredu
- Nid yw ffurf bresennol yr arian wrth gefn yn cydymffurfio â’r rhaniad dau draean/un traean hwn

- Bydd lefel a lluniad ein cronfeydd yn cael eu hadrodd trwy ein Hadroddiad Blynyddol
- Bydd angen rhoi unrhyw arian a gymerir o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn yn ôl yn y flwyddyn neu flynyddoedd dilynol.

### Datganiad y Prif Weithredwr

1.37 Fel y gwelir o gynnwys yr adroddiad hwn, mae’r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn ystod y flwyddyn a adolygir. Rydym wedi cyhoeddi adolygiadau o berfformiad saith o'r naw rheolydd statudol yn ystod y flwyddyn.

1.38 Mae swm y gwaith a gyflawnir gan staff wedi parhau i fod yn uchel. Mae’r nifer o benderfyniadau terfynol a hysbyswyd i ni gan y rheolyddion eleni wedi lleihau o 4 y cant. Mae'r nifer o achosion a drafodom mewn cyfarfodydd achos a'u hapelio wedi gostwng, er bod y canran o atgyfeiriadau yn dal yn gyson. Mae’r nifer o gofrestrau achrededig rydym yn achredu wedi cynyddu o 23 i 24 ac rydym wedi diwygio’r strwythur ffioedd ar gyfer y rhaglen a pharhau i weithio gyda’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i’w roi ar strwythur ariannol sicr.

1.39 Ymgynghorodd y Llywodraeth ar ddiwygio rheoleiddiol tuag at ddiwedd 2017 ac fe wnaethom gyfraniad arwyddocaol i gefndir y cynigion hynny gyda’n cyhoeddiad *Right-touch reform.*

1.40 Mae ein hymroddiad i ymchwil a dysgu wedi parhau gyda'n cynhadledd academaidd flynyddol, cynhadledd rhanddeiliaid Cymru a chynhadledd Cofrestrau Achrededig yn cael cefnogaeth dda gan siaradwyr o a chyfranogwyr o safon. Denodd y Gynhadledd Academaidd siaradwyr a chyfranogwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ac mae bellach yn ddigwyddiad rheolaidd yn y calendr rheoleiddio.

1.41 Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthnasau rhyngwladol ac wedi cyfrannu i'r gynhadledd CLEAR Education yn Denver, Fforwm y World Health Executive yn Montreal, a’r Canadian Council of Nurse Regulatory Authorities yn Toronto. Mae ein henw da yn rhyngwladol, fel y gwelir o’r nifer fawr o geisiadau am gyngor a chyfarfodydd a dderbyniwn, yn arwyddocaol ac yn tyfu.

1.42 Mae ansawdd ein gwaith yn deillio o ansawdd ein staff. Yn 2017/18, gyda chyngor allanol, fe gyflawnom adolygiad o’n bandiau cyflog a strwythur gwobrwyo. Mae hyn wedi ei weithredu'n llwyddiannus ac rydym wedi gweld y manteision trwy dîm o staff sefydlog sy'n perfformio'n dda.

1.43 Fel Prif Weithredwr, rwy'n hyderus fod yr Awdurdod yn perfformio'n dda; mae'n cynnal yr ansawdd uchel o'i allbynnau ac yn gweithio o fewn ei egwyddorion busnes a chyllideb. Mae'r cyfarwyddwyr yn cymryd cyfrifoldeb personol am eu cyllidebau ac am y risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig gyda'u meysydd gwaith, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan grŵp y cyfarwyddwyr a'i oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd.

### Dangosyddion perfformiad allweddol

1.44 Mae'r adran hon yn esbonio sut ydym yn mesur perfformiad. Yn ein cynllun busnes blynyddol, fe gyflwynom amrywiol ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) ar gyfer ein gwaith. Rydym yn eu hadolygu yn rhan o raglen waith y grŵp cyfarwyddwyr. Rydym yn eu trafod gyda swyddogion yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r gweinyddiaethau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ein cyfarfodydd rhannu gwybodaeth cyfnodol.

1.45 Cyflwynir ein perfformiad yn erbyn y KPIs hynny sydd fwyaf tebygol o fod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn ystod 2017/18 isod:

| Maes Gwaith | Dangosyddion perfformiad allweddol | Perfformiad |
|---|---|---|
| Penderfyniadau adran 29 | 100% o benderfyniadau perthnasol (a dderbyniwyd) wedi ystyried o fewn dyddiad cau statudol. | 100%<br>4,095/<br>4,095 |
| Pryderon y cyhoedd am Gyrff Rheoleiddio | 100% o bryderon wedi cydnabod o fewn pum niwrnod gwaith. | 94%<br>362/377 |
| Diogelwch Data a Gwybodaeth | Delio â phob (100%) Cais Gwrthrych am Wybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol.<br><br>Delio â phob (100%) cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn dyddiadau cau statudol. | 100%<br>1/1<br><br>100%<br>17/17 |
| Llywodraethu Ariannol a Chyfrifon Blynyddol | I dalu anfonebau diamheuol:<br>60% o fewn pum niwrnod<br><br>100% o fewn 10 niwrnod. | 81%<br>559/688<br><br>100%<br>688/688 |
| Adnoddau dynol | Salwch staff yn ddim mwy na 2%<br><br>Trosiant staff i fod yn llai na 10%. | 3%<br>269/9,832<br><br>7%<br>3/42 |
| Cwynion ynglŷn â'r Awdurdod | Cydnabod 100% o gwynion ymhen pum niwrnod<br><br>Ymateb i bob cwyn i'w cwblhau o fewn 28 niwrnod. | 100%<br>10/10<br><br>100%<br>10/10 |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 85% o alwadau i'r ddesg gymorth i'w cau o fewn 1 niwrnod. | 84%<br>362/431 |
| Cofrestrau Achrededig | 90% o gofrestrau achrededig yn ymgeisio i barhau achrediad.<br><br>Bodlonir amserlenni:<br>Ceisiadau yn dod gerbron y Panel o fewn 21 niwrnod i dderbyn yr holl wybodaeth / dogfennaeth ofynnol<br><br>Panel yn adolygu | 100%<br>23/23<br><br>100%<br>2/2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ceisiadau adnewyddu o fewn pum niwrnod i'r dyddiad adnewyddu ar yr amod y derbyniwyd yr holl wybodaeth a dogfennaeth berthnasol<br><br>Cyhoeddi llythyrau yn cynghori am yr angen i ymgeisio am adnewyddiad 12 wythnos cyn i'r achrediad ddarfod. | 57%[47]<br>13/23<br><br>100%<br>23/23 |

## Dadansoddiad o berfformiad

1.46 Fel y dengys yr adroddiad hwn, rydym wedi parhau i ffocysu ar ddiogelu'r cyhoedd, gwella rheoleiddio proffesiynol a chofrestru a chyflawniad effeithiol o'n holl swyddogaethau statudol. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau ein bod wedi cynnal safon ein perfformiad.

1.47 Mae swm y gwaith a gyflawnir gan staff wedi parhau i fod yn uchel. Rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a chydweithrediad yr ydym wedi derbyn gan y cyrff rheoleiddiol, yn arbennig eu cydweithrediad gyda'r cylch cynllunio busnes a'r ymgynghoriad ffioedd.

1.48 Mae'r rhaglen cofrestrau achrededig yn gwbl integredig i'n cynlluniau gwaith, llywodraethu a rheoli ariannol. Gyda 24 o gofrestrau wedi eu hachredu yn cwmpasu 85,000 o ymarferwyr, mae'n gyfraniad gwerthfawr i ansawdd a dewis mewn iechyd a gofal.

1.49 Mae ein gwaith polisi a'n rhaglen ymchwil yn parhau i dyfu dan ein dylanwad.

1.50 Rydym yn ymroddedig i arfer gorau mewn llywodraeth a gweithrediadau a rheolaeth ariannol. Rydym wedi ailffocysu'r swyddogaeth hon i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid a chefnogaeth gydweithredol hyd yn oed gwell i'r swyddfeydd blaen yn ystod y flwyddyn.

[47] Rydym wedi datblygu ein proses adolygiad blynyddol, i'w gweithredu o Ebrill 2018. Trwy'r broses hon, byddwn yn cynyddu'r monitro a gyflawnwn trwy gydol y flwyddyn ac yn symud tuag at ymagwedd fwy seiliedig ar risg i adolygiadau blynyddol, gan ein galluogi i gyfeirio ein hadnoddau yn fwy effeithiol.

## Gwaith rheoleiddio a gosod safonau

### *Adran 29*

1.51 Dan Adran 29 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, gallwn gyfeirio penderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer a wneir gan y naw corff rheoleiddio at y llys (gan fod atgyfeiriad gennym yn cael ei ystyried fel apêl gan y Llys) os byddwn yn ystyried nad yw'r penderfyniad yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

1.52 Eleni rydym wedi gweld lleihad o 4% yn y nifer o benderfyniadau achosion addasrwydd i ymarfer gan y rheolyddion, o 4,285 yn 2016/17 i 4,095 yn 2017/18.

1.53 Roedd mwyafrif y penderfyniadau a adolygwyd gennym (59%) yn benderfyniadau panel yr NMC.

1.54 O’r 4,095 o achosion a dderbyniom yn 2017/18, cafodd 87% (3,570) eu cau heb fod angen rhagor o wybodaeth, (er bod y penderfyniad eto i’w wneud mewn 66 o achosion). Fodd bynnag, roedd 755 o'r achosion hyn wedi arwain at y rheolydd yn dileu enw'r cofrestrydd oddi ar ei gofrestr, neu ei atal am gyfnod amhenodol, ac felly nid oedd yn codi unrhyw bryderon am ddiogelu'r cyhoedd ac nid oedd angen ymyrraeth gan yr Awdurdod.

1.55 Yn ystod 2017/18, gofynnom am ragor o wybodaeth a chynnal adolygiadau achos manwl mewn 265 o achosion. I gymharu, fe gyflawnom 272 adolygiad achos manwl yn 2016/17.

1.56 Yn ystod 2017/18, fe ystyriom 35 penderfyniad panel mewn cyfarfodydd achos ffurfiol. Roedd 31 o’r rhain yn gyfarfodydd achos ‘adran 29’ a phedwar yn gyfarfodydd achos ‘adran 40B’ a gynhaliwyd i benderfynu a ddylid ymuno ag apeliadau’r GMC. I gymharu, yn 2016/17, cynhaliom 55 o gyfarfodydd, gyda 47 yn gyfarfodydd ‘adran 29’ ac wyth yn gyfarfodydd ‘adran 40B’.

1.57 Cyfeiriom saith achos i’r Llys dan ein hawdurdodaeth adran 29. Fe wnaethom dynnu un achos yn ôl o’r Llys wedi ei gyfeirio yn 2016/17. Cafodd ein hapêl mewn pedwar achos ei gynnal trwy gydsyniad neu Orchymyn y Llys wedi gwrandawiad llawn. Mae’r ddau achos sy'n weddill wedi eu rhestru ar gyfer gwrandawiad yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 a bydd y canlyniad yn cael ei adrodd yn adroddiad blynyddol flwyddyn nesaf. I gymharu, fe gyfeiriom 13 achos i’r Llys yn 2016/17.

1.58 Yn ogystal, fe ymunom ag un apêl a gychwynnwyd gan y GMC fel parti, dan adran 40B y Ddeddf Feddygol 1983. Cafodd yr apêl honno ei setlo trwy gytundeb rhwng pob parti. Yn 2016/17, fe ymunom gyda dwy apêl a gychwynnwyd gan y GMC.

1.59 Yn bron i bob un o’r achosion sy'n weddill a ystyriom mewn cyfarfodydd achos ffurfiol ond ble penderfynom beidio cyfeirio at y llys nac ymuno fel parti ag apêl GMC, fe nodom bwyntiau dysgu i'w porthi yn ôl i'r rheolyddion.


1.60 Er ein bod wedi gweld lleihad yn y nifer o achosion a adolygwyd yn 2017/18, rydym hefyd wedi gweld lleihad yn y canran o achosion a gyfeirir i’r llys (i lawr 0.2 y cant o gymharu â 0.3-0.4%) wrth gymharu â’r pedair blynedd flaenorol (gweler tabl 3).

1.61 O’r saith cyfeiriad i'r Llys a wnaethom yn 2017/18, roedd pump yn ymwneud â phenderfyniadau a wnaed gan Bwyllog Ymddygiad a Chymhwyster/Panel Addasrwydd i Ymarfer yr NMC; ac roedd un yn ymwneud â phenderfyniad gan Bwyllgor Ymddygiad a Chymhwyster yr HCPC.


1.62 Mae'r gyfran gymharol uchel o benderfyniadau panel yr NMC sydd wedi eu cyfeirio at y Llys gennym yn adlewyrchu'n rhannol y ffaith bod 59 y cant o holl benderfyniadau'r panel a dderbyniwn gan yr NMC.

1.63 Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith adran 29 ym mharagraffau 6.1 i 6.43 yn rhan 1 yr adroddiad hwn.

**Tabl 2 Nifer o achosion addasrwydd i ymarfer a adolygwyd yn flynyddol**




**Tabl 3 Nifer o achosion addasrwydd i ymarfer a gyfeiriwyd at y llys pob blwyddyn**




* Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cyfanswm y nifer o atgyfeiriadau i'r llys (yn cynnwys yr achosion hynny ble rydym wedi ymuno fel parti i apêl y GMC yn 16/17 ac 17/18), ond hefyd yn cynnwys nifer fechan o achosion a gafodd eu tynnu yn ôl, er enghraifft, 4 yn 2014/15 a 2 yn 2016/17.

### *Adolygiad perfformiad*

1.64 Mae gennym ddyletswydd statudol i adrodd yn flynyddol ar berfformiad y rheolyddion o ran cyflawni eu dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy asesu eu perfformiad yn erbyn set o safonau a gytunwyd (y Safonau Rheoleiddio Da). Rydym yn adolygu pob rheolydd yn unigol yn ystod y flwyddyn, gan gychwyn yn Ionawr, gan gyhoeddi ein hadroddiadau pan fydd yr adolygiad wedi ei gwblhau. Cyhoeddom yr adroddiad terfynol ar gyfer cylch 2016/17 yn Ebrill 2017. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, roeddem wedi cyhoeddi adroddiadau ar gyfer saith o'r naw rheolydd. Dechreuom ar ein cylch nesaf yn Ionawr 2018.

### *Adolygiad o'r NMC*

1.65 Ym Mawrth 2017, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i ni adolygu o ymdriniaeth yr NMC o bryderon am fydwragedd yn Ysbyty Cyffredinol Furness, Morecambe Bay. Dechreuom ein hadolygiad yng Ngorffennaf 2017 a chyhoeddi'r adroddiad ym Mai 2018.

### *Craffu ar brosesau penodiadau cynghorau'r rheolyddion*

1.66 Rydym yn cynorthwyo'r Cyfrin Gyngor gyda phenodiadau i gynghorau'r cyrff rheoleiddiol (ac eithrio PSNI). Rydym yn darparu cyngor i'r Cyfrin Gyngor parthed unrhyw gystadleuaeth agored am brosesau penodiadau ac ailbenodiadau ac, os yw'r Cyfrin Gyngor yn gofyn am hynny, parthed unrhyw agwedd arall o swyddogaeth apwyntiadau'r Cyfrin Gyngor.

1.67 Yn 2017/18, darparom gyngor i'r Cyfrin Gyngor parthed naw o brosesau sy'n cael eu rhedeg gan bump rheoleiddiwr. Roedd pedwar o'r prosesau hyn yn ymwneud â phenodiadau trwy gystadleuaeth agored, yn cwmpasu 12 o swyddi, gan gynnwys un rôl cadeirydd. Roedd pump o'r prosesau hyn yn ymwneud ag ailbenodiadau, yn cwmpasu wyth o swyddi, hefyd yn cynnwys rôl un cadeirydd. Fe gynghorom y Cyfrin Gyngor y gallai fod yn hyderus o'r holl brosesau hyn.

1.68 Yn ystod ein gwaith craffu, rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ogystal ag achosion o ymarfer da, ac rydym wedi rhannu hyn gyda'r rheolyddion unigol trwy gydol y flwyddyn. Bwriadwn gynnal seminar gyda'r cyrff rheoleiddio yn gynnar yn 2018/19 i drafod materion sy'n codi a rhannu arfer da.

### *Prosiectau polisi ac ymchwil*

1.69 Rydym yn gwneud amrywiaeth o waith i helpu sicrhau bod rheoleiddio yn diogelu'r cyhoedd yn effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ymchwil a chyhoeddi cyngor polisi ac edrych i'r dyfodol, i ragweld newid a sicrhau fod rheoleiddio yn parhau i fod yn ystwyth. Rydym yn annog cydweithrediad rhwng y rheolyddion a oruchwylir gennym ac academyddion i ysgogi ymchwil, dysgu a gwelliant. Ein hamcan yw sicrhau fod rheoleiddio a chofrestru yn seiliedig ar dystiolaeth o beth sy'n gweithio fel bod y rheolyddion yn effeithiol.

1.70 Rydym wedi parhau i weithio i adeiladu ein perthnasau gydag academyddion ac ymchwilwyr. Mae gennym 100 o bobl ar ein rhestr o academyddion ac ymchwilwyr gyda diddordeb mewn rheoleiddio, neu y mae eu gwaith yn ymddangos i ni i fod yn berthnasol i wella rheoleiddio. Ar 8-9 Mawrth 2018 cynhaliom ein pumed gynhadledd academaidd ac ymchwil ar thema addasrwydd i ymarfer. Ein cydweithredwr academaidd ar gyfer y digwyddiad eleni oedd yr Athro David, Prifysgol Manceinion. Mynychodd dros 100 o bobl yn cynnwys o sefydliadau

academaidd, rheolyddion, sefydliadau ymchwil, cyrff proffesiynol, ymgynghorwyr yn gweithio yn y maes hwn, swyddogion llywodraeth, clinigwyr a chwmnïau cyfreithiol. Roedd mynychwyr yn cynnwys pob o bedair gwlad y Deyrnas Unedig, Iwerddon, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd, Canada, yr Unol Daleithiau ac Awstralia. Cafwyd 36 cyflwyniad ar ymchwil ar wahanol agweddau o addasrwydd i ymarfer.

1.71 Fe hyrwyddom drafodaeth a dadl yn y sector. Yn Chwefror 2018, cynhaliom seminar ar y cyd gyda llywodraeth Cymru yn Stadiwm Caerdydd. Roedd 60 o bobl yn mynychu ac fe archwiliwyd rhai o'r datblygiadau presennol mewn polisi rheoleiddio iechyd a gofal yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig a darparu diweddariad ar faterion presennol a heriau yn dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Roedd y pynciau a drafodwyd ar y diwrnod yn cynnwys newidiadau mewn addysg a hyfforddiant iechyd yng Nghymru, heriau i'r gweithlu rheoleiddio fel galluogwr ac nid rhwystr a'r ddyletswydd gonestrwydd. Cafwyd anerchiad hefyd gan Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

1.72 Fe adeiladom ar ein gwaith blaenorol ar ddiwygio rheoleiddiol yn ein cyhoeddiad sylweddol *Right-touch reform* yn Nhachwedd 2017. Rhoddodd y canllaw cynhwysfawr hwn i'n syniadau ar ddyfodol rheoleiddio proffesiynol iechyd a gofal ddadansoddiad manwl ac argymhellion mewn pedwar maes: atal niwed, addasrwydd i ymarfer, sicrwydd ansawdd addysg uwch a chofrestru. Fe'i cyhoeddwyd yn ystod ymgynghoriad llywodraeth y pedair gwlad *Promoting professionalism, reforming regulation,* ac roedd yn sail i'n hymateb.

1.73 *Right-touch assurance* yw'r offeryn arloesol a ddatblygom ar gyfer asesu'r risg o niwed a gyflwynir gan wahanol alwedigaethau iechyd a gofal, ac rydym yn dal i hyrwyddo ei ddefnydd. Yn 2017/18, roedd yn sail ymateb fanwl a ddarparom i'r ymgynghoriad ar reoleiddio proffesiynau meddygon cyswllt yn y Deyrnas Unedig.

1.74 Fe wnaethom ymateb i 22 ymgynghoriad cyhoeddus yn 2017/18. Roedd y rhain yn cynnwys ymgynghoriadau polisi gan y rheolyddion a oruchwylir gennym; Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Elusennau. Cyhoeddir ein hymatebion i ymgynghoriadau ar ein gwefan.

1.75 Buom yn cyflwyno yng Nghynhadledd Reoleiddio'r Alban eleni ar ddyfodol diwygio yn y sector, gan ymgysylltu'n rheolaidd gyda rheolyddion a swyddogion llywodraeth yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr. Fe gyfrannom i nifer o gynadleddau yn cynnwys cynadleddau rheoleiddio rhyngwladol.

1.76 Fe ariannom waith ymchwil gan yr Athro Rosalind Searle o Brifysgol Glasgow (ond Prifysgol Coventry yn ystod yr ymchwil ) a'i chydweithwyr oedd yn torri tir newydd, *Bad apples? Bad barrels? Or bad cellars? Antecedents and processes of professional misconduct in UK Health and Social Care: Insights into sexual misconduct and dishonesty.* Roedd yr ymchwil yn seiliedig ar ddadansoddiad o 6,714 achos o gamymddwyn proffesiynol gan weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ac yn nodi tri gwahanol fath o gyflawnwr; yr 'afal drwg' hunanlesol; yr unigolyn sydd wedi ei lygru gan ddirywiad safonau ei weithle; a'r cyflawnwr gwanedig sy'n cael trafferth ymdopi gyda phwysau bywyd.

1.77 Ym Mai 2017 cyhoeddom adroddiad o'r gwaith a gomisiynwyd gan Dr Simon Christmas, *How does professional regulation affect the identity of health and care professionals: exploring the views of professionals*. Ac yn dilyn hyn yn 2018 roedd ein hadroddiad *The regulator's role in professional identity: validator not creator*,

papur ar reoleiddio a hunaniaeth broffesiynol oedd yn uno ein hadolygiad llenyddiaeth ac ymchwil a gomisiynwyd. Canfuom mai ychydig iawn o ddylanwad oedd gan reoleiddio ar hunaniaeth, ac y gallai rheolyddion weithredu fel dilyswyr neu annilyswyr hunaniaeth, yn hytrach na chrewyr hunaniaeth.

1.78 Cyhoeddom waith yr oeddem wedi ei ariannu gan yr Athro Ann Gallagher o Brifysgol Surrey a Mr Robert Jago, RHUL, *A typology of dishonesty: illustrations from the PSA Section 29 database*. Roedd yr adroddiad hwn yn cyn cynnig teipoleg o anonestrwydd, yn adeiladu ar ddadansoddiad o achosion ble mae cyhuddiadau o anonestrwydd wedi codi. Hefyd fe gyhoeddom adroddiad ein prosiect yn archwilio sut mae rheolyddion yn categoreiddio eu cyhuddiadau addasrwydd i ymarfer, *Categorisation of fitness to practise data*. Bwriad hyn oedd bod yn gyfraniad defnyddiol tuag at drafodaethau yn y sector i gefnogi gwell rhannu data, cysondeb a chymhariaeth. Dyma oedd y tro cyntaf i holl gategorïau'r rheolyddion gael eu cyhoeddi ar y cyd.

### *Diwygio deddfwriaethol*

1.79 Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion yn yr Adran Addysg ar sefydlu'r rheolydd gwaith cymdeithasol newydd yn Lloegr, Social Work England. Rydym yn eistedd ar y Grŵp Cynghori a'r Grŵp Arbenigwyr Rheoleiddiol, ac wedi bod yn ffynhonnell bwysig o arbenigedd rheoleiddiol.

1.80 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad pedair gwlad *Promoting professionalism, reforming regulation* gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Hydref 2017, gan redeg tan Ionawr 2018. Cyflwynodd yr Awdurdod ymateb manwl yn seiliedig ar y syniadau a sefydlom yn *Right-touch reform* yn Nhachwedd 2017. Wrth ysgrifennu hyn, nid oedd dadansoddiad o'r ymatebion wedi ei gyhoeddi eto, er bod yr Awdurdod wedi bod yn adolygu'r ymatebion hynny yr ydym wedi nodi i fod wedi eu cyhoeddi ar wefannau sefydliadau eraill. Mae'r rhain yn awgrymu cefnogaeth eang ar gyfer dull cadarn o asesu'r math priodol o sicrwydd, cefnogaeth i ddargadw pwerau a29 yr Awdurdod, a chefnogaeth gyffredinol i gyflawni addasrwydd i ymarfer mewn ffordd lai gwrthdrawiadol. Mae mwyafrif yr ymatebion a welsom wedi cytuno y dylid cael llai o gyrff rheoleiddiol, mwy o gydweithredu rhwng rheolyddion a mwy o hyblygrwydd i reolyddion bennu eu gweithdrefnau gweithredu eu hunain.

1.81 Rydym yn parhau i fod o'r farn fod diwygio'r sector yn fater angenrheidiol a brys. Mae trefniadau rheoleiddio diwygiedig yn angenrheidiol i gefnogi cyflawniad gwasanaethau iechyd a gofal yn y dyfodol mewn ffordd hyblyg ac arloesol.

### Cofrestrau Achrededig

1.82 Mae'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 wedi rhoi'r grym i ni achredu cofrestrau sy'n bodloni ein Safonau er lled defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Mae'r rhaglen cofrestrau achrededig, a lansiwyd yn 2013, yn berthnasol i'r sector iechyd a gofal yn y Deyrnas Unedig. Fe'i sefydlwyd i ddarparu sicrwydd fod cofrestrau wedi eu rhedeg yn dda.

1.83 Mae cael eich achredu yn golygu fod sefydliad wedi ein bodloni ei fod yn cyflawni pob un o'n Safonau. Mae'n nod ansawdd. Gall cofrestrau achrededig ddefnyddio nod achredu'r Awdurdod (a welir isod) er mwyn gallu eu hadnabod yn hawdd.

1.84 Mae'r rhaglen wedi ei hariannu trwy gyfraniad o ffioedd achredu a chymhorthdal gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bwriad y rhaglen oedd bod yn hunan ariannol. Felly fe wnaethom ymgynghori ar fodel ffioedd newydd yn 2017/18 i sefydlu a allai fod yn hunangynhaliol. Fe ymgynghorom ar ddau opsiwn, ond ni chafwyd consensws. O ganlyniad, roedd yn amlwg y byddai'r rhaglen angen rhywfaint o gefnogaeth barhaus gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol rhagweladwy. Fodd bynnag, mae costau gweithredu'r rhaglen yn gymedrol, dim ond oddeutu £400,000. Er na chafwyd consensws trwy'r ymgynghoriad, rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i symud tuag at fodel hunangynhaliol, a chyflwyno model ffioedd wedi ei ddiweddaru ar gyfer 2018/19. O Ebrill 2018, mae'r ffioedd ar gyfer y rhaglen yn £13,250 ar gyfer cais cychwynnol a ffi flynyddol o £10,000 a £0.10 fesul cofrestrydd.

1.85 Rydym wedi achredu 24 o gofrestrau yn y rhaglen, yn cwmpasu 31 o alwedigaethau ac 85,000 o ymarferwyr. Adolygir yr achrediad yn flynyddol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roeddem wedi achredu dwy gofrestr newydd ac wedi adnewyddu 18. Mae pedwar asesiad blynyddol wedi eu cario i'r flwyddyn ariannol nesaf. Fe wnaethom ddiddymu achrediad o un gofrestr wedi canfod nad oedd yn dal i fodloni ein safonau.

1.86 Eleni fe ganolbwyntiom yn yr asesiadau adnewyddu blynyddol ar drefniadau'r cofrestrau achrededig i ymdrin â chwynion yn erbyn ymarferwyr ac yn erbyn y sefydliadau eu hunain. Canfuom ymarfer effeithiol ac enghreifftiau o ymarfer yr ydym wedi gofyn am welliant arnynt. Mae enghreifftiau o welliannau a wnaed yn cynnwys gweithredu gweithdrefn gwynion newydd, gwelliannau mewn cyfathrebiad i achwynwyr a chofrestryddion, diweddariadau i brosesau apêl, gwelliannau i ganllaw, gwella eglurder deilliannau a phenderfyniadau a wnaed, ac egluro prosesau ar gyfer cwyno am y sefydliad.

1.87 Fe weithiom mewn partneriaeth gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Iechyd y Cyhoedd i archwilio sut gall gweithlu'r cofrestrau achrededig gyfrannu ymhellach i fentrau Public Health England i wella iechyd cyhoeddus y genedl. Lansiwyd yr adroddiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ar 31 Hydref 2017. Fe wnaethom achredu cofrestr asesu cymhwyster ar gyfer gweithwyr yn y diwydiant gwyddor bywyd sy'n gweithio mewn ymddiriedolaethau GIG ac yn rhyngweithio'n rheolaidd gyda chleifion ac/neu staff rheng flaen y GIG. Y gofrestr yma yw'r cyntaf o'i math ac mae'n gosod safonau cenedlaethol ar gyfer unigolion yn gweithio yn y diwydiant gwyddorau bywyd, gan ddarparu sicrwydd i'r GIG.

1.88 Yn ystod y flwyddyn, fe dderbyniom ac fe ystyriom 17 ymholiad ynghylch cofrestrau achrededig. Fe gynhwysom nifer o'r rhain yn ein hasesiadau o sefydliadau yn rhan o'n hadolygiad ymdrin â chwynion.

1.89 Rydym wedi parhau i weithio i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen cofrestrau achrededig a phwysigrwydd defnyddio cofrestryddion arnynt. Fe gyflwynom

gyfleuster www.checkapractitioner.com newydd i'n gwefan eleni i'w gwneud yn haws i bobl chwilio am ymarferwyr ar gofrestrau achrededig. Rydym wedi cynnal ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys beth i'w wirio cyn cael llenwadau gwefusau ac awgrymau ar gyfer gofal traed. Fodd bynnag, o ystyried yr adnoddau sydd ar gael i'r rhaglen, nid yw'n bosibl i'r Awdurdod godi ymwybyddiaeth ymysg poblogaeth o dros 60 miliwn o bobl ar ei ben ei hun. Mae'n galw am ymdrech benodol gennym ni, cofrestrau achrededig a rhanddeiliaid eraill gyda diddordeb mewn sicrhau diogelwch y cyhoedd, cyflawni gwasanaethau a hyrwyddo iechyd y cyhoedd. Mae ymwybyddiaeth o'r rhaglen yn parhau i fod yn annigonol er mwyn iddo ddarparu budd llawn i'r cyhoedd. Rydym yn ddiolchgar i Gyflogwyr y GIG am barhau i gyhoeddi'r rhaglen a byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid eraill yn y flwyddyn i ddod i ofyn am eu cefnogaeth.

1.90 Rydym hefyd wedi gofyn i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynorthwyo i sicrhau newidiadau i'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr a'r Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus i gryfhau'r amddiffyniad y gall cofrestrau achrededig gynnig. Ar hyn o bryd, mae eu heithrio o'r Deddfau hynny yn cyfyngu eu gallu i ymateb i rai cwynion oherwydd materion diogelu data. Rydym yn siomedig na chafwyd cynnydd ar hyn eto. Dyma'r drydedd flwyddyn i ni godi'r mater hwn.

1.91 Gwnaethom gyflwyniadau ynghylch y rhaglen mewn gwahanol ddigwyddiadau a chwrdd â nifer o randdeiliaid yn ystod y flwyddyn. Ymatebom hefyd i ymgynghoriad sy'n berthnasol i'r rhaglen ac i gofrestrau achrededig.

### Comisiynau gan Lywodraeth(au)

1.92 Comisiynwyr yr Awdurdod i ddarparu cyngor i Lywodraeth yr Alban ar oblygiadau rheoleiddio grŵp mewn llai na phedair o holl wledydd y Deyrnas Unedig. Cwblhawyd y cyngor a'i ddarparu.

### Cyngor i sefydliadau eraill

1.93 Fe wnaethom ddarparu cyngor i Brifysgol Tsieineaidd Hong Kong, sydd wedi bod yn datblygu rhaglen Cofrestrau Achrededig ar gyfer llywodraeth Hong Kong. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad dogfennol o ymagwedd a phrosesau'r rhaglen, ac yna ymweliad i Hong Kong i gwrdd â rhanddeiliaid a darparu cyngor pellach.

1.94 Cychwynnom gyflawni contract gyda Engineers and Geoscientists BC (EGBC), rheolydd a chymdeithas broffesiynol peirianwyr a geowyddonwyr Columbia Brydeinig. Ffocws yr adolygiad yw trefn lywodraethol a deddfwriaeth yr EGBC.

### Crynodeb ariannol

1.95 Roedd ein cyllid ar gyfer 2017/18 yn cynnwys £3.9 miliwn o ffioedd a dalwyd gan y rheolyddion. Yn 2016/17 roedd ein cyllid yn £3.86 miliwn o ffioedd gan y rheolyddion, a £0.2 miliwn gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

1.96 Ar 31 Mawrth 2018, roedd gennym gronfa wrth gefn o £2.06 miliwn (2016/17: £1.87 miliwn) wedi incwm gweithredu net o £0.189 miliwn (2016/17: cost gweithredu net £0.11 miliwn). Cyfrifir incwm gweithredu ar gyfer 2017/18 yn net o ffioedd a dderbyniwyd gan y rheolyddion, a gofnodir fel incwm yn unol ag IAS 18.

1.97 Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018, cynhyrchom warged a gynyddodd ein sefyllfa cronfeydd wrth gefn o £0.189 miliwn.

1.98 Dangosir dadansoddiad o bolisïau cyfrifyddu yn nodyn 1 y cyfrifon. Ni chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol iddynt yn ystod y flwyddyn.

## Tryloywder

1.99 Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

1.100 Cynhelir ein polisi taliad credydwr yn unol â Pholisi Taliad Gwell y llywodraeth, sydd ar hyn o bryd yn darparu tâl ar gyfer cyflenwyr o fewn pum niwrnod gwaith i dderbyn anfoneb, ac eithrio ble gall fod ymholiad neu anghydfod am anfoneb.

1.101 Mae'r targed hwn yn heriol, yn arbennig i sefydliad bach fel ni, a dim ond trwy gyflogi mwy o staff y gellid cyflawni hyn. Felly, ein nod yw talu 60% o anfonebau diamheuol o fewn pum niwrnod a 100% o fewn 10 niwrnod.

1.102 Yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18, talwyd 100% o anfonebau o fewn 10 niwrnod a 81% (yn ôl nifer o anfonebau) a 82% (yn ôl cyfanswm gwerth anfonebau) o fewn pum niwrnod. Ceir manylion ein cofnod taliadau ar ein gwefan.[48]

1.103 Ni thalwyd unrhyw log dan y Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998.

1.104 Y balans oedd yn ddyledus i gredydwyr masnach ar 31 Mawrth 2018 oedd £14,038 (2017/18: £17,086). Fel cyfran o'r cyfanswm a anfonebwyd gan gyflenwyr yn y flwyddyn, mae hyn yn cyfateb i 4.61 diwrnod (2017/18: 3.20 diwrnod).

1.105 Mae gwybodaeth arall y gellir ei gweld ar adrannau datgeliad a thryloywder llywodraeth ein gwefan yn cynnwys:

- Gwariant dros £25,000
- Treuliau aelodau'r Bwrdd
- Treuliau'r tîm gweithredol
- Lletygarwch.

## Cynaliadwyedd

1.106 Oherwydd ein maint, nid yw'n ofynnol i ni ddarparu adroddiad cynaliadwyedd. Rydym, fodd bynnag, yn ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.

1.107 Cafodd ein swyddfa ei hailddodrefnu, cyn i ni ddod yn denantiaid, yn unol â'r safon asesiad amgylcheddol BREEAM, sy'n edrych ar wresogi, goleuo, ailgylchu a deunyddiau eraill, gan dderbyn graddiad 'rhagorol'.

1.108 Rydym yn meddiannu 2.58 o'r adeilad, gyda rhan ohono wedi ei feddiannu gan ein tenantiaid ein hunain.

1.109 Cesglir dŵr glaw a'i ddefnyddio i gyflenwi'r cyfleusterau glanweithiol, gan leihau ein defnydd o ddŵr glân.

1.110 Mae gan ein swyddfeydd gyfleusterau i ddidoli gwastraff i'w ailgylchu, ac i annog staff i wneud hyn ni chesglir unrhyw wastraff o finiau wrth ddesgiau. Mae gwastraff yn cael ei wahanu i wydr, ailgylchadwy, nid i'w ailgylchu a gwastraff bwyd. Mae contractwr yn didoli'r deunydd ailgylchu cymysg. Nid oes unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi. Mae gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei losgi. Yn 2017/18,

[48] www.professionalstandards.org.uk/about-us/ask-us-for-information/government-disclosure/payment-statistics

roedd 98 y cant o wastraff, yn yr adeilad, wedi ei ailgylchu a 2 y cant wedi ei losgi. Mae cost cael gwared ar waredu gwastraff wedi ei gynnwys yn nhaliadau gwasanaeth yr adeilad.

1.111 Cyfrifir ein defnydd o nwy a dŵr fel 2.58 y cant o'r cyfanswm. Mae ein trydan wedi ei fonitro ar wahân ac mae'r defnydd ar gyfer y gofod a rhentir gan y landlord yn hysbys. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys defnydd gan ein tenantiaid. Cyflwynir ein treuliant ar gyfer 2017/18 a'r flwyddyn flaenorol isod.

| | 2017/2018 | 2016/2017 |
|---|---|---|
| **Nwy** | 4,589kWh | 7,672kWh |
| **Trydan** | 64,854kWh | 65,031kWh |
| **Dŵr** | 151.02$m^3$ | 146.64$m^3$ |
| **Gwaredu gwastraff** | 2.66 tunnell | 2.76 tunnell |

1.112 Mae gosod cywasgyddion gwastraff wedi lleihau amlder casgliadau o ddyddiol i bob pythefnos, gan leihau allyriadau cerbydau.

1.113 Rydym yn ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd. Pan fyddwn yn prynu offer, rhoddir ystyriaeth i ddefnydd ynni. Defnyddiwn ddeunydd wedi ei ailgylchu ble bynnag fo'n bosibl a'i fod yn cynnig gwerth am arian.

1.114 Rydym yn parhau i geisio lleihau'r defnydd o bapur trwy wneud y defnydd gorau posibl o'n safle mewnrwyd a gwefan i ddosbarthu gwybodaeth. Rydym hefyd yn defnyddio fersiynau electronig o bapurau cyfarfod ble fo'n dechnegol ymarferol. Ble defnyddir papur, rydym yn anelu at leihau defnydd ohono trwy reolaeth weithredol o argraffwyr yn gorfodi argraffu dwyochrog.

1.115 Rydym yn defnyddio 'papur wedi ei ailgylchu llwydwyn' ar gyfer ein hanghenion o ddydd i ddydd. Defnyddiom 44 cas o bapur yn 2017/18 (71 cas yn 2016/17).

1.116 Os oes angen teithio, rydym yn defnyddio cludiant cyhoeddus cymaint â phosibl ac wedi cynyddu ein defnydd o gynadledda ffôn a fideo i osgoi'r angen i deithio. Ble fo'n briodol, cyflawnir teithiau o fewn y Deyrnas Unedig ac Ewrop ar y trên.

1.117 Rydym wedi parhau i gasglu gwybodaeth amgylcheddol parthed teithiau a wneir gan y Bwrdd ac aelodau staff.

| Dull teithio | 2017/2018 | | 2016/2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | $CO^2$/kg Cyfanswm | $CO^2$/kg Cyfartaledd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn* | $CO^2$/kg Cyfanswm | $CO^2$/kg Cyfartaledd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn* |
| **Hedfan*** | 764 | 19 | 153 | 4 |
| **Trên** | 635 | 16 | 633 | 17 |

*Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i deithiau awyren a archebwyd trwy ein cyflenwr canolog yn unig. Mae rhai hediadau rhyngwladol a archebwyd ar wahân, yn aml gan y sefydliadau comisiynu, heb eu cynnwys

### Hawliau dynol

1.118 Rydym yn ymroddedig i barchu hawliau dynol fel yr ymgorfforwyd yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a'i ddau gyfamod cyfatebol, Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol a'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol.

1.119 Rydym yn ymdrechu i sicrhau nad ydym yn troseddu ar hawliau dynol, yn osgoi cymryd rhan mewn tramgwyddau ar hawliau dynol eraill, ac yn cydymffurfio gyda chyfreithiau'r gwledydd yr ydym yn gweithio ynddynt.

### Gwrthlygredd a gwrthlwgrwobrwyaeth

1.120 Rydym yn ymroddedig i gyflawni ein gwaith mewn modd onest a moesol. Yn unol â Deddf Llwgrwobrwyo 2010, rydym yn gweithredu llywodraethu trwy weithredu a gorfodi polisïau a gweithdrefnau cadarn i ddiogelu yn erbyn unrhyw ymddygiad anghyfreithiol.

1.121 Fe adolygir ein polisïau chwythu'r chwiban a thwyll yn flynyddol gan ein Pwyllgor Archwilio a Risg a'u hanfon mewn neges i'n staff. Mae gennym ymagwedd dim goddefiant i unrhyw weithredu croes i Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 a bydd unrhyw faterion a godir yn cael eu trin gyda'r pwysigrwydd uchaf.

### Risg

1.122 Ceir manylion hyn ym mharagraffau 2.71-2.75.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd



Harry Cayton CBE
Swyddog Cyfrifyddu
19 Mehefin 2018

# 2. Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

2.1 Sefydlir ein trefniadau llywodraethu mewn Fframwaith Llywodraethu ffurfiol sy'n disgrifio’r amrywiol rolau a chyfrifoldebau yn yr Awdurdod.

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

2.2 Mae gennym dîm gweithredol a nodir isod, yn cwmpasu ein tri maes gwaith: llywodraethu a gweithrediadau; craffu ac ansawdd; a pholisi a safonau.

2.3 Mae cofrestr buddiannau uwch reolwyr ar gael ar ein gwefan.[49]

2.4 Mae cyfarwyddwyr yn aelodau o staff ac yn cael eu talu yn unol â pholisïau staff.

| | | |
|---|---|---|
| Harry Cayton | Prif Weithredwr | |
| John McDermott | Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau | |
| Mark Stobbs | Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd | |
| Christine Braithwaite | Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi | |

### Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau

2.5 Prif gyfrifoldebau’r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau yw:

- Cyllid
- Adnoddau dynol
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
- Diogelwch gwybodaeth a cheisiadau SAR ac FOI
- Llywodraethu
- Rheoli risg
- Archwilio mewnol ac allanol
- Cwynion corfforaethol
- Llety a chyfleusterau
- Iechyd a diogelwch
- Parhad busnes
- Caffael
- Gweinyddu swyddfa.

[49] www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/board/management-team-register-of- interests-2016.pdf?sfvrsn=0

### Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd

2.6 Prif gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd yw:

- Swyddogaethau'r Awdurdod dan Adran 29 Deddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (fel y'i diwygiwyd)
- Archwilio rheolyddion
- Adolygiad perfformiad y rheolyddion
- Cyngor i'r Cyfrin Gyngor ar benodiadau
- Adolygiadau arbennig ac ymchwiliadau
- Cwynion a phryderon am y rheolyddion.

### Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi

2.7 Prif gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi yw:

- Darparu cyngor adran 26A i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion
- Datblygu polisi ac ymarfer rheoleiddio
- Ymchwil i faterion rheoleiddio
- Rhaglen Cofrestrau Achrededig
- Cwynion am gofrestrau achrededig
- Cysylltiadau a chyfathrebiadau allanol.

### Penodiadau cyhoeddus

2.8 Gwneir penodiadau i'r Bwrdd am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd, y gellir ei ymestyn am ail dymor. Ni ddylai cyfanswm yr amser a wasanaethir fod yn fwy nag wyth mlynedd.

2.9 Rhodda Atodlen 7 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 gyfarwyddiadau ar gyfer penodi aelodau i'r Cyngor.

2.10 Ni wnaethpwyd unrhyw benodiadau yn ystod 2017/18.

2.11 Ceir manylion penodiadau'r Bwrdd a pwy sy'n eu gwneud yn y tabl isod.

2.12 Ceir manylion swyddi cyfarwyddwyr a buddiannau arwyddocaol sydd gan y Bwrdd yn y gofrestr buddiannau ar ein gwefan.[50]

### Aelodau'r Bwrdd

| Aelod o'r Bwrdd | Penodwyd gan |
|---|---|
| George Jenkins OBE (Cadeirydd) | Cyfrin Gyngor |
| Antony Townsend | Cyfrin Gyngor |
| Frances Done CBE | Cyfrin Gyngor |

[50] www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/board/board-register-of-interests.pdf

| | |
|---|---|
| Renata Drinkwater | Cyfrin Gyngor |
| Thomas Frawley CBE | Adran Iechyd Gogledd Iwerddon |
| Moiram Ali | Gweinidogion yr Alban |
| Marcus Longley | Gweinidogion Cymru |
| Harry Cayton CBE | Bwrdd yr Awdurdod |

2.13 Gellir gweld manylion presenoldeb aelodau'r Bwrdd yn y datganiad Llywodraethu.

### Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu

2.14 Dan Ganllaw ar Godau Arferion Gorau ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet, rydym yn gyfrifol am sicrhau cywirdeb yn ei ddefnydd o gronfeydd cyhoeddus chyfiawnhau eu defnydd. Dan Atodlen 7 Paragraff 16 (2) Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae'n ofynnol i ni baratoi datganiad o gyfrifon parthed pob blwyddyn ariannol ar ffurf a sail a gyfarwyddir gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda chaniatâd Trysorlys EM. Dylid paratoi'r cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o gyflwr yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a gwariant, cyfanswm newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

2.15 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i ni:

- Arsylwi ar y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chaniatâd Trysorlys EM, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgeliad priodol, a gweithredu polisïau cyfrifo priodol ar sail gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- Datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriad materol yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol i ragdybio y byddwn yn parhau i weithredu.

### Swyddog Cyfrifyddu

2.16 Yn dilyn newid yn ein trefniadau cyllido, mae'r Bwrdd wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys ei gyfrifoldeb ar gyfer cywirdeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus mae'n atebol amdanynt ac am gadw cofnodion cywir. Er nad ydym yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol, mae'n arsylwi'r gofyniad a sefydliad yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a gyhoeddir gan Drysorlys EM ac yn 'Managing Public Money'.

2.17 Mae ein Prif Weithredwr yn gyflogai i'r Awdurdod. Prif swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau'r Prif Weithredwr yw:

- I sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau statudol
- I baratoi a chyhoeddi safonau rheoleiddio da
- I drefnu cyhoeddi cyngor ac arweiniad polisi

- I anfon adroddiad blynyddol i’r senedd ar berfformiad y rheolyddion a oruchwylir gennym
- I gadw cyfrifon cywir a chofnodion cywir parthed y cyfrifon, i baratoi datganiad o gyfrifon parthed pob blwyddyn ariannol, ac i anfon copi o'r cyfrifon blynyddol at y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ac i’r rhain gael eu paratoi yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a chyfrifo llywodraeth
- I weithredu a rheoli’r Awdurdod yn unol â’r strategaeth a sefydlwyd gan y Bwrdd.

2.18 Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb dros ddarparu arweinyddiaeth effeithiol ar bob mater yn ymwneud â dyletswyddau statudol a gweinyddol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r strategaeth, arwain ar faterion gweithredol, hyrwyddo defnydd effeithiol ac effeithlon o staff ac adnoddau eraill, annog safonau uchel o gywirdeb a chynrychioli’r Awdurdod yn gyhoeddus.

### *Esboniad pellach*

2.19 Newidiodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 enw'r Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a rhoi pŵer i'r Awdurdod achredu cofrestrau gwirfoddol galwedigaethau iechyd a gofal ac i gynghori’r Cyfrin Gyngor, os oes angen, ar benodiad aelodau i gynghorau’r rheolyddion. Newidiodd y Ddeddf hefyd y sail ar gyfer cyllido'r Awdurdod i system o ffioedd a thaliadau ar y cyrff mae'n eu goruchwylio neu'n darparu gwasanaethau iddynt. Daeth y rheoliadau ffioedd i rym yn Awst 2015, ac wedi hynny nid yw'r Awdurdod wedi derbyn cymorth grant gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr na llywodraethau datganoledig y Deyrnas Unedig. Mae Deddf 2012 yn cynnwys darpariaeth i benodiadau i’r Bwrdd gael eu gwneud gan y Cyfrin Gyngor ac nid yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac eithrio yn achos aelodau a benodir o’r Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon. Mae’r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth i Gyfarwyddiadau Cyfrifon yr Awdurdod gael eu cyhoeddi gan y Cyfrin Gyngor. Nid yw'r ddarpariaeth hon wedi ei deddfu eto, felly mae'r Awdurdod yn dal i ddilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd yn 2013-14 gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### Trin data

2.20 Ceir manylion hyn ym mharagraffau 2.76-2.82.

## Datganiad llywodraethu

2.21 Mae Bwrdd yr Awdurdod yn cynnwys saith aelod anweithredol ac un aelod gweithredol. Ni all unrhyw aelodau anweithredol o'n Bwrdd fod nac erioed wedi bod yn aelod o broffesiwn a reoleiddir gan unrhyw un o’r naw rheolydd a oruchwylir gennym, fel ein bod yn awdurdod annibynnol o broffesiynau a rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

2.22 Y Bwrdd yw fforwm penderfyniadau uchaf yr Awdurdod, ble trafodir materion strategol a gweithredol arwyddocaol ac y gwneir penderfyniadau canlyniadol.

2.23 Mae gan Fwrdd yr Awdurdod gyfrifoldeb corfforaethol am sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac am hyrwyddo defnydd effeithiol ac effeithlon o’i adnoddau.

2.24 I’r diben hwn, ac ar drywydd ei gyfrifoldebau corfforaethol ehangach, mae’r Bwrdd:

- Yn gosod cyfeiriad strategol cyffredinol yr Awdurdod o fewn y statud a’r fframwaith polisi ac adnoddau
- Yn sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol i ddefnyddio cyllid cyhoeddus; fod yr Awdurdod yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill yn ymwneud â defnydd o gyllid cyhoeddus
- Yn sicrhau bod yr Awdurdod yn derbyn ac adolygu gwybodaeth ariannol reolaidd parthed rheolaeth yr Awdurdod; yn cael ei hysbysu mewn modd amserol am unrhyw bryderon am weithgareddau'r Awdurdod; ac yn darparu sicrwydd positif y cymerwyd camau priodol ar bryderon o'r fath
- Yn arddangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ar bob adeg, yn cynnwys sefydlu pwyllgor archwilio i helpu’r Awdurdod i ddelio â risgiau ariannol allweddol ac eraill sy'n ei wynebu
- Yn penodi’r Prif Weithredwr i’r Awdurdod ac yn gosod amcanion perfformiad ac amodau tâl yn gysylltiedig i’r amcanion hyn ar gyfer y Prif Weithredwr, sy'n rhoi pwys i reolaeth briodol a defnydd o gyllid cyhoeddus.

### Cadeirydd y Bwrdd

2.25 Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb arweinyddiaeth ar y materion canlynol:

- Arwain y Bwrdd o ran llunio ein strategaeth
- Sicrhau bod y Bwrdd, wrth wneud ei benderfyniadau, yn cymryd sylw dyledus o unrhyw ganllaw perthnasol
- Hyrwyddo defnydd effeithiol, economaidd, ac effeithlon o adnoddau, yn cynnwys staff
- Annog safonau uchel o gywirdeb
- Sicrhau fod y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn a bod cofnodion y cyfarfodydd yn gofnod cywir o’r penderfyniadau a wnaed a, ble fo’n briodol, trafodaethau'r Bwrdd
- Sicrhau yr adroddir yn flynyddol ar waith yr Awdurdod i'r Senedd fel sy'n ofynnol dan Statud.

### Presenoldeb yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd

2.26 Cynhaliwyd chwech cyfarfod o’r Bwrdd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

2.27 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2017/18 fel a ganlyn:

| Aelod o’r Bwrdd | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| George Jenkins OBE (Cadeirydd) | 6 | 6 |
| Antony Townsend | 6 | 6 |
| Frances Done CBE | 6 | 6 |

| | | |
|---|---|---|
| Renata Drinkwater | 5 | 6 |
| Thomas Frawley CBE | 6 | 6 |
| Moiram Ali | 6 | 6 |
| Marcus Longley | 6 | 6 |
| Harry Cayton CBE | 6 | 6 |

2.28 Yn ystod y flwyddyn a adolygir, roedd y Bwrdd yn weithredol o ran sicrhau y cynhaliwyd ein swyddogaethau statudol a bod y bygythiadau yr oeddem yn eu hwynebu yn cael sylw a chyfleodd yn cael eu cydnabod. Cyflawnodd hyn trwy ddefnydd effeithiol a monitro’r gofrestr risg a fframwaith sicrwydd a thrwy fod yn wyliadwrus ynglŷn ag ansawdd ein hallbynnau.

2.29 Mae’r Bwrdd yn hyderus ei fod yn dal i dderbyn adroddiadau priodol, cyflawn a pherthnasol gan y gweithgor i sicrhau y gall gyflawni ei rôl strategol ac y gall ddal y gweithgor yn atebol. Darperir sicrwydd ansawdd gan y Pwyllgor Craffu a’r Pwyllgor Archwilio a Risg, sy’n adrodd i’r Bwrdd. Mae’r Bwrdd hefyd yn adolygu'r holl bapurau polisi ac adroddiadau allweddol cyn cyhoeddi i sicrhau eu bod yn bodloni’r safonau uchel disgwyliedig. Mae’r Bwrdd hefyd yn derbyn adroddiadau ariannol ym mhob cyfarfod ac yn adolygu’r gofrestr risg ddwywaith y flwyddyn.

2.30 Mae'r Bwrdd yn talu sylw arbennig i gyflawniad ymchwiliadau ac adolygiadau arbennig yr Awdurdod ac yn sicrhau ei hun yn ofalus ynghylch ansawdd yr adroddiadau terfynol.

2.31 Mae’r Bwrdd yn chwarae rôl bwysig o ran sefydlu’r cyfeiriad strategol ar gyfer yr Awdurdod ac mae’n ystyried hyn a materion eraill cysylltiedig yn ei ddiwrnod cynllunio blynyddol.

2.32 Mae’r Bwrdd hefyd yn adolygu ei berfformiad ei hun yn rhan o’i gynllunio strategol. Mae’r Bwrdd o’r farn ei fod yn gweithredu’n effeithiol.

2.33 Mae cynnal ansawdd ein gwaith yn ystyriaeth bwysig i’r Bwrdd. Mae’n cyfrannu i gyhoeddiadau ac adroddiadau cyn eu cyhoeddi ac yn cymryd diddordeb mewn ymchwil ac mewn datblygiad polisi. Mae aelodau'r Bwrdd yn mynychu cynhadledd ymchwil flynyddol a Symposiwm blynyddol yr Awdurdod.

2.34 Mae’r Bwrdd hefyd yn adolygu gwybodaeth a dderbynia am berfformiad yr Awdurdod gan bartïon allanol yn cynnwys y rheolyddion statudol, y cofrestrau achrededig a’r Adrannau Iechyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

2.35 Mae holl aelodau’r Bwrdd yn cael eu harfarnu yn flynyddol gan y Cadeirydd ac yn gallu rhoi sylw ar berfformiad y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr.

2.36 Mae manylion sicrwydd ansawdd wedi ei ddirprwyo i’r Pwyllgor Craffu ac i’r Pwyllgor Archwilio a Risg. Adroddwn ar eu gweithgareddau ar wahân. Adolygir Cylch Gorchwyl y ddau bwyllgor yn flynyddol.

## Pwyllgorau a gweithgorau'r Bwrdd

### *Pwyllgor Archwilio a Risg*

2.37 Mae gan y Bwrdd Bwyllgor Archwilio a Risg i'w gefnogi yn ei gyfrifoldebau i reoli risg a llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn arolygu pa mor gynhwysfawr yw sicrwydd o ran bodloni anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Atebolrwydd ac adolygu dibynadwyedd a chywirdeb y sicrwydd hwn.

2.38 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Risg rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

2.39 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2017/18 fel a ganlyn:

| Aelod o'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Frances Done CBE | 4 | 4 |
| Moiram Ali | 4 | 4 |
| Marcus Longley | 4 | 4 |
| Harry Cayton CBE | 4 | 4 |

2.40 Adroddir ar gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn ffurfiol i'r Bwrdd yn ogystal â barn y Pwyllgor ar y gofrestr risg a'r newidiadau a wnaed iddi.

2.41 Mae'r Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl a rhaglen waith yn flynyddol ac yn adrodd unrhyw newidiadau y bydd yn cynnig i'r Bwrdd. Pob blwyddyn, mae'n adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd ar:

- Ei waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf
- Asesiad o drefniadau llywodraethu gwybodaeth
- Yr adroddiadau archwiliad mewnol a gyflwynwyd iddo
- Barnau'r archwilwyr.

2.42 Mae'r Pwyllgor yn gosod ei raglen waith ei hun ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae hyn yn dylanwadu ar y rhaglen waith a osodir gan yr archwilwyr mewnol.

### *Canolfan archwilio fewnol rheolyddion*

2.43 Rydym wedi dewis bod o fewn Canolfan Archwilio Fewnol Rheolyddion y Llywodraeth. Archwilwyr mewnol y Ganolfan, Grant Thornton (GT), oedd ein harchwilwyr mewnol ar gyfer 2017/18.

2.44 Roedd y gwaith archwilio mewnol ar gyfer eleni yn canolbwyntio ar:

- Caffael
- TGCh (agweddau nad ydynt yn dechnegol)
- Parhad busnes
- Ymlyniad i'n hegwyddorion busnes a pholisi cronfa wrth gefn.

*Caffael*

2.45 Ystyriodd yr adolygiad ddigonolrwydd cynllun ac effeithiolrwydd gweithredol y polisïau a phrosesau caffael.

2.46 Casglodd yr adolygiad, a nododd bump cam bychan oedd yn deilwng o sylw i'r Awdurdod ystyried:

‘…fod polisi’r Awdurdod…yn cynnwys elfennau allweddol y broses gaffael y byddem yn disgwyl gweld…gyda phrofion yn dangos i'r unedau busnes ddilyn y prosesau hyn…Fodd bynnag, fe welsom feysydd o wendidau arwyddocaol…o ran monitro a throsolwg o’r broses gaffael…’

*TGCh (agweddau nad ydynt yn dechnegol)*

2.47 Ystyriodd yr adolygiad ddigonolrwydd cynllun ac effeithiolrwydd gweithredol y prosesau TGCh newydd.

2.48 Casglodd yr adolygiad, a nododd bump cam bychan oedd yn deilwng o sylw i'r Awdurdod ystyried:

‘Mae’r Awdurdod wedi cynyddu ei ffocws ar TGCh yn y gorffennol diweddar trwy gyflwyno ymagwedd fwy strwythuredig i sut y darperir y gwasanaethau …Canfu’r adolygiad fod y prosesau newydd hyn yn cynnig manteision, ond oherwydd eu newydd-deb, roedd angen sefydlu neu ddatblygu pellach ar y fframweithiau sy'n eu llywodraethu.’

*Parhad busnes*

2.49 Ystyriodd yr adolygiad ddigonolrwydd cynllun ac effeithiolrwydd gweithredol y prosesau parhad busnes.

2.50 Casglodd yr adolygiad, a nododd ddau gam bychan oedd yn deilwng o sylw i'r Awdurdod ystyried:

‘…mae’r Awdurdod mewn safle da i ymateb i amrywiaeth o ddigwyddiadau a allai effeithio ar ei allu i gyflawni swyddogaethau busnes allweddol.’

*Ymlyniad i'n hegwyddorion busnes a pholisi cronfa wrth gefn*

2.51 Ystyriodd yr adolygiad hwn ar os oedd yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â’n harferion busnes ein hun a pholisi cronfeydd wrth gefn a sefydlir uchod.

2.52 Casglodd yr adolygiad, a nododd dri cham bychan oedd yn deilwng o sylw i'r Awdurdod ystyried:

‘Yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd ar gyfer y cyfnod Ebrill 2017 – Mawrth 2018, canfuom fod yr Awdurdod wedi dilyn y gyfres o egwyddorion busnes a pholisi cronfeydd wrth gefn a sefydlodd... Ni nodom unrhyw wallau sylfaenol nac arwyddocaol parthed gweithredu'r egwyddorion busnes na pholisi cronfeydd wrth gefn, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnom.’

*Cofrestr risgiau*

2.53 Mae’r Grŵp Cyfarwyddwyr yn adolygu’r gofrestr risgiau yn chwarterol. Ystyrir yr adnodd wedi ei ddiweddaru gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhob cyfarfod, ac yna gan y Bwrdd pob chwe mis. Bydd risgiau yn cael eu hychwanegu, diweddaru neu ddileu tu allan i’r broses hon wrth i’r angen godi.

2.54 Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y pwyllgor y gofrestru risg a gedwir gan y gweithgor. Roedd y prif risgiau a drafodwyd, gan ddelio'n fanwl â rhai yn yr adroddiad strategol, yn ymwneud â'n trefniadau parhad busnes a rhaglen i wella ein gwasanaethau cefnogaeth.

### *Fframwaith sicrwydd*

2.55 Yn ystod 2014/15, ystyriodd y pwyllgor sut gellid sicrhau aelodau'r Bwrdd am weithrediad yr Awdurdod a sut y gellir dogfennu hyn. Wrth wneud hynny, ceisiodd y pwyllgor nodi fformat oedd yn gymesur ac yn addysgiadol ac felly fe gynhyrchodd Fframwaith Sicrwydd.

2.56 Yn ystod 2017/18 gofynnodd y Bwrdd newydd ar y pryd am newidiadau i'r fframwaith ac fe gytunwyd ar fformat newydd. Mae'r fframwaith nawr wedi ei strwythuro o amgylch y meysydd llywodraethu da hynny a fydd angen cymorth ar bob adeg, yn hytrach nag amcanion blynyddol y Bwrdd a fydd yn esblygu'n barhaus.

2.57 Mae'r dulliau sicrwydd a restrir yn fewnbynnau y mae'r Bwrdd yn defnyddio i ddyfarnu ar eu lefel sicrwydd. Nid yw'r fframwaith yn anelu i fod yn rhestr hollgynhwysol nac yn offeryn i'r gweithgor gyflawni gweithrediadau.

### ***Pwyllgor Craffu***

2.58 Mae'r Pwyllgor Craffu yn derbyn adroddiadau ar ein gweithrediad craffu a goruchwylio o'r naw corff rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal ac yn darparu sicrwydd ansawdd ar benderfyniadau Adran 29 a'r rhaglen cofrestrau achrededig ac adolygiadau perfformiad y rheolyddion.

2.59 Cynhaliwyd tri chyfarfod Pwyllgor Craffu rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

2.60 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2017/18 fel a ganlyn:

2.61

| Aelod o'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| Antony Townsend | 3 | 3 |
| Renata Drinkwater | 3 | 3 |
| Thomas Frawley CBE | 3 | 3 |
| Harry Cayton CBE | 2 | 3 |

### *Penodiadau i gynghorau rheolyddion*

2.62 Ym mhob un o'r tri chyfarfod, fe ystyriodd y Pwyllgor Craffu adroddiadau ar weithgaredd diweddar, yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd ynghylch prosesau mewnol yr Awdurdod a'i berthynas gyda rhanddeiliaid allanol yn cynnwys y Cyfrin Gyngor parthed y maes hwn o'i waith.

*Adolygiad o benderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer (awdurdodaeth Adran 29 yr Awdurdod)*

2.63 Ym mhob cyfarfod, fe adolygodd y Pwyllgor Craffu benderfyniadau a wnaethpwyd am benderfyniadau panel addasrwydd i ymarfer rheolyddion unigol yn ystod gwahanol gamau o'r broses. Yn Chwefror 2018, edrychodd ar benderfyniadau mewn achosion yn ymwneud â phryderon anghlinigol. Ym mhob achos, roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda'r ymagwedd parthed y penderfyniadau hynny a safon y rhesymeg.

*Adolygiad perfformiad blynyddol y rheolyddion*

2.64 Mae'r Pwyllgor Craffu wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y broses Adolygiad Perfformiad ac, yn benodol, unrhyw bryderon sydd wedi codi ym mlwyddyn gyntaf y broses newydd. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn fodlon gyda'r broses honno. Yn y flwyddyn ariannol nesaf, bydd yn edrych ar yr wybodaeth angenrheidiol gan y rheolyddion i hysbysu'r adolygiad.

*Safonau Rheoleiddio Da*

2.65 Mae'r Pwyllgor Craffu wedi bod yn ymwneud â gwaith i adolygu'r Safonau Rheoleiddio Da. Rhain yw'r Safonau mae'r Awdurdod yn defnyddio i asesu perfformiad rheolyddion ac maent nawr dros 10 mlwydd oed. Mae'r Awdurdod yn adolygu'r Safonau ac mae'r Pwyllgor wedi bod yn rhoi sylw ar y broses a materion allweddol sydd wedi codi. Disgwylir i'r Safonau newydd gael eu setlo yn yr Hydref 2018.

*Cofrestrau Achrededig*

2.66 Cyflawnodd y Pwyllgor Craffu ei graffu ar y rhaglen Cofrestrau achrededig. Derbyniodd ddiweddariadau cynnydd ar geisiadau yn mynd trwy asesiadau cychwynnol, adolygiadau blynyddol o achrediad a hysbysiadau o newid. Mae'n awyddus i edrych ar y broses achredu ac ail achredu a bydd aelodau yn mynychu cyfarfodydd yn ystod 2018.

2.67 Cafodd y pwyllgor hefyd wybod am y gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen.

**Rheoliadau cynllun pensiwn**

2.68 Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG, mae gennym fesurau rheoli i sicrhau y cydymffurfir â phob gofyniad ar gyflogwyr o fewn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod didyniadau o gyflogau, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i'r cynllun yn unol â'r rheolau a bod cofnodion cynllun pensiwn aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlen a fanylir yn y rheoliadau.

2.69 Mae diogelu data sydd yn ein meddiant a cheisiadau i'w ddatgelu yn parhau i fod yn ystyriaethau pwysig i ni.

2.70 Fel cyflogwr bach yn y GIG, nid oes gan yr Awdurdod fynediad ar-lein i Awdurdod Pensiwn y GIG (NHSPA). Rydym yn cyflwyno dogfennaeth bapur i'r NHSPA er mwyn iddynt allu diweddaru cofnodion ein staff a data arall.

2.71 Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cwblhau’r gwaith technegol gofynnol i gyflawni mynediad ar-lein i system Bensiynau’r GIG er mwyn gallu diweddaru cofnodion, yn arbennig cofnodion staff, mewn amser real. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn edrych ar drosi'n llawn i’r dull hwn.

### Risg ac ansicrwydd

#### *Ymagwedd*

2.72 Pob blwyddyn rydym yn cynnal dadansoddiad o'r bylchau ar ein harferion rheoli risg yn erbyn methodoleg arfer gorau'r diwydiant ar Reoli Risg.

2.73 Mae’r ymagwedd (proses a system sgorio matrics) a’r gofrestr risg yn cael eu craffu, a ble fo'n briodol gwneir gwelliannau graddol.

2.74 Gan nad yw’r maes llafur Rheoli Risg wedi newid ers yr adolygiad diwethaf, ni wnaethom ddiweddaru ein harferion yn ystod 2017/18.

#### *Eitemau penodol yn ystod 2017/18*

2.75 Roedd risgiau nodedig a ystyriom i fod yn fygythiadau yn ystod 2017/18 yn cynnwys profi ein Cynllun Parhad Busnes, nodi diffygion TGCh ac yn eu hunioni, a’r amhariad posibl i weithrediadau cyfreithiol o ganlyniad i waith i gyfnewid ein cronfa ddata a29 a liniarwyd trwy ddefnyddio adnoddau allanol.

2.76 Roedd risgiau nodedig a ystyriom i fod yn gyfleoedd yn ystod 2017/18 yn cynnwys rhaglen i ailddatblygu ein gwasanaethau cefnogaeth a gwblhawyd yn rhannol, a’n paratoadau ar gyfer y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol sydd wedi ei archwilio’n annibynnol ers hynny gan ein harchwilwyr mewnol.

### Trin data

2.77 Mae’n system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar Fframwaith Polisi Diogelwch Llywodraeth EM ac rydym yn parhau i fonitro ac adolygu ein cydymffurfiad gyda nhw.

2.78 Ychydig o wybodaeth bersonol a gedwir gennym. Mae’r prif ddata sydd gennym yn ymwneud â’n staff ein hun. Ble byddwn angen mynediad at ddata personol a gedwir gan eraill, fel arfer fe gyflawnir hyn yn eiddo deiliad y data. Rhaid i staff sy’n cyflawni archwiliadau yn rhan o adolygiadau perfformiad weithio trwy fynediad o bell i’n gweinydd ble bynnag fo’n bosibl. Gan nad yw hyn yn bosibl ar bob adeg, mae’r archwilwyr yn defnyddio gliniaduron wedi eu hamgryptio i ddarparu haen arall o ddiogelwch.

2.79 Mae staff yn cyflawni hyfforddiant ar-lein ‘Amddiffyn Gwybodaeth’ y llywodraeth. Mae’r hyfforddiant wedi ei rannu i dair lefel ac yn seiliedig ar asesiad.

2.80 Rhaid i’r holl staff gwblhau’r lefel sy’n briodol i’w lefel o gyfrifoldeb ar gyfer trin data. Pasiodd pob aelod o staff yr asesiad yn llwyddiannus yn 2017/18.

2.81 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi darparu datganiad ei bod yn fodlon bod gennym bolisïau priodol i’r staff ddilyn, cyn belled â’u bod yn berthnasol i’r Awdurdod, a bod prosesau priodol yn eu lle i liniaru risgiau i’n gwybodaeth.

2.82 Paratowyd y datganiad hwn wedi ystyriaeth o Asesiad Blynyddol yr Awdurdod o Reolaeth Risg Gwybodaeth ar gyfer 2017/18 a’r sicrwydd a geir trwy hynny.

2.83 Nid oes gennym unrhyw ddigwyddiadau data personol i adrodd arnynt.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

### *Cwmpas cyfrifoldeb*

2.84 Fel Swyddog Cyfrifyddu i'r Awdurdod, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod wrth ddiogelu arian ac asedau sefydliadol yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Rwy'n talu sylw gofalus i'r canllaw a sefydlwyd yn Managing Public Money.

2.85 Mae'r Awdurdod yn adrodd i Senedd y Deyrnas Unedig ac yn cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr, i gyflenwi'n hoblygiadau statudol ac amcanion allweddol ein cynllun busnes. Mae hyn yn cynnwys nodi ac ymateb yn briodol i risgiau mewnol ac allanol.

### *Pwrpas y system rheolaeth fewnol*

2.86 Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i'r graddau y bo hynny'n rhesymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu cyflawni polisïau, amcanion a nodau; felly gall roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei wneud, ond nid sicrwydd llwyr.

2.87 Mae'r system o reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion sefydliadol, i werthuso'r tebygolrwydd y cyflawnir y risgiau hynny a'r effaith pe byddant yn cael eu cyflawni, ac i'w rheoli'n effeithiol, effeithlon ac economaidd.

2.88 Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blynyddol, ac yn cyd-fynd â chanllaw Trysorlys EM. Mae elfennau allweddol y system reolaeth fewnol yn cynnwys:

- Gweithdrefnau ariannol yn manylu rheoliadau ariannol ar gyfer cyfrifoldebau dros, ac awdurdodaeth a ddirprwywyd i, y tîm rheoli
- Prosesau cynllunio busnes yn sefydlu amcanion yr Awdurdod wedi eu cefnogi gan fanylion incwm blynyddol, gwariant, cyfalaf a chyllidebau llif arian
- Adolygiadau rheolaidd o berfformiad ynghyd ag adrodd amrywiant, cynllunio senario ac ail-ddarogan.

### *Adolygu effeithiolrwydd*

2.89 Fel Swyddog Atebolrwydd, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Hysbysir fy adolygiad o waith yr archwilwyr mewnol, a'r Grŵp Cyfarwyddwyr, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y rheoliadau mewnol, a sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd wedi fy nghynghori o oblygiadau canlyniadau fy adolygiad ar y system o reolaeth fewnol. Eleni mae'r Pwyllgor Craffu wedi ystyried ein perfformiad yn erbyn ein safonau ein hunain ar gyfer ein swyddogaethau statudol a'r rhaglen cofrestrau achrededig yn ofalus iawn.

2.90 Cynhaliwyd ac adolygwyd effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol trwy:

- Fwrdd yr Awdurdod, a gyfarfu chwech o weithiau
- Y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n cynnwys tri aelod o'r Bwrdd. Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd ynghyd â'r Cyfarwyddwr

Llywodraethu a Gweithrediadau a'r Pennaeth Cyllid. Mae cynrychiolwyr o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'n harchwilwyr mewnol hefyd yn bresennol

- Trefniadau rheoli risg sy'n nodi risgiau allweddol allai effeithio ar gyflawniad ein hamcanion a bod y risgiau hynny wedi eu rheoli'n weithredol, gan adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a, thrwyddo, i Fwrdd yr Awdurdod
- Ein hasesiad blynyddol o reolaeth risg gwybodaeth a gyflawnwyd yn unol â chanllaw Swyddfa'r Cabinet. Rydym wedi talu sylw arbennig eleni i baratoi ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
- Adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol, Grant Thornton, yn cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y llywodraeth
- Sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol, yr NAO, yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

2.91 Grant Thornton, archwilwyr mewnol y Ganolfan Rheolyddion, fu ein harchwilwyr mewnol ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ei adroddiad ar gyfer 2017/18:

*'…ni amlygodd yr un o'r archwiliadau unrhyw faterion sylfaenol…Felly yn seiliedig ar gwmpas y pedwar adolygiad a gyflawnom yn 2017/18, a'r profion /gwerthusiad a gyflawnwyd, rydym wedi casglu fod rheoliadau a brofom wedi eu cynllunio'n briodol ac yn gweithredu'n effeithiol ym meysydd llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheoliadau mewnol yn y pedwar maes yma a adolygwyd eleni.'*

2.92 Mae Grant Thornton wedi eu disodli gan Mazars fel ein harchwilwyr mewnol ar gyfer blwyddyn 2018/19.

2.93 Nid wyf o'r farn fod gennym wendidau arwyddocaol yn ein system o reoliadau mewnol. Mae rhaglen o fonitro parhaus yn bodoli, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Archwilio a Risg, archwilwyr mewnol ac archwilwyr allanol, i sicrhau ein bod yn bodloni safonau arfer gorau ym mhob maes o'n gweithrediadau.

2.94 Mae ein Fframwaith Sicrwydd yn cael ei monitro ynghyd â'r gofrestr risg gan y Grŵp Cyfarwyddwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd. Ystyrir dylanwadau mewnol ac allanol gan drafod unrhyw risgiau allai fod yn arwyddocaol gyda rhanddeiliaid allweddol cyn gynted ag y'i gwelir. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi adolygu ein fframwaith sicrwydd yn ystod y flwyddyn i sicrhau ei fod yn darparu lefel briodol o sicrwydd i'r Pwyllgor a'r Bwrdd.

2.95 Rwy'n fodlon bod yr asesiad blynyddol o reoli risg gwybodaeth yn adlewyrchu'r risgiau gwybodaeth yr ydym wedi eu rheoli'n ddigonol a'n bod wedi ystyried risgiau yn y dyfodol. Ystyriaf ein bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i reoli risgiau gwybodaeth yn effeithiol. Rwy'n hyderus fod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i storio, rhannu a dinistrio gwybodaeth yn ddiogel. Rwy'n fodlon bod y nifer fechan o fân ddigwyddiadau risg gwybodaeth a ddigwyddodd eleni wedi eu rheoli'n briodol, y cymerwyd camau i unioni ac na ddatgelwyd na chollwyd unrhyw wybodaeth sensitif.

2.96 Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) y Llywodraeth 2017/2018 a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

2.97 Mae ein cyfrifon wedi eu paratoi yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 15 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

2.98 Sefydlir manylion Cynllun Pensiwn y GIG a thriniaeth o atebolrwydd pensiynau i'r cyfrifon yn nodiadau'r cyfrifon dan y polisïau cyfrifo (nodyn 1).

2.99 Rwy'n cadarnhau:

- Mae'r asesiad o reolaeth risg gwybodaeth wedi ei gwblhau'n foddhaol ac y gellir defnyddio'r wybodaeth ar gyfer ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Mae'r adroddiad a'r cyfrifon hyn ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy
- Rydym wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol fel y manylwyd yn DAO(GEN)02/12 – Datganiadau Llywodraethu cyn belled â'i fod yn berthnasol i ni
- Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohono, ac rydw i wedi cymryd pob cam i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- Rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol ar gyfer yr adroddiad a'r dyfarniadau sy'n ofynnol i bennu ei fod yn deg, cytbwys a dealladwy.



Harry Cayton CBE
Swyddog Cyfrifyddu
19 Mehefin 2018

# 3. Adroddiad tâl a staff

### Polisi tâl

### Pwyllgor Tâl

3.1 Mae'r Pwyllgor Tâl yn cwrdd unwaith y flwyddyn, neu'n amlach os oes angen, i ddelio â materion tâl eraill os ydynt yn codi.

3.2 Nid oes gan yr Awdurdod Bwyllgor Enwebiadau. Byddai'r Pwyllgor Tâl yn cyflawni'r rôl hon pe byddai'r angen yn codi.

3.3 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Pwyllgor Tâl rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Dangosir presenoldeb aelodau isod.

| Aelod o'r Bwrdd | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd | Posibl |
|---|---|---|
| George Jenkins OBE (Cadeirydd) | 4 | 4 |
| Frances Done CBE | 4 | 4 |
| Thomas Frawley CBE | 4 | 4 |

3.4 Dan drefniadau blaenorol gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, roedd recriwtio a dargadw staff wedi ei gyfyngu ers rhai blynyddoedd gan gyfarwyddiadau parthed cyflogau. Yn rhan o hyn, roeddem wedi ein hatal rhag talu codiad blynyddol a chawsom ymgodiad blynyddol i adlewyrchu cynnydd costau byw a bennwyd ar ein cyfer.

3.5 Yn dilyn agosrwydd ariannol gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod 2017/18, rydym wedi cyflawni ymarfer gwerthusiad swyddi, graddau a chyflogai er mwyn buddsoddi yn safon, recriwtio a dargadw tîm ein staff. Yn rhan o'r ymarfer hwn, fe adolygom ein rolau, cyfrifoldebau a'r lefelau staffio ym mhob tîm. O ganlyniad i hyn, cymeradwyodd y Pwyllgor Tâl gyflwyniad graddau cyflogau newydd i ddod â'n polisi tâl yn agosach at fod yn unol â'r sector rheoleiddio. Rydym wedi lleihau effaith ariannol yr ymarfer hwn ar ein rhanddeiliaid trwy nodi arbedion mewn meysydd eraill o'n cyllideb. Rydym nawr yn hyderus fod gennym y strwythur staff priodol i alluogi'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

3.6 Yn gyffredinol fe gynigir cytundebau parhaol. Os y'i cynigir ar sail cyfnod sefydlog, mae hyn i adlewyrchu natur a chyd-destun y gwaith dan sylw. Pennir y cyfnod hysbysiad gofynnol gan swydd y deiliad. Rydym yn edrych ar daliadau terfynu a darpariaethau iawndal ar gyfer terfynu fesul achos mewn ymgynghoriad â'n cynghorwyr.

## Cytundebau uwch reolwyr

| Enw | Teitl | Dyddiad cytundeb | Tymor heb ddod i ben | Cyfnod rhybudd |
|---|---|---|---|---|
| Harry Cayton | Prif Weithredwr | 1 Awst 2007 | Contract parhaol | 6 mis |
| John McDermott | Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau | 5 Medi 2016 | Contract parhaol | 3 mis |
| Mark Stobbs | Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd | 3 Mai 2016 | Contract parhaol | 3 mis |
| Christine Braithwaite | Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi | 17 Mai 2010 | Contract parhaol | 3 mis |

## Cyflogau uwch reolwyr

| Enw | Cyflog 2017/2018 £'000 | Taliadau treuliau (trethadwy) Cyfanswm £000 | Tâl perfformiad a bonws £000 | Hirdymor a bonws hirdymor £'000 | Holl fuddion sy'n ymwneud â phensiwn £'000 | CYFANSWM 2017/2018 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Harry Cayton | 155-160 | 0 | 0 | 0 | 85-90 | 245-250 |
| John McDermott | 95-100 | 0 | 0 | 0 | 60-65 | 160-165 |
| Mark Stobbs | 95-100 | 0 | 0 | 0 | 20-25 | 120-125 |
| Christine Braithwaite | 95-100 | 0 | 0 | 0 | 20-25 | 120-125 |

| Enw | Cyflog 2016/2017 £'000 | Taliadau treuliau (trethadwy) Cyfanswm £000 | Tâl perfformiad a bonws £000 | Hirdymor a bonws hirdymor £'000 | Holl fuddion sy'n ymwneud â phensiwn £'000 | CYFANSWM 2016/2017 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Harry Cayton | 150-155 | 0 | 0 | 0 | 35-40 | 190-195 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| John McDermott | 55-60*** | 0 | 0 | 0 | 10-15 | 65-70 |
| Mark Stobbs | 85-90*** | 0 | 0 | 0 | 20-25 | 105-110 |
| Christine Braithwaite | 95-100 | 0 | 0 | 0 | 20-25 | 115-120 |
| Linda Allan | 45-50**** | 0 | 0 | 0 | 15-20 | 60-65 |
| Rosalyn Hayles | 15-20**** | 0 | 0 | 0 | 10-15 | 30-35 |

***Ffigurau is oherwydd dyddiadau cychwyn canol y flwyddyn. Cyflog cyfatebol i flwyddyn lawn £95k-£100k..
**** Ffigurau is oherwydd dyddiadau gadael canol y flwyddyn. Cyflog cyfatebol i flwyddyn lawn £95k-£100k.

3.7 Mae’r tabl hwn wedi ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

3.8 Roedd pob uwch reolwr yn y flwyddyn yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG.

3.9 Mae cyfanswm ta cyn cynnwys cyflog a buddion cysylltiedig â phensiwn a gyfrifir yn unol â chanllaw Pensiynau’r GIG,[51] sy’n ceisio meintoli’r cynnydd mewn buddion pensiwn yn y flwyddyn trwy gymharu’r buddion pensiwn cyffredinol ar ddechrau’r flwyddyn gyda’r rhai ar ddiwedd y flwyddyn. Ni chafwyd unrhyw gyflog sy’n gysylltiedig â pherfformiad heb ei gydgrynhoi, buddion mewn da na thaliadau diswyddo yn ystod 2017/18 na 2016/17.

### Pensiynau

| Enw | Teitl | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) | Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) | Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2018 (bandiau o £5,000) | Cyfandaliad yn 60 oed yn gysylltiedig â phensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2018 (bandiau o £5,000) | Gwerth Trosglwyddo Cyfateb i Arian ar 1 Ebrill 2017 (i’r £1,000 agosaf)** | Gwerth Trosglwyddiad yn Cyfateb i Arian ar 31 Mawrth 2018 (i’r £1,000 agosaf)** | Cynnydd real yn y Gwerth Trosglwyddiad sy’n Cyfateb i Arian yn y flwyddyn a drodd (i’r £1,000 agosaf)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Harry Cayton | Prif Weithredwr | 5-7.5 | 0-2.5 | 35-40 | 20-25 | Amh** | Amh ** | Amh** |

[51] Datgeliad o Dâl Uwch Reolwyr (Greenbury) 2015.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| John McDermott | Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau | 2.5-5 | Amh* | 0-5 | Amh* | 7 | 35 | 14 |
| Mark Stobbs | Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd | 0-2.5 | Amh* | 0-5 | Amh* | 20 | 44 | 10 |
| Christine Braithwaite | Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi | 0-2.5 | 2.5-5 | 20-25 | 60-65 | 410 | 470 | 36 |

* Ddim yn berthnasol yng nghynllun 2008
**Ddim yn berthnasol gan ei fod dros 65

3.10 Mae'r tabl hwn wedi ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod** Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf prisiad yr actwari manteision cynllun pensiwn cronedig aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y manteision a brisir yw manteision cronnol aelodau ac unrhyw bensiwn cymar dilynol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau manteision pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r manteision a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae a wnelo'r ffigurau pensiwn a ddangosir â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, ac nid dim ond y cyfnod a dreuliwyd mewn uwch swydd y mae'r datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigwr CETV – ac o 2005-2006 y manylion pensiwn eraill – yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi trosglwyddo i Gynllun Pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fanteision pensiwn atodol i'r aelodau yn deillio o brynu blynyddoedd atodol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun o'u poced eu hunain. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwari.

**Cynnydd/(lleihad) real mewn CETV**
Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd/(lleihad) real yn CETV. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronnol oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr a'r cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin gwerthuso'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

3.11 Ni thalwyd unrhyw iawndal i gyn uwch reolwyr, na gwneud taliadau i drydydd parti ar gyfer gwasanaethau uwch reolwr.

3.12 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

3.13 Nid oedd gan unrhyw uwch reolwr dreuliau oedd yn amodol i dreth yn y Deyrnas Unedig.

### Taliadau aelodau'r Awdurdod

3.14 Mae taliadau a wneir i'r Bwrdd yn amodol i ganllawiau Swyddfa'r Cabinet ac nid yw wedi cynyddu ers 2009/10. Mae'r Cadeirydd yn derbyn tâl o £33,688 y flwyddyn

(2016/17: £33,688 y flwyddyn); mae aelodau yn derbyn tâl blynyddol o £7,881 (2016/17: £7,881) ac mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn tâl blynyddol o £13,135 (2016/17: £13,135). Daeth cyfanswm taliadau i aelodau trwy gydol y flwyddyn i £90,894 (2016/17: £91,515) yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol.

3.15 Mae tâl aelodau yn amodol i dreth ac yswiriant gwladol trwy TWE.

3.16 Yn ogystal, ad-dalwyd costau yn dod i £11,621 (2016/17: £14,002) i aelodau'r Bwrdd. Mae costau teithio yn gysylltiedig â theithio i swyddfeydd yr Awdurdod yn amodol i dreth sy'n cael ei dalu gan yr Awdurdod ar eu rhan, trwy gytundeb gyda HMRC.

3.17 Mae taliadau'r aelodau wedi eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

3.18 Datgelir taliadau a wnaed i aelodau unigol isod.

3.19 Nid oedd unrhyw aelodau o'r bwrdd yn aelodau o gynllun pensiwn y GIG yn 2017/18. Fe ad-dalwyd pob cyfraniad a wnaethpwyd gan ddau aelod o'r bwrdd yn 2016/17.

***Taliadau a wnaethpwyd i aelodau Bwrdd yr Awdurdod yn ystod 2017/18***

| | Cyflog 2017/2018 (bandiau o £5,000) | 2017/2018 Costau teithio (bandiau o £5,000) | Cyflog 2016/2017 (bandiau o £5,000) | 2016/2017 Costau teithio (bandiau o £5,000) |
|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** | | | | |
| George Jenkins OBE | 30-35 | 0-5 | 30-35 | 0-5 |
| **Aelodau** | | | | |
| Antony Townsend | 5-10 | 0-5 | 5-10 | 0-5 |
| Frances Done CBE *** (Cadeirydd Archwilio a Risg) | 10-15 | 0-5 | 0-5 | 0-5 |
| Renata Drinkwater | 5-10 | 0-5 | 5-10 | 0-5 |
| Thomas Frawley CBE *** | 5-10 | 0-5 | 0-5 | 0-5 |
| Moiram Ali *** | 5-10 | 0-5 | 0-5 | 0-5 |
| Marcus Longley | 5-10 | 0-5 | AMH | AMH |
| Ian Hamer OBE** | 0-5 | 0-5 | 5-10 | 5-10 |
| Andrew Hind CB* | AMH | AMH | 5-10 | 0-5 |
| Stuart MacDonnell* | AMH | AMH | 5-10 | 0-5 |
| Jayne Scott* | AMH | AMH | 5-10 | 0-5 |

* Hyd at 31 Rhagfyr 2016 ** Hyd at Fai 2017 *** O 1 Ionawr 2017

## Adroddiad staff

3.20 Rydym oll yn ymroddedig i alluogi cyflogeion i gyflawni eu llawn botensial mewn amgylchedd a nodweddir gan urddas a pharch i'w gilydd. Mae ein polisïau cyflogaeth yn ceisio creu gweithle ble gall pob cyflogai wneud ei orau, a chyfrannu i'n llwyddiant ni a'u llwyddiant eu hunain. Fe adolygir y rhain a'u diweddaru'n rheolaidd gydag arbenigwyr allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda deddfwriaeth.

3.21 Rydym wedi cadw gwasanaethau Right Corecare ac mae gan ein staff fynediad at gymorth a chwnsela os oes angen.

3.22 Rydym yn cydnabod manteision busnes cael gweithlu amrywiol ac yn ymroddedig i gynnal diwylliant ble mae amrywiaeth a chydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a ble na oddefir gwahaniaethu. Rydym yn gweithredu polisi dethol teg ac agored ar gyfer ceisiadau am gyflogaeth a dyrchafiadau mewnol.

3.23 Ceir rhagor o wybodaeth am y tîm o uwch reolwyr yn adran Taliadau'r adroddiad hwn.

3.24 Roedd trosiant staff eleni yn sylweddol is na'n targed. Credwn mai ffactor arwyddocaol yn hyn oedd yr adolygiad cyflog sydd wedi sicrhau bod cyflogau staff yn fwy unol â'r sector. Yn ogystal, fe wnaethom gynyddu cyfnodau rhybudd er mwyn ein cynorthwyo gyda throsglwyddo gwybodaeth.

3.25 Yn rhan o'n cyfrifoldeb corfforaethol, rydym yn annog ein staff i gefnogi elusennau a sefydliadau cymunedol eraill. Mae staff yn ymwneud ar hyn o bryd gyda Comic Relief a phwyllgor moeseg ymchwil. Mae staff yn weithgar wrth godi arian ar gyfer nifer o achosion da.

### Datgeliadau cyflogau teg

3.26 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf (yn ein hachos ni, y Prif Weithredwr) a thâl canolrif gweithlu'r Awdurdod.

3.27 Tâl y Prif Weithredwr yn y flwyddyn ariannol 2017/18 oedd £157,500 (a gyfrifwyd fel canol y band). Roedd hyn 3.32 gwaith yn fwy na thâl canolrif y gweithlu, sef £47,371.

3.28 Tâl y Prif Weithredwr yn y flwyddyn ariannol 2016/17 oedd £154,000. Roedd hyn 3.28 gwaith yn fwy na thâl canolig y gweithlu, sef £46,902.

3.29 Ni dderbyniodd unrhyw gyflogai dâl oedd yn fwy na'r Prif Weithredwr yn 2017/18 na 2016/17. Roedd tâl yn amrywio o £27,000 i £160,000 (2016/17: £24,000 i £154,000).

3.30 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

3.31 Yn 2017/18, roedd un aelod o'r uwch dîm rheoli yn fenywaidd (14%) (2016/17 3 unigolyn 50%) tra ar y cyfan, roedd 26 o gyflogeion yn fenywaidd (62%) (2016/17 64%, 33 cyflogai).

### Absenoldeb salwch

3.32 Collwyd cyfanswm o 269 niwrnod (2016/17 224 niwrnod) o ganlyniad i absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 6 niwrnod (2016/17 4.6 niwrnod) y

pen. Roedd dros 50% o'r absenoldeb hwn yn ymwneud â thri aelod o staff oedd ag absenoldeb hirdymor yn ystod y flwyddyn.

### Polisïau yn ymwneud ag anabledd

3.33 Rydym yn ymroddedig i weithredu ein polisi cyfle cyfartal ar bob cam o recriwtio a dethol.

3.34 Rydym yn gweithio i sicrhau:

- Y penodir yr ymgeisydd mwyaf addas i bob swydd, gan dalu sylw i wir anghenion y swydd
- Fod y broses yn agored, teg a gonest
- Ein bod yn gwneud addasiadau rhesymol i drechu rhwystrau wrth gynnal cyfweliadau a chyflogaeth
- Y rhoddir cyfle cyfartal i bob ymgeisydd
- Yr asesir ymgeiswyr mewnol ac allanol ar sail yr un meini prawf dethol
- Y diddymir gwahaniaethu a rhagfarn o'r broses
- Y bodlonir amcanion cyfreithiol, ac y dilynir arferion cyflogaeth da
- Mae ein ffurflen gais yn darparu adran ble gall ymgeiswyr posibl gadarnhau p'un a ydynt yn ystyried eu hunain i fod ag anabledd neu beidio.

3.35 Os nodir hyn ar y ffurflen gais, bydd pob ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf isafswm ar gyfer swydd yn cael cyfweliad dan y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig.

3.36 Er ein bod yn ymroddedig i'r Cynllun Cyfweliad Gwarantedig, nid yw'r gofyniad hwn yn ymestyn i'r penderfyniad penodi, ble bydd yr unigolyn gorau ar gyfer y swydd yn cael ei benodi yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb.

### Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

#### *Nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd*

3.37 Mae cyfartaledd y nifer o staff llawn amser a rhan amser a gyflogir (yn cynnwys staff dros dro) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2017/18 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 40.15 | 0.09 | 40.24 | 39.71 | 0.26 | 39.97 |

3.38 Ni chyflogwyd unrhyw staff ar brosiectau cyfalaf yn y cyfnod i 31 Mawrth 2018.

#### *Costau personau a gyflogir*

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2017/18 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 2,261 | - | 2,261 | 2,094 | - | 2,094 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 254 | - | 254 | 229 | - | 229 |
| Costau pensiynau | 258 | - | 258 | 253 | - | 253 |
| Asiantaeth / staff dros dro | - | 4 | 4 | - | 16 | 16 |
| | 2,773 | 4 | 2,777 | 2,576 | 16 | 2,592 |

3.39 Mae'r tabl hwn wedi ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

***Adrodd cynlluniau Gwasanaeth Sifil a digolledu eraill: pecynnau gadael***

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer o ddiswyddiadau gorfodol | Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd | Cyfanswm pecynnau gadael yn ôl band cost |
|---|---|---|---|
| < £10 | 0 | 1 | 1 |
| £10-£25 | 0 | 0 | 0 |
| >£25 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm pecynnau ymadael** | 0 | 1 | 1 |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cyfanswm cost adnodd /£** | 0 | 7 | 7 |

3.40 Mae'r costau pecyn gadael wedi eu cyfrif yn llawn yn y flwyddyn gadael.

3.41 Ni chododd unrhyw gostau diweithdra nac ymadael eraill yn y flwyddyn ariannol 2017/18.

3.42 Ni chyflogwyd unrhyw bersonau oddi ar y gyflogres nac ar sail ymgynghorol yn ystod y flwyddyn.

3.43 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

# 4. Atebolrwydd seneddol ac adroddiad archwilio

## Eglurhad

### Colledion a thaliadau arbennig

4.1 Roedd colledion a thaliadau arbennig yn unigol ac yn gyfan gwbl islaw'r trothwy adrodd o £300,000. Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

### Cysondeb gwariant

4.2 Mae'r Awdurdod yn gweithredu gyda phedwar ffrwd gwaith penodol a adlewyrchir yn segmentiad ein cyfrifon:

- Gwaith rheoleiddiol a gosod safonau – a delir amdano trwy ffioedd a gesglir gan y cyrff Rheoleiddio
- Cofrestrau Achrededig – hunan ariannu gyda chefnogaeth cymhorthdal gan yr Adran Iechyd, fel ym mharagraff 9.65
- Comisiynau gan Lywodraeth(au) – telir amdanynt gan y corff comisiynu
- Cyngor i sefydliadau eraill – enillir trwy ffioedd.

4.3 Rhoddir cyfrif ar gyfer yr incwm a gwariant ar gyfer pob segmentiad ar wahân ac rydym yn gweithio i sicrhau nad oes unrhyw draws gymorthdalu.

4.4 Fel yr adroddwyd mewn adran arall, mae ein harchwilwyr mewnol yn cyflawni adolygiad blynyddol o reolaeth ein cyllid parthed ein hegwyddorion busnes a pholisi wrth gefn cyhoeddedig sydd ym mharagraffau 1.32-1.36.

4.5 Mae'r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

### Ffioedd a thaliadau

4.6 Darparodd y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 i'r Awdurdod gael ei ariannu gan y cyrff rheoleiddio y mae'n eu goruchwylio.

4.7 Galluogodd y Ddeddf i'r Cyfrin Gyngor wneud rheoliadau yn gofyn i bob un o'r cyrff rheoleiddio sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i dalu ffioedd i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol parthed y swyddogaethau a gyflawnir gan yr Awdurdod fel y dynodir yn y rheoliadau. Cafodd yr ail ddeddfwriaeth, Rheoliadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015 (y Rheoliadau Ffioedd) ei gyflwyno gerbron y Senedd ar 27 Chwefror 2015 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2015.

4.8 Casglwyd y ffioedd cyntaf yn Nhachwedd 2015 ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2015 i 31 Mawrth 2016. Darparodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyllid ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Gorffennaf 2015.

4.9 Y swyddogaethau o fewn cwmpas y Rheoliadau Ffioedd yw'r rhai o fewn ein ffrwd waith gyntaf; sef goruchwylio rheoleiddio a gwaith gwella a gyflawnwyd parthed cyrff iechyd proffesiynol a reoleiddir dan statud.

4.10 2017/18 oedd ail flwyddyn lawn yr Awdurdod wedi ei gyllido'n bennaf trwy ffioedd. Bydd y cyfnod ffioedd ar gyfer 2018/19 o Ebrill i Fawrth yn cwmpasu'r un cyfnod â blwyddyn ariannol yr Awdurdod.

4.11 Rhoddir manylion y costau gweithredu cysylltiedig ar gyfer ein swyddogaeth rheoleiddio a gosod isod.

| 31 Mawrth 2018 | Gwaith rheoleiddio a gosod safonau | Comisiynau gan Lywodraeth(au) |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Costau gweithredu | 3,876 | 152 |
| Incwm gweithredol | (4,201) | (159) |
| **Incwm gweithredu net** | **(325)** | **(7)** |

4.12 Mae’r wybodaeth hon wedi ei harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

### Tueddiadau gwariant tymor hir

4.13 Y prif ysgogwyr a fydd yn dylanwadu ar ein hanghenion cyllidebol yn y dyfodol yw:

- Newidiadau i faint o waith sy'n rhaid i ni gyflawni, yn benodol y nifer o achosion Addasrwydd i Ymarfer a adolygir
- Newidiadau i ddeddfwriaeth sydd naill ai'n gosod dyletswyddau newydd arnom neu'n gofyn ein bod yn defnyddio mwy o adnoddau i gyflawni ein gwaith cyfredol o ganlyniad i newidiadau i brosesau a gweithdrefnau
- Newidiadau i ddeddfwriaeth y mae'n rhaid i ni fel busnes neu gyflogwr gydymffurfio â nhw
- Newidiadau a gyflwynir gennym
- Newidiadau i'n costau yn deillio o chwyddiant ac ati
- Newidiadau i incwm a gwariant y rhaglen cofrestrau achredededig.

### Achosion adran 29

4.14 Gall y maes hwn o'n gwaith amrywio gryn dipyn ac felly mae'n anodd ei ragweld. Mae nifer o achosion yn cymryd dipyn o amser o'r dyddiad pan wneir cwyn i pan fyddant yn dod i'r Awdurdod, felly nid dim ond faint o waith a dderbynnir gan reolydd sydd angen ei ystyried, ond hefyd yr amser a gymer i'w prosesu sy'n dylanwadu ar lwyth gwaith yr Awdurdod.

4.15 Eleni rydym wedi gweld lleihad o 4% yn y nifer o benderfyniadau achosion addasrwydd i ymarfer gan y rheolyddion (4,095 yn 2018/17 o gymharu â 4,285 yn 2016/17). Yn ystod 2017/18, gofynnom am ragor o wybodaeth a chynnal adolygiadau achos manwl mewn 265 o achosion. I gymharu, fe gyflawnom 272 adolygiad achos manwl yn 2016/17.

4.16 Er bod staff yn gallu delio ag elfen o newid, mae'r ffaith ein bod angen bodloni dyddiadau cau statudol yn golygu y gall fod angen i ni gyflogi staff dros dro os bydd niferoedd yn codi'n annisgwyl. Yn ystod y cyfnod dan sylw, fe gyflogom aelod dros dro o staff i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni dyddiadau cau statudol, tra bod

aelod o'r tîm Craffu ar absenoldeb. Os bydd y nifer o achosion yn codi, ac yn ystod cyfnodau arbennig o brysur, mae gennym drefniadau ar-alwad yn eu lle gyda'n darparwyr cyfreithiol allanol i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni ein dyddiadau cau statudol.

### Newidiadau i'n deddfwriaeth

4.17 Mae posibiliad y gallai newidiadau i ddeddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ein gwaith. Byddai cyflwyno newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth naill ai i ni neu'r rheolyddion yn gofyn am ddadansoddiad ac ystyriaeth. Mae yna gynigion ar gyfer newidiadau i reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ond nid yw'r rhain wedi eu datblygu i gyflwr fyddai'n galluogi'r Awdurdod i ystyried yr effaith ar ein gwaith neu wariant ar hyn o bryd.

4.18 Gan dybio fod ein llwyth gwaith yn dal yn gyson gyda'r flwyddyn gyfredol, nid ydym yn rhagweld newidiadau arwyddocaol i'n gwariant.



Harry Cayton CBE

Swyddog Cyfrifyddu

19 Mehefin 2018

# 5. Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol 2012. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys polisïau cyfrifo arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd, Adroddiad Tâl a Staff, yr Adroddiad Atebolrwydd a'r Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiadau hynny fel adroddiad sydd wedi'i archwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg o gyflwr materion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y maent ar 31 Mawrth 2018 ac o incwm gweithredu net yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd dani.

### Barn ar gysondeb

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, mae'r incwm a gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail fy marn

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) (UK) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer adran archwiliad o'r datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Wrth weithredu'r Safonau Moesegol, fe nodais berthynas fusnes rhwng y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Datgelir rhagor o fanylion yn Nodyn 4. Mae'r refeniw a dderbyniwyd yn anfaterol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac rwy'n ystyried bod

mesurau diogelu priodol wedi eu gweithredu i ddiogelu fy ngwrthrychedd i a thîm y Swyddfa Archwilio trwy gydol yr archwiliad. Rwy'n annibynnol o'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn unol â'r gofynion moesol sy'n berthnasol i fi ngwaith o archwilio a'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gasglais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu, y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gywir a theg.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb fi yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012. Mae archwiliad yn casglu tystiolaeth ynglŷn â'r symiau a datguddiadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad materol, p'un a ydynt o ganlyniad i dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel i sicrwydd, ond nid yw'n warant fod archwiliad a gyflawnwyd yn unol â'r ISAs (UK) yn canfod camddatganiad materol ar bob adeg os bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac fe'i hystyrir i fod yn faterol os, yn unigol neu'n gyfunol, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Yn rhan o archwiliad yn unol ag ISAs (UK), rwy'n arfer barn broffesiynol ac yn cynnal sgeptigaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd:

- yn nodi ac asesu'r risgiau o gamddatganiad materol y datganiadau ariannol, p'un a yw o ganlyniad i dwyll neu wall, yn cynllunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymatebol i'r risgiau hynny, ac yn casglu tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio canfod camddatganiad materol yn deillio o dwyll yn uwch nag ar gyfer un yn deillio o wall, gan y gallai twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camgyflead, neu wrthwneud rheoliadau mewnol.
- yn cael dealltwriaeth o reoliad mewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol dan yr amgylchiadau, ond nid i'r diben o fynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- yn gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifo a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifo a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan reolwyr.
- yn casglu ar briodoldeb defnydd rheolwyr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifo ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gasglwyd, os oes ansicrwydd materol yn bodoli parthed digwyddiadau neu amodau a allai olygu bod ansicrwydd arwyddocaol ynghylch gallu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a

Gofal Cymdeithasol i barhau fel busnes gweithredol. Os byddaf yn casglu bod ansicrwydd materol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad archwilydd at y datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os yw datgeliadau o'r fath yn annigonol, i addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth ar chwilio a gasglwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad archwilydd. Fodd bynnag, gallai digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r endid roi'r gorau i fodoli fel busnes gweithredol

- yn gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, yn cynnwys y datgeliadau, ac os yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cyflwyno'r trafodion a digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n cyflawni cynrychiolaeth deg.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu parthed, ymysg pethau eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad yn cynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn nodi yn ystod fy archwiliad.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol arnaf gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a gwariant yr adroddwyd arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r pwrpasau a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad 'Rheoleiddio'r Proffesiwn Iechyd: edrych i'r dyfodol' ac Adroddiad Blynyddol, ar wahân i rannau eraill o'r Adroddiad atebolrwydd, Adroddiad Tâl a Staff ac Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol, ar wahân i'r rhannau hynny o'r adroddiadau a ddisgrifir yn yr adroddiadau hynny fel rhai sydd wedi eu harchwilio, y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi barn ar unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ynddynt. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb fi yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gasglwyd yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos i fod wedi ei gam-ddatgan yn faterol fel arall. Os, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei gyflawni, byddaf yn casglu fod camddatganiad materol o'r wybodaeth hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd o ran y mater hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl a Ataff a'r Adroddiad Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol i'w harchwilio wedi eu paratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012;

- yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i amgylchedd a gaffaelwyd wrth gyflawni'r archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau materol yn yr Adroddiad Perffromiad, Adroddiad Atebolrwydd, Adroddiad Tâl a Staff a'r Adridduad Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad, yr Adroddiad Atebolrwydd, yr Adroddiad Tâl a Staff a'r Adroddiad Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt trwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifo digonol neu na dderbyniwyd dychweliadau digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad tâl a staff ac Adroddiad atebolrwydd ac archwilio Seneddol i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion neu ddychweliadau cyfrifo; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau rwyf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse** **Dyddiad 22 Mehefin 2018**

**Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# 6. Datganiadau ariannol – sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018

| | | Mawrth 2018 | | Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 7 | 118 | | 235 | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 116 | | 115 | |
| ***Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol*** | | | ***234*** | | 350 |
| | | | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 9 | 289 | | 253 | |
| Adneuon tymor byr | 10 | 750 | | 0 | |
| Arian a chyfwerth ag arian parod | 11 | 5,082 | | 5,425 | |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | | ***6,121*** | | 5,678 |
| **Cyfanswm Asedau** | | | **6,355** | | 6,028 |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | (4,281) | | (4,147) | |
| Darpariaethau | 13 | (11) | | (7) | |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | | ***(4,292)*** | | (4,154) |
| | | | | | |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau** | | | **2,063** | | **1,874** |
| | | | | | |
| **Wrth gefn** | | | | | |
| Cronfa wrth Gefn Gyffredinol | | | **2,063** | | **1,874** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 111 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Harry Cayton CBE
Swyddog Cyfrifyddu
19 Mehefin 2018

# 7. Datganiadau ariannol – gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | | | Mawrth 2018 £'000 | | Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Gwariant*** | | | | | |
| Costau staff | 3 | | 2,777 | | 2,592 |
| Costau gweinyddol eraill | 4 | | 1,645 | | 1,928 |
| ***Incwm*** | | | | | |
| Incwm Ffioedd | 5 | | (3,909) | | (3,855) |
| Incwm gweithredol | 6 | | (702) | | (555) |
| **Cost gweithredu net / (incwm)** | | | **(189)** | | **110** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 111 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

### Gwariant net cynhwysfawr arall

7.1 Nid oedd unrhyw wariant net cynhwysfawr arall yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 (dim yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017)

# 8. Datganiadau ariannol – llif arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | Nod yn | Mawrth 2018 | Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| (Costau) gweithredu net/incwm ar gyfer y flwyddyn | | 189 | (110) |
| Addasiad ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | 4 | 184 | 95 |
| (Cynnydd) mewn masnach a derbynion eraill | 9 | (36) | 769 |
| Cynnydd mewn masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | 134 | 5 |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 13 | 4 | - |
| ***Mewnlif (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol*** | | ***475*** | 759 |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Pryniant eiddo, offer a chyfarpar | 8 | (68) | (84) |
| Caffael net buddsoddiadau | 10 | (750) | |
| ***Llif arian net o weithgareddau buddsoddi*** | | ***(818)*** | (84) |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| *Cyllid gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:* | | | |
| Incwm | | - | 171 |
| Cyfalaf | | - | - |
| ***Llif arian net o weithgareddau ariannu*** | | ***-*** | 171 |
| ***Ariannu net*** | | | |
| **Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | 11 | (343) | 846 |
| Arian a chyfatebol i arian ar ddechrau'r flwyddyn ariannol | 11 | 5,425 | 4,579 |
| **Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y cyfnod ariannol** | 11 | **5,082** | 5,425 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 111 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# 9. Datganiadau ariannol – newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | Cronfa wrth gefn gyffredinol |
|---|---|---|
| | | **£'000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | **1,813** |
| | | |
| **Newidiadau mewn cronfa wrth gefn yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2017** | | |
| **(Costau) gweithredu net/incwm** | | (110) |
| | | |
| *Cyllid yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:* | | |
| Incwm | | 171 |
| Cyfalaf | | - |
| | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **1,874** |
| | | |
| **Newidiadau mewn cronfa wrth gefn yn y flwyddyn ddaeth i 31 Mawrth 2018** | | |
| | | |
| **(Costau) gweithredu net/incwm** | | 189 |
| *Cyllid gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:* | | |
| Incwm | | - |
| Cyfalaf | | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | 14 | **2,063** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 111 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# 10. Nodiadau ar y cyfrifon

## 1. Polisïau cyfrifo

### Sail paratoi

10.1 Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2017/18 a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

10.2 Mae'r polisïau cyfrifo sydd wedi eu cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'i haddaswyd neu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

10.3 Ble fo'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo a fernir i fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Awdurdod i'r diben o roi golwg wir a theg.

10.4 Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod adrodd isod. Maent wedi eu gweithredu yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### Dyfarniadau cyfrifo critigol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

10.5 Wrth gymhwyso polisïau cyfrifo'r Awdurdod, rhaid i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â chario symiau o asedau ac atebolrwydd nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

10.6 Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir i fod yn berthnasol.

10.7 Efallai y bydd y gwir ganlyniadau yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Adolygir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol yn barhaus.

10.8 Cydnabyddir adolygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn y cyfnod pan adolygir yr amcangyfrif os yw'r adolygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu yng nghyfnod yr adolygiad a chyfnodau yn y dyfodol sy'n adlewyrchu cyfnodau presennol ac yn y dyfodol.

10.9 Yn ystod y flwyddyn ni wnaethpwyd unrhyw ddyfarniadau nac amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol.

### Asedau anniriaethol

#### *Asedau anghyffwrddadwy a grëwyd yn fewnol*

10.10 Cydnabyddir ased anghyffwrddadwy a grëwyd yn fewnol o weithgareddau a gwariant yr Awdurdod pan fydd yr holl amodau canlynol wedi eu bodloni:

- Crëir ased y gellir ei hadnabod (megis meddalwedd neilltuol)
- Mae'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu manteision economaidd yn y dyfodol
- Gellir mesur cost datblygu'r ased yn ddibynadwy.

10.11 Mesurir asedau annirweddol sefydlog ar gost a'u prisio yn defnyddio cost amnewid wedi dibrisio neu a bennir i fod yn gyfwerth ar gyfer gwerth teg. Ar gyfer asedau anghyffwrddadwy gyda bywydau defnyddiol cyfyngedig, cyfrifir amorteiddiad er

mwyn gallu dileu cost ased, llai ei werth gweddilliol a amcangyfrifir, dros ei fywyd economaidd defnyddiol.

10.12 Adolygir cyfnod amorteiddiad a dull amorteiddiad ased anniriaethol yn ystod diwedd pob blwyddyn ariannol. Os yw oed defnyddiol disgwyliedig ased yn wahanol i amcangyfrifon blaenorol, bydd y cyfnod a dull amorteiddiad yn cael ei newid i adlewyrchu'r patrwm newydd.

10.13 Tan 01 Ebrill 2017, codwyd amorteiddiad cronfa ddata o'r dyddiad y dechreuwyd defnyddio'r ased, ac fe'i amorteiddiwyd ar sail llinell syth ers dros 10 mlynedd.

10.14 Yn dilyn adolygiad 2017/18 adolygiad o asedau anghyffwrddadwy a grëwyd yn fewnol yr Awdurdod mae oes ddefnyddiol wedi newid o 10 mlynedd i chwe blynedd gan adlewyrchu'r dybiaeth na fydd yr ased bellach mewn defnydd wedi 2018/19 gan na fydd y feddalwedd gyfredol yn cael ei chefnogi o Orffennaf 2019. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 7 ar dudalen 104.

10.15 Mae hyn wedi ei gyfrifo fel newid mewn amcangyfrif cyfrifo.

### Asedau nad ydynt yn gyfredol

#### *Eiddo, offer a chyfarpar*

10.16 Cyfalafir asedau nad ydynt yn gyfredol ac eithrio meddalwedd cyfrifiadurol fel eiddo, peiriannau ac offer fel a ganlyn:

- Offer gyda gwerth unigol o £1,000, neu fwy
- Asedau mewn grŵp o natur debyg gyda gwerthu cytûn o £1,000 neu fwy
- Costau ailwampio gyda gwerth o £1,000 neu fwy.

10.17 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiad IFRS 13 ac yn unol â FReM wedi pennu bod cost hanesyddol dibrisiedig yn ddewis amgen addas i werth cyfredol mewn defnydd cyfredol neu werth teg ble mae gan yr ased oes economaidd ddefnyddiol byr neu os yw o werth isel. Nid yw mynegeio wedi ei gymhwyso ers 31 Mawrth 2008 gan na fyddai hyn yn faterol. Bydd gwerthusiad asedau yn cael eu hadolygu yn flynyddol, ar ddyddiad pob datganiad o safle ariannol, i sicrhau bod y gwerth i'w gario yn adlewyrchiad teg o'r gost bresennol.

10.18 Darperir dibrisiant ar sail linol, wedi ei gyfrifo ar y swm a ddatgelwyd i ddileu asedau, llai unrhyw falans gweddilliol a amcangyfrifir, yn ystod eu bywyd defnyddiol sy'n weddill.

10.19 Mae bywydau defnyddiol asedau nad ydynt yn gyfredol wedi eu hamcangyfrif fel a ganlyn:

- Dodrefn a gosodiadau yn ystod gweddill tymor prydles y llety
- Offer cyfrifiadurol – tair blynedd.

10.20 Mae'r rhain yn darparu adlewyrchiad realistig o fywydau'r asedau.

10.21 Codir dibrisiant o'r mis pan gaffaelwyd yr ased.

### Buddsoddiadau

10.22 Mae'r rhain yn adneuon tymor byr a gedwir gyda banciau gyda dyddiad aeddfedu o dros 3 mis ac yn ddim hirach na 9 mis

### Arian yn y banc ac mewn llaw

10.23 Mae arian parod yn arian mewn llaw ac adneuon gydag unrhyw sefydliad ariannol.

### Cyllid cymorth grant a chronfa wrth gefn cyffredinol

10.24 O 31 Gorffennaf 2015, nid oedd yr Awdurdod bellach yn cael ei ariannu trwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

10.25 Triniwyd refeniw cymorth grant a dderbynnir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac a ddefnyddiwyd i ariannu gweithgareddau a gwariant i gefnogi amcanion statudol ac eraill yr Awdurdod fel cyfraniad gan blaid lywodraethol gan arwain at ddiddordeb ariannol yn y llog gweddillol yn yr Awdurdod, ac felly fe roddir cyfrif ohono fel ariannu trwy eu credydu yn uniongyrchol i'r gronfa ganolog ar sail arian a dderbyniwyd.

10.26 Yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2018 nid yw'r Awdurdod wedi derbyn unrhyw gyllid gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### Polisi wrth gefn

10.27 Nid yw amseriad pennu ffioedd yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod ac os bydd unrhyw oedi wrth dderbyn yr incwm ffioedd, bydd yr Awdurdod yn wynebu problemau llif arian a gallai fod yn anodd bodloni ei ofynion gwariant a dyletswyddau statudol.

10.28 Mae'r materion llif arian yn gysylltiedig i dderbyn yr incwm ffioedd. Os na chwblheir y broses ymgynghori mewn pryd gan y cyfrin gyngor er mwyn pennu erbyn dechrau Mawrth, yna bydd yr Awdurdod yn wynebu'r posibiliad o fod heb incwm ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

10.29 Efallai y bydd rhaid i'r Awdurdod hefyd ddelio â diffygion ariannol yn deillio yn codi yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhaid amcangyfrif y gyllideb ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol cyn cychwyn yr ymarfer ymgynghori, a gan ei fod yn broses maith rhaid cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn flaenorol, felly gall fod amgylchiadau pan fydd rhaid i'r Awdurdod daclo gwariant annisgwyl yn ystod y flwyddyn wedi pennu'r ffi, er enghraifft, costau'n deillio o gynnydd yn ei lwyth gwaith, yr angen i gyflawni ymchwiliad neu newidiadau i ddeddfwriaeth.

10.30 Er bod gan yr Awdurdod y pŵer i ymgynghori ar ffi atodol yn ystod y flwyddyn, mae'r amser y byddai hyn yn ei gymryd yn ei wneud yn anymarferol o ran ymdrin â materion o'r fath. Golyga ceisio ffioedd atodol hefyd y byddai gofyn i'r cyrff rheoleiddiol ddarparu cyllid nad oeddynt wedi cyllidebu ar ei gyfer, gan arwain at amrywiaethau yn eu cyllidebau eu hunain.

10.31 I ddarparu ar gyfer uchafbwyntiau gwariant annisgwyl a diffygion llif arian, ac i leihau'r posibiliad o fod angen casglu ffioedd atodol, mae'r Bwrdd wedi cytuno y dylai'r Awdurdod gadw lefel a gytunir o gyllid wrth gefn, a fyddai'n ddigonol i sicrhau y gall ddal i weithredu ie swyddogaethau statudol.

10.32 Bydd cael cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio hefyd yn diddymu'r angen i dalu ffioedd trefnu a lles ar unrhyw arian a fenthycwyd.

10.33 Cyflwynir y polisi isod.

10.34 Mae'r Awdurdod wedi cytuno i gadw cronfa wrth gefn o gyfanswm o dri mis o gostau gweithredu, sef tua £1 miliwn, ble mae'r gwahaniaeth rhwng y canlynol wedi ei nodi:

- Elfen gyfyngedig yn gysylltiedig i waith rheoleiddio a safonau
- Elfen anghyfyngedig yn gysylltiedig i holl waith yr Awdurdod
- Y bwriad yw, gydag amser, bydd yr elfen gyfyngedig yn cyfateb i gyfanswm o ddau fis o gostau gweithredu
- Nid yw ffurf bresennol yr arian wrth gefn yn cydymffurfio â'r rhaniad dau draean / un traean hwn
- Bydd lefel a lluniad ein cronfeydd yn cael eu hadrodd trwy ein Hadroddiad Blynyddol
- Bydd angen rhoi unrhyw arian a gymerir o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn yn ôl yn y flwyddyn neu flynyddoedd dilynol.

### Incwm ffioedd

10.35 O 1 Awst 2015 mae'r Awdurdod wedi ei ariannu'n bennaf trwy ffioedd a delir gan y cyrff rheoleiddio. Mae hyn yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 a Rheoliadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015.

10.36 Dosbarthir derbynebau o ffioedd gan y cyrff rheoleiddiol fel incwm a'u cydnabod dros y cyfnod a gytunwyd yn y Rheoliadau Ffioedd. Bydd unrhyw warged yn cael ei ystyried wrth gyfrifo cyfraddau ffioedd yn y dyfodol i'r fath raddau nad yw'n angenrheidiol i gynnal lefel briodol o gronfa wrth gefn yn unol â pholisi wrth gefn yr Awdurdod.

### Incwm gweithredol

10.37 Mae'r incwm gweithredu yn cynnwys: Adferiadau costau achosion Adran 29; llog a dderbyniwyd o fuddsoddiadau incwm eiddo a dderbyniwyd gan is-denantiaid; ffioedd a dderbyniwyd o ddarparu gwasanaethau i aelodau eraill y gymuned rheoleiddio iechyd; a ffioedd achredu a dderbyniwyd gan ymgeiswyr y sector wirfoddol sydd eisiau cael eu hachredu.

10.38 Mae incwm cofrestrau achrededig yn cynnwys ffioedd achredu sefydlog na ellir eu had-dalu, sy'n daladwy pan fydd dogfennau cais wedi eu cyflwyno i'r Awdurdod, a ffioedd adnewyddu, sy'n daladwy pan ddaw blwyddyn yr achrediad i ben. Cydnabyddir incwm o ffioedd ymgeisio cychwynnol yn y datganiad cost gweithredu yn unol â chwblhau gwaith yr Awdurdod parthed y rhain. Cydnabyddir incwm o ffioedd adnewyddu yn y datganiad cost gweithredu ar adeg penderfyniad adnewyddu'r Awdurdod.

### *Costau ac adferiadau Adran 29*

10.39 Dan ei rymoedd Adran 29, gall yr Awdurdod apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad disgyblu corff rheoleiddio. Codir costau'r Awdurdod wrth weithred apeliadau Adran 29 ar y datganiad gwariant net cynhwysfawr ar sail croniadau.

10.40 O ganlyniad i farnwriaeth a wneir gan y llysoedd, gellir dyrannu costau i'r Awdurdod os yw'r achos yn llwyddiannus, neu gellir dyrannu costau yn erbyn yr Awdurdod os

collir yr achos. Ble dyrannir costau i, neu yn erbyn, yr Awdurdod, gellir diddymu neu leihau'r rhain yn hwyrach o ganlyniad i apêl lwyddiannus naill ai gan yr amddiffynnydd neu'r Awdurdod. Cyn ystyried naill ai incwm neu wariant, mae'r Awdurdod yn ystyried canlyniad tebygol pob achos yn ôl ei rinweddau felly.

10.41 Os dyrannir costau'r achos i'r Awdurdod, ni ddaw'r incwm i gyfrif oni bai bod dyfarniad terfynol diwrthwynebiad o blaid yr Awdurdod neu gytundeb rhwng pleidiau o'r gyfradd o gostau fyd yn cael eu talu a'u cyflwyno i'r llysoedd. Pan fydd achos wedi ei ennill ond y canlyniad terfynol yn dal yn amodol i apêl, a'i bod bron yn sicr y bydd yr achos cael ei ennill ar apêl a chostau'n cael eu dyfarnu i'r Awdurdod, fe ddatgelir ased amodol.

10.42 Yn achos costau a ddyrannir yn erbyn yr Awdurdod, cydnabyddir costau yn incwm a gwariant pan fydd dyfarniad diwrthwynebiad terfynol yn erbyn yr Awdurdod. Yn ogystal, os collwyd achos ond bod y canlyniad terfynol yn dal yn amodol i apêl, a'i bod yn debygol y bydd costau yn cael eu dyfarnu yn erbyn yr Awdurdod, cydnabyddir darpariaeth yn y cyfrifon. Ble'i bod yn bosibl ond nid yn debygol y bydd yr achos yn cael ei golli ar apêl ac y gallai'r Awdurdod fod yn amodol i gostau, datgelir atebolrwydd amodol.

### Treth ar Werth

10.43 Ni ellir adfer treth ar werth (TAW) ar bwrcasau, felly mae'n gost yn y datganiad gwariant net cynhwysfawr ac wedi ei gynnwys dan y pennawd perthnasol i'r math o wariant, na'i gyfalafu os yw'n ymwneud ag ased.

### Costau budd-daliadau ymddeoliad

10.44 Mae cyflogeion presennol a gorffennol wedi eu cynnwys yn narpariaethau Cynllun Pensiynau'r GIG. Mae'r cynllun yn gynllun budd-daliadau diffiniedig, di-nawdd sy'n cwmpasu cyflogeion y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Ni fwriedir i'r cynllun gael ei redeg mewn unrhyw fodd fyddai'n galluogi cyrff y GIG i adnabod eu cyfran o'r asedau ac atebolrwydd sylfaenol y cynllun.

10.45 Felly, cyfrifir ar gyfer y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniad diffiniedig; cymerir y gost i'r GIG o gymryd rhan yn y cynllun fel cyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

10.46 Ar gyfer ymddeol yn gynnar, ac eithrio oherwydd salwch, ni ariennir y taliadau atebolrwydd pensiwn atodol gan y cynllun. Codir swm llawn yr atebolrwydd ar gyfer costau atodol i'r datganiad incwm ar yr un pryd ag y mae'r Awdurdod yn ymroi ei hun i ymddeoliad, waeth beth yw'r dull talu.

### Prydlesau gweithredu

10.47 Rhoddir cost rhent sy'n daladwy dan brydlesau gweithredol ar y datganiad gwariant net cynhwysfawr ar sail gronnol.

### Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), addasiadau a dehongliadau dan sylw ond nid eto'n effeithiol neu wedi eu mabwysiadu

10.48 Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS8), polisïau cyfrifo, newidiadau mewn amcangyfrifon a gwallau cyfrifyddu, yn gofyn am ddatgeliadau parthed IFRS newydd, addasiadau a dehongliadau sydd, neu a fydd yn berthnasol wedi'r cyfnod

cyfrifyddu. Mae yna nifer o IFRSau, addasiadau a dehongliadau a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol sy'n effeithiol ar gyfer datganiadau ariannol wedi'r cyfnod cyfrifo hwn. Nid yw'r canlynol wedi eu mabwysiadu'n gynnar gan yr Awdurdod:

- IFRS 15 – Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid
- IFRS 9 – Arfau ariannol
- IFRS 16 – Prydlesau

10.49 Mae IFRS 15 a 9 yn effeithiol o 2018/19 a byddant yn cael eu gweithredu gan yr Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. Mae IFRS 16 yn effeithiol o 2019/20 a byddant yn cael eu gweithredu gan yr Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.

10.50 Yn dilyn asesiad manwl, mae'r Awdurdod wedi pennu na fydd unrhyw drafodion na balans materol wedi eu heffeithio gan y newidiadau hyn. Felly, gallwn ddatgan nad oes disgwyl i weithrediad a chymhwysiad IFRS 15 ac IFRS 9 gael effaith faterol ar Ddatganiadau Ariannol yr Awdurdod. Dylid nodi yn ystod yr asesiad ar gyfer IFRS 9 y defnyddiwyd cyfradd diffyg gofalus o 10% yn absenoldeb unrhyw ddata diffyg gwirioneddol.

### Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd sydd wedi eu mabwysiadu'n gynnar

10.51 Nid yw'r Awdurdod wedi mabwysiadu unrhyw IFRSau, addasiadau na dehongliadau yn gynnar.

## 2. Dadansoddiad net o gostau/(incwm) gweithredu fesul segment

### Dadansoddiad segmentau

10.52 Cododd costau/(incwm) gweithredu net i bedwar prif ffrwd gwariant yr Awdurdod fel a ganlyn. Nid yw'r Awdurdod yn cynnal datganiadau o safle ariannol ar wahân ar gyfer y ffrydiau hyn. Ni chafwyd unrhyw drafodion ar y cyd rhwng segmentau yn y flwyddyn.

| 31 Mawrth 2018 | Gwaith rheoleiddio a gosod safonau | Cofrestrau achrededig | Comisiynau gan Lywodraeth(au) | Cyngor i sefydliadau eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau gweithredu | 3,876 | 376 | 152 | 18 | 4,422 |
| Incwm gweithredol | (4,201) | (225) | (159) | (26) | (4,611) |
| Costau gweithredu net/(incwm) | (325) | 151 | (7) | (8) | (189) |
| **31 Mawrth 2017** | **Gwaith rheoleiddio a gosod safonau** | **Cofrestrau achrededig** | **Comisiynau gan Lywodraeth(au)** | **Cyngor i sefydliadau eraill** | **Cyfanswm** |

| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau gweithredu | 4,137 | 355 | 17 | 11 | 4,520 |
| Incwm gweithredol | (4,176) | (215) | (17) | (2) | (4,410) |
| Costau gweithredu net/(incwm) | (39) | 140 | - | 9 | 110 |

10.53 Disgrifir gwaith y segmentau gweithredu hyn yn yr adroddiad perfformiad.

### 3. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Costau personau a gyflogir

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2017/18 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 2,261 | - | 2,261 | 2,094 | - | 2,094 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 254 | - | 254 | 229 | - | 229 |
| Costau pensiynau | 258 | - | 258 | 253 | - | 253 |
| Costau asiantaeth/staff dros dro | - | 4 | 4 | - | 16 | 16 |
| | **2,773** | **4** | **2,777** | **2,576** | **16** | **2,592** |

10.54 Ceir manylion llawn y materion hyn ar dudalennau 84 i 85 yn yr Adroddiad Staff.

### 4. Costau gweinyddol eraill

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Tâl aelodau | | 91 | 92 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | | 468 | 800 |
| Eiddo a pheiriannau sefydlog | | 561 | 549 |
| Hyfforddiant a recriwtio | | 43 | 140 |
| AD, cyfathrebu a chynadleddau | | 109 | 71 |
| Costau sefydliadol | | 86 | 85 |
| Ffi archwiliad allanol | | 20 | 19 |
| Costau eraill | | 83 | 77 |
| **Cyfanswm** | | **1,461** | **1,833** |

| Gwariant nad yw'n arian parod: | | | |
|---|---|---|---|
| Amorteiddiad | 7 | 117 | 39 |
| Dibrisiant | 8 | 67 | 56 |
| **Cyfanswm gwariant nad yw'n arian parod** | | **184** | **95** |
| **Cyfanswm costau gweinyddol** | | **1,645** | **1,928** |

* Gwnaeth yr Awdurdod daliadau o £301,015.27 (£308,683 yn 2016/17) i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am waith nad oedd yn waith archwilio parthed costau llety'r Awdurdod am ddefnydd o ofod swyddfa yn 157-197 Buckingham Palace Road, Llundain.

## 5. Incwm Ffioedd

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm Ffioedd gan y Rheolyddion | 3,909 | 3,855 |
| **Cyfanswm** | **3,909** | **3,855** |

10.55 Roedd incwm ffioedd a dderbyniwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (£710k), y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (1,750k) a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (£879k) yn cyfateb i fwy na 10 y cant o gyfanswm refeniw'r PSA yn unigol. Telir y ffioedd yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 a Rheoliadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ffioedd) 2015.

## 6. Incwm Gweithredu

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Adfer costau Adran 29 | 112 | 152 |
| Incwm cofrestrau achrededig | 225 | 215 |
| Ffioedd o gwsmeriaid allanol | 26 | 2 |
| Incwm is-denantiaid | 132 | 132 |
| Incwm gweithredu arall | 48 | 37 |
| Incwm o Lywodraethu'r DU | 159 | 17 |
| Cyfanswm Incwm Gweithredol | **702** | **555** |

## 7. Asedau Anniriaethol

| 31 Mawrth 2018 | Cronfa ddata Adran 29 |
|---|---|
| | £'000 |
| **Prisiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 393 |
| | |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 158 |

| | |
|---|---|
| Cost am y cyfnod | 117 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 275 |
| | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | 118 |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 235 |
| **31 Mawrth 2017** | **Cronfa ddata Adran 29** |
| | **£'000** |
| **Prisiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 393 |
| | |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 119 |
| Cost am y cyfnod | 39 |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 158 |
| | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | 235 |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 274 |

10.56 Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 10.10 tudalen 97-98.

## 8. Asedau nad ydynt yn gyfredol

### Eiddo, offer a chyfarpar

| 31 Mawrth 2018 | Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | Offer TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Prisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 149 | 432 | 581 |
| Ychwanegiadau | 1 | 67 | 68 |
| Gwarediadau | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 150 | 499 | 649 |
| | | | |
| | | | **Dibrisiant** |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 132 | 334 | 466 |
| Newid yn y cyfnod | 8 | 59 | 67 |
| Gwarediadau | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 140 | 393 | 533 |
| | | | |

| | | | Gwerth net yn y llyfrau |
|---|---|---|---|
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **10** | **106** | **116** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | 17 | 98 | 115 |

10.57 Mae'r holl eiddo yn eiddo llwyr i'r Awdurdod heb unrhyw atebolrwydd ariannol cysylltiedig.

| 31 Mawrth 2017 | Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | Offer TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Prisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 151 | 351 | 502 |
| Ychwanegiadau | 2 | 82 | 84 |
| Gwarediadau | (4) | (1) | (5) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 149 | 432 | 581 |
| | | | |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 127 | 288 | 415 |
| Newid yn y cyfnod | 9 | 47 | 56 |
| Gwarediadau | (4) | (1) | (5) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 132 | 334 | 466 |
| | | | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **17** | **98** | **115** |
| **Ar 31 Mawrth 2016** | **24** | **63** | **87** |

## 9. Derbyniadwyon masnach ac asedau cyfredol eraill

10.58 Symiau a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 78 | 54 |
| Rhagdaliadau | 211 | 199 |
| **Cyfanswm masnach a derbyniadwyon eraill** | **289** | **253** |
| | | |

10.59 Nid oes unrhyw symiau masnach nac asedau eraill sy'n daladwy wedi mwy na blwyddyn.

### 10. Adneuon tymor byr

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill 2017 | 0 | 0 |
| Newid net mewn adneuon | 750 | 0 |
| Balans ar 31 Mawrth 2018 | 750 | 0 |

10.60 Mae adneuon tymor byr yn cael eu gadael gyda banciau gyda thymor o hyd ar 9 mis. Mae'r adneuon yn cydymffurfio gyda pholisi wrth gefn yr Awdurdod. Ar 31 Mawrth 2018, nid oedd adneuon tymor byr yn aeddfedu wedi mwy nag un flwyddyn.

### 11. Arian a chyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill 2017 | 5,425 | 4,579 |
| Newidiadau net mewn arian a chyfatebol i arian parod | (343) | 846 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **5,082** | **5,425** |
| *Roedd y balans canlynol wedi eu cadw yn:* | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 83 | 239 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 4,999 | 5,186 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **5,082** | **5,425** |

### 12. Taladwyon masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

10.61 Symiau a ddaw yn ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 14 | 17 |
| Trethu a nawdd cymdeithasol | 73 | 64 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 4,194 | 4,066 |
| ***Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill*** | ***4,281*** | **4,147** |

10.62 Nid oedd unrhyw symiau masnach taladwy nac atebolrwydd arall yn daladwy wedi mwy na blwyddyn.

### 13. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Darpariaeth HMRC |
|---|---|
| | **£'000** |
| Balans ar 31 Mawrth 2017 | 7 |
| Yn codi yn ystod y cyfnod | 57 |

| | |
|---|---|
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd | (53) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **11** |

10.63 Mae'r ddarpariaeth HMRC ar 31 Mawrth 2018 yn cynrychioli atebolrwydd a amcangyfrifir yr Awdurdod ar gyfer treth incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol parthed costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Bwrdd ac atebolrwydd treth ar log a dderbyniwyd gan fuddsoddiadau'r banc

### 14. Nodyn cronfeydd cyffredinol atodol

| | **Elfen Anghyfyngedig** Holl waith (Rheoleiddio a gosod safonau / cofrestrau Achrededig / Comisiynau gan Lywodraeth(au) / Cyngor i sefydliadau eraill) | **Elfen Gyfyngedig** (Gwaith rheoleiddio a gosod safonau) | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | 919 | 955* | 1,874 |
| **Newidiadau mewn cronfa wrth gefn yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2017** | | | |
| Gwaith rheoleiddio a gosod safonau | | 325 | 325 |
| Cofrestrau achrededig | (151) | | (151) |
| Comisiynau gan Lywodraeth(au) | 7 | | 7 |
| Cyngor i sefydliadau eraill | 8 | | 8 |
| **Addasiadau cyfrifo eraill** | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **783** | **1,280** | **2,063** |

*Mae hyn yn cynnwys elfennau arian parod ac nid arian parod.

### 15. Asedau ac atebolrwydd amodol

#### Asedau

10.64 Nid oedd yna unrhyw asedau amodol ar 31 Mawrth 2018 (dim ar 31 Mawrth 2017).

#### Rhwymedigaethau

10.65 Roedd yna bedwar achos yn yr Uchel Lys, dan rymoedd Adran 29 yr Awdurdod, heb eu pennu ar 31 Mawrth 2018. Felly roedd ansicrwydd, ar y dyddiad hwnnw, o ran y canlyniadau ariannol cysylltiedig hyd nes y gwneir dyfarniad terfynol.

10.66 Gallai dyfarniad gan yr Uchel Lys ganiatáu adfer y costau hyn gan yr Awdurdod neu, godi tâl ar yr Awdurdod am gostau'r corff rheoleiddio a'i weithiwr cofrestredig.

10.67 Yn y cyfnod yn dilyn adrodd, mae tri o'r pedwar achos wedi eu pennu o blaid yr Awdurdod.

10.68 Yn seiliedig ar gytundeb presennol gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae £161k o'r hen Gyllid Cymorth Grant yn cael ei ddargadw gan yr Awdurdod i'w wario fel y cytunwyd gyda'r Adran ar sail barhaus, o ganlyniad yn y dyfodol gall fod amgylchiadau pan fydd cyfran neu'r cyfan o'r swm hwn yn daladwy i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### 16. Ymrwymiadau cyfalaf

10.69 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar ddyddiadau'r datganiad safle ariannol.

### 17. Ymrwymiadau dan brydlesau

#### Prydlesau gweithredu

10.70 Mae costau'r Awdurdod yn cynnwys taliadau rhent a thâl gwasanaeth dan renti prydles gweithredol.

10.71 Roedd gan yr Awdurdod yr oblygiadau canlynol dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo:

| Adeiladau | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---:|---:|
| | **£'000** | **£'000** |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 297 | 297 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 0 | 297 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol** | **297** | **594** |

10.72 Mae swm o £297k wedi ei gydnabod fel taliad prydles yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr.

10.73 Mae'r Awdurdod yn is-osod ei eiddo i ddau is-denant ac yn cydnabod derbynion rent a thâl gwasanaeth o is-osod fel incwm. Mae swm o £83k parthed y taliadau hyn wedi ei gydnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

10.74 Rhoddir cyfanswm isafswm derbynion les sy'n daladwy i'r Awdurdod dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod:

| Isafswm derbynion is-osod yn y dyfodol | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---:|---:|
| | **£'000** | **£'000** |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 83 | 83 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 0 | 36 |
| **Cyfanswm isafswm derbynion is-osod** | **83** | **119** |

#### Prydlesau ariannol

10.75 Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw brydlesau ariannol yn y cyfnod i 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2017.

## 18. Partïon cysylltiedig

10.76 Mae’r Awdurdod yn atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

10.77 Mae’r Awdurdod yn gorff cyhoeddus annosbarthedig. Fe'i hariannwyd a noddi gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hyd at 1 Awst 2015. Mae'r Adran hefyd wedi darparu cyllid i gefnogi'r cynllun cofrestrau achrededig ac i dalu am gyngor a gomisiynwyd gan yr Awdurdod. Ystyrir yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fod yn barti cysylltiedig.

10.78 Yn ystod y cyfnod i 31 Mawrth 2018, nid oedd unrhyw gymorth grant na chyllid arall wedi ei ddarparu gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2016/17: £0.17m). Yn ystod y cyfnod i 31 Mawrth 2018 mae'r Awdurdod wedi derbyn £144K gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol parthed gwaith a gomisiynwyd (2016/17: £17K).

10.79 Yn ystod y cyfnod i 31 Mawrth 2018 mae'r Awdurdod wedi derbyn £15K gan Lywodraeth yr Alban parthed gwaith a gomisiynwyd.

10.80 Mae'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yn perthyn i grŵp yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac fe'i cydnabyddir fel parti cysylltiedig. Yn ystod y cyfnod i 31 Mawrth 2018 mae'r Awdurdod wedi derbyn £0.88m parthed incwm ffioedd 2018/19 (2016/17 £0.88 miliwn parthed incwm ffioedd 2017/18) gan yr HCPC. Yn ogystal â hyn, mae'r Awdurdod wedi derbyn £6k gan yr HCPC (2016/17 £41k) parthed pedwar achos Uchel Lys dan bŵer Adran 29 yr Awdurdod.

10.81 Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn perthyn i grŵp yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac fe'i cydnabyddir fel parti cysylltiedig. Yn ystod y cyfnod i 31 Mawrth 2018 mae'r Awdurdod wedi derbyn £1.75m parthed incwm ffioedd 2018/19 gan yr NMC. Yn ogystal â hyn, mae'r Awdurdod wedi derbyn £84k gan yr NMC parthed chwe achos Uchel Lys dan bŵer Adran 29 yr Awdurdod.

10.82 Mae’r Awdurdod yn cynnal cofrestr o fuddiannau ar gyfer y Cadeirydd ac aelodau’r Bwrdd, sydd ar gael ar y wefan. O bryd i’w gilydd, bydd yr Ysgrifennydd Gweithredol yn diweddaru’r gofrestr i adlewyrchu unrhyw newid ym muddiannau aelodau’r Bwrdd. Yn ystod y cyfnod ddaeth i ben 31 Mawrth 2018, ni chyflawnodd unrhyw aelod o’r Bwrdd drafodion partïon cysylltiedig gyda’r Awdurdod (ar wahân i'r adroddiad tâl a ddisgrifir uchod yn yr Adroddiad Tâl a Staff).

10.83 Gofynnwyd i’r uwch dîm rheoli hefyd ddatgelu unrhyw drafodion trydydd parti cysylltiedig. Yn ystod 2017/18, nid oedd unrhyw drafodion partïon cysylltiedig i'w datgelu (ar wahân i'r adroddiad tâl a ddisgrifir uchod yn yr Adroddiad Tâl a Staff).

## 19. Colledion a thaliadau arbennig

10.84 Roedd colledion a thaliadau arbennig yn unigol ac yn gyfan gwbl ymhell islaw'r trothwy adrodd o £300,000.

## 20. Ôl ddatganiad o ddigwyddiadau sefyllfa ariannol

10.85 Awdurdodwyd cyhoeddi’r cyfrifon hyn ar y dyddiad pan cawsont eu hardystio gan y C&AG.

## 21. Arfau Ariannol

### Rheoli risg ariannol

10.86 Mae safon adrodd ariannol IFRS 7 yn gofyn am ddatgelu rôl arfau ariannol yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid risgiau mae corff yn wynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

10.87 Os ystyried sut mae'r awdurdod wedi ei ariannu, a bod ganddo rymoedd cyfyngedig i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd dros ben, a bod ei asedau ac atebolrwydd ariannol wedi eu creu gan weithgareddau gweithredol dydd i ddydd, mae amlygiad yr Awdurdod i risgiau ariannol wedi ei leihau.

10.88 Mae dyledwyr a chredydwyr fydd yn aeddfedu neu'n daladwy o fewn 12 mis i ddyddiad y datganiad o safle ariannol wedi eu hepgor o bob datguddiad.

### Risg arian tramor

10.89 Mae'r Awdurdod yn sefydliad domestig gyda'r mwyafrif helaeth o drafodion, asedau ac atebolrwydd wedi eu seilio yn y Deyrnas Unedig ac ar Sterling. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw weithredoedd dramor. Felly ni effeithir yr Awdurdod rhyw lawer gan amrywiaethau yn y gyfradd gyfnewid.

### Risg cyfradd llog

10.90 Ni chafodd yr Awdurdod unrhyw fenthyciad ac fe dderbyniwyd y ffioedd gan y cyrff rheoleiddio yn 2017/18 felly roedd amlygiad yr Awdurdod i'r risg yma yn isel iawn. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan yr Awdurdod falans arian parod nad yw'n dwyn llog o £4,423,948.69 a £1,408,141.85 mewn adnau banc yn creu llog bychan.

### Risg credyd

10.91 Gan y daw'r rhan fwyaf o incwm yr Awdurdod o ffioedd statudol sy'n daladwy gan gyrff rheoleiddio, mae'r risg credyd i'r Awdurdod yn isel.

### Risg dirwyn i ben

10.92 Mae'r Awdurdod yn dibynnu'n bennaf ar incwm ffioedd gyda ffioedd statudol yn daladwy ar gychwyn y flwyddyn ariannol, felly mae amlygiad yr Awdurdod i risg dirwyn i ben yn isel. Fodd bynnag, gallai amseriad derbyn ffioedd statudol o bosibl arwain at broblemau llif arian byr dymor. Mae'r Awdurdod yn lliniaru'r risg hon trwy gynnal lefel resymol o arian wrth gefn.

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

Ffôn: **020 7389 8030**
Ffacs: **020 7389 8040**
E-bost: **info@professionalstandards.org.uk**
Gwefan: **www.professionalstandards.org.uk**

© Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Mehefin 2018